**ethrylyth hy a ka6as e kyfreyth a elwyt er rwng e brytannyeyt** marcyan. Ar kyfreyth honno em plyth pethe6 ereyll a emchwe**l6s al6ryt 6renyn o brytanec en saysnec ac a elwys mechenlage.** A gwedy mar6 k6helyn llywodraeth e teyrnas a tryga6d en lla6 er racdy**wededyc 6renhynes honno ac oy map er h6nn a elwyt seyssyll.** Ac en er amser h6nn6 seyth mlwyd oed seyssyll. ac wrth hen**ny nyt oed adas y oedran y lywodraeth e teyrnas. Ac o acha6s** henny kanys grym6s o kyghor a doethynep e kymyrth y 6am **holl lywodraeth e ky6oeth en y lla6 eh6n. A phan aeth hythe6** o le6uer e wuched hon seyssyll a kymyrth coron e teyrnas. Gwe**dy seyssyll kyn6arch y 6ap a doeth en 6renyn. Ac en ol kyn6arch** e doeth dan y 6ra6t en 6renyn. Ac en ol dan e doeth Mor6d y 6ap en**te6 en 6renyn a h6nn6 dyr6a6r oed meynt y clot ae haelder pey** nat emrodey y ormod cre6londer. A phan lyttyey nyt arbedey y nep **eny lladhey o chaffey o ar6e6 ac ergydye6 e 6eynt honno. Ac y gyt a** henny teg oed o edrych arna6 a hael en rody ~~rody~~. Ac nyt oed er eyl **a 6ey kyn de6ret ac ef en e teyrnas or a alley emky6erbynneyt ac ef.** Ac en y amser ef e doeth brenyn moryan a llw ma6r kantha6 yr **gogled a dechre6 anreythya6 e gwladoed. Ac en y erbyn e de6th** mor6d a holl kynn6lleyt6a a ye6enctyt e teyrnas oed eyda6 ef **ac en dyannot emlad ac ef. A mwy a ladey ef eh6nan nor rann** wyhaf oe lw. Ac gwedy kaffael ohona6 ef e wud6golyaeth ny **dyeghys 6n en 6yw nys lladey. kanys erchy a gwnaey dwyn at**ta6 er h6nn en ol y gylyd hyt pan 6ey ef eh6n ae lladey oll ac o henny **ed eylanwey ente6 y cre6londer. Ac gwedy blyna6 ohona6 gorffo**wys echedyc a or6c ac gorchymyn e6 blyghya6 en 6yw ac gwedy **e blyghyet e6 lloscy. Ac emplyth henny a phethe6 ereyll oe dywal**der ae cre6londer ef. e damweynny6s ryw anthyget6en yda6 **y dyal y enwyred arnaw. Ac esef oed henny ryw bwyst6yl a de6th** y 6rth 6or ywerdon ac ny chlywyt eyryoet kyfry6 any6eyl y cre6londer. //

Llanstephan 1 t. 55
**a honno hep orffowys a lynghey e tyrdywyllodron a presswylynt** kerlla6 e weylgy. Ac gwedy klybot o 6or6d e chwedyl h6nn6 ef a **de6th eh6nan y emlad ar bwyst6yl h6nn6. Ac gwedy trewlya6 oho**na6 y holl ar6e6 en o6er er any6eyl h6nn6 ae sa6yn en agoret **ae kyrch6s ac ae llygh6s megys pysc bychan. Gor6ynnya6n.** Pym meyb hagen a ganadoed yda6 a hynaf oed onad6n Gorbo**nya6n. a h6nn6 a kymyrth llywodraeth e teyrnas. kanys nyt** oed en er amser. h6nn6 gwr ya6nach noc ef. na mwy a karey **Gwyryoned. nac a lywyey e pobyl en karedygach. kanys gwas**tat oed y 6oes ae de6ode6 ae annyan. a dyled6s anryded a taley **yr dwywe6 ac 6nya6n wyryoned yr pobyl. A thrwy holl** teyrnas enys prydeyn templhe6 e dwywe6 en e dynassoed **a atnewydey ac ereyll o newyd a adeley. Ac en y holl amseroed** ef kymeynt wu amylder a ryodres er enys o 6erthed ac go**l6t ac nat oed nep 6n or enyssed en y chylch a kyffelyppyt ydy** kanys annoc a gwnaey e brenyn e tyrdywyllodron y dywl**lya6 e dayar. ac e6 hamdyffyn rac treys e6 harglwydy. Ar** gweyssyon ye6eync dewr ar emladwyr a ky6oethogey o e6r **ac aryant a meyrch ac ar6e6. hyt nat oed reyt y nep gwne6th6r** kam na threys oy gylyd. Ac er rwng e gweythredoed hyn **a llawer o de6ode6 da ereyll. tal6 dylyet yr annyan a or6c. ac or** lle6uer honn ed aeth ac eg kaer l6ndeyn e cladwyt. Arthal. **AC gwedy Gor6ynya6n e de6th arthal y 6ra6t ente6 en 6renyn** ac em pob peth hagen gwrthwynep oed ef y weythredoed y **6ra6t. kanys er rey bonhedyc dyleda6c a la6uryey ef e6 hyst6ng** ar rey an6onhedyc anyleda6c a 6rdey ac a dyrchafey. Er rey ber**tha6c a chy6oetha6c ef ae hanreythyey a chynn6lla6 anther6y**nedyc swllt. Ac gwedy gwelet o wyrda e teyrnas henny ny allassant **y dyodef a 6ey hwy namyn en kyt*d6un* ky6ody en y erbyn ae** 6rthlad o kadeyr e teyrnas. ac 6rda6 elydyr y 6ra6t en 6renyn //

Llanstephan 1 t. 56
**er h6nn Gwedy henny o acha6s e tr6gared a gwnaeth ae 6ra6t a** elwyt elydyr war. Ac esef oed henny gwedy y 6ot ef en llywya6 **e teyrnas trwy pym mlyned dywyrna6t o damweyn ed oed en**

**hely** en forest llwyn e kalatyr ef a ky6arf6 ac ef arthal y 6ra6t er h6n **a dyholyessyt or 6renhynyaeth Gwedy ry crwydra6 pob gwlat** en keyssya6 nerth a chanh6rth6y y orescyn y ky6oeth tra**che6yn. a hep kaffael dym. Ac gwedy na alley a 6ey hwy dyodef** er aghanoctyt ar dodoed arna6 emchwel6t trache6yn y enys **prydeyn a gwnathoed. a dec marcha6c y gyt ac ef. ac en my**net y owuy e gwyr ry wuessynt kytemdeythyon neyllt6edyc **yda6 gynt ac en kerdet trwy e koet h6nn6 e ky6arf6 ac elydyr** y 6ra6t en dyarwybot. Ac y gyt ac y gweles elydyr ef redec a **or6c a mynet dwyla6 m6nygyl yda6. ar rody llawer o c6ssane6** yda6. Ac gwedy wyla6 a chwyna6 en hyr y tr6eny ae agkyfnerth **ef ae d6c kantha6 hyt eg kaer alcl6t. ac ae k6dyws en y esta6ell.** Ac gwedy henny dychymyg6 a gwnaeth y 6ot en claf. ac an**6on kennade6 a gwnaeth tros pob gwlat en enys prydeyn ac** erchy y pa6b or tywyssogyon a oedynt a dana6 ef dy6ot oy edrych. **Ac gwedy dy6ot pawb hyt e dynas erchy a or6c y pob 6n ar neyll**t6 dy6ot atta6 oy esta6ell en tawel a hep ffrost. kanys ef a dy**wedey bot en argywed6s oy penn o delhynt llawer y gyt ona**d6nt. Ac esef a or6c pob 6n onad6n cred6 henny a dy6ot pob **6n ol en ol megys y harchassey. A megys e delhey pob 6n e gor**chymynney e~~y~~lydyr yr <u>gwassaethwyr</u> oed ossodedyc kantha6 **y henny kymryt pob 6n mal e delhey a llad y penn ony g6rhaey** eylweyt y arthal y 6ra6t. ac e6elly e gwnaey y pob 6n ar neyllt6. **ac e6elly en ed oed kymher6ed o6yn e tagnhe6edws ef pa6b** ae 6ra6t. Ac or dywed gwedy kadarnha6 e kerenhyd honno **er r6gth6nt elydyr a kymyrth arthal y 6ra6t ac ae d6c kan**tha6 hyt eg kaer efra6c ac eno e kymyrth ef e coron y am y penn //

Llanstephan 1 t. 57
**eh6n ae dody am pen y 6ra6t. Ac wrth henny e ka6as ente6 er** en6 h6nn6 o henny allan. elydyr war. Ac odyna dec mlyned e b6 **arthal en gwledych6 a pheydya6 a gwnaeth ar drycde6ode6 a** wuessynt arna6 gynt ac odyna allan anryded6 e bonhedygyon **ar dyledogyon ac estwng er rey andyleda6c a thalw y pa6b ~~y pa6b~~** y dylyet. ac or dywed y 6ar6 ac eg kaer llyr <u>e</u> cladwyt. **AC ena er eylweyth ed etholet elydyr en 6renyn. Ac eyssyo**es hyt tra ed oed ef en erlyt gweythredoed a de6ode6 **Gor6ynya6n y 6ra6t ef er hynaf en holl daeony. e de6 6roder** ye6haf yda6 J6geyn a phered6r a kynn6llassant llw ma6r **ar6a6c o pob parth ac a dechre6ssant emlad ac ef. Ac gwedy** ar6er6 ohon6 or wud6golyaeth wynt a dalyassant elydyr **war ac ae carcharassant ef em me6n twr eg kaer l6ndeyn.** a gossot keytweyt oy kadw. Ac odyna er rannassant e teyrnas **en dwy rann er rygth6nt. Ac esef e dygwyd6s er ran J6geyn** o h6myr hyt e gorllewyn. Sef yw henny lloegyr. a chymry. a **chernyw. Ac en rann pered6r e dygwyd6s o h6myr h6nt** e gogled ar alban oll. Ac gwedy llythra6 seyth mlyned mar6 **wu J6geyn. ar teyrnas oll a dygwyd6s en lla6 pered6r. Ac** gwedy y 6ot en 6renyn ar k6byl o enys prydeyn ef ae llywy**a6d en hygar anryded6s megys ed oed aml6c y 6ot en well** noy holl 6rodyr kyn noc ef. ac na choffeyt ke6ey elydyr rac **dahet arglwyd oed pered6r. Ac eyssyoes kany wuyr aghe6** arbet y nep. hy a de6th o dyssy6yt redec ac a d6c pered6r o **per6ed e wuched honn. Ac en e lle ena e kymerwyt elydyr** oy carchar. ar tryded weyth ed 6rdwyt ef en 6renyn. Ac gwedy **trewlya6 ohona6 holl amsser y wuched ef trwy holl daeony** a ya6nder a gwryryoned or wuched honn ed aeth kan ada6 **agrheyfft gwarder y pa6b or a delhynt en y ol ente6.** AC gwedy mar6 elydyr war e de6th Rys 6ap Gor6ynya6n //

Llanstephan 1 t. 58
**en 6renyn. ae ewythyr a e6elych6s ef o synnwyr a <u>phr6der</u> a doe**thynep. A pheydya6 a gwnaeth ef a chre6londer ac erlyn Gwyryoned **a thr6gared en e pobyl. Ac eyryoet ny chy6eylyornes y gan lwybyr** ya6nder a Gwyryoned. AC gwedy Rys e de6th margan 6ap arthal **en 6renyn. A h6nn6 o dysc y ryeny a gwnaeth ya6nder ac a egl6r6s** kenedyl brytaen o weythredoed da. AC en y ol ente6 e de6th eynny**a6n y 6ra6t. a phell y 6rth annwyde6 y 6ra6t wu h6nn6 en** llywya6 e pobyl. ac en e chwechet wlwydyn e b6rywt ef oe 6ren**<u>hyaeth</u>. kanys pella6 y 6rth ya6nder a Gwyryoned a gwnaeth** a rac*dewyssa6* cre6londer. er hon ae b6ryws ef or 6renhynyaeth. **AC en y le ente6 e de6th ydwal 6ap J6geyn y gar ef. Er h6nn a** emya6nha6s o agrheyfft eynnya6n dylyet a ya6nder a dywyllyey. **AC en ol ydwal e de6th R6n 6ap pered6r. AC en ol R6n e <u>d6th</u>** Gereynt 6ap elydyr. AC en ol Gereynt kadell y 6ap ente6. AC **en ol kadell coel. AC en ol coel porrex. AC en ol porrex cheryn.** AC yr cheryn h6nn6 e b6 try meyb. f6lgen. ac eydal. ac andry6 **a phob 6n or rey henny a gwledych6s en ol y gylyd. AC odyna** e de6th 6ryen 6ap andryw. AC en ol 6ryen e de6th kel6yda6c. **AC en ol kel6yda6c e de6th clytno. AC en ol clytno e de6th Gwr**wst. AC en nessaf y 6rwst Meyrya6n. AC en ol Meyrya6n **bleyd6d. AC en ol bleyd6d e de6th Caph. AC en ol caph e** de6th

Oweyn. AC en ol oweyn Seyssyll. AC en ol seyssyll e **de6th Blegywryt. a h6nn6 ny b6 en er ossoed na chynt noc** ef na gwedy keynyad6r kystal ac ef ar rac dahet e caney ac e **gwydyat kel6ydyt e m6ssyc e gelwyt ente6 dyw e gwaree6.** AC en y ol ente6 e de6th arth6ael y 6ra6t ente6. AC en ol arth**mayl e de6th eydol. AC en ol eydol e de6th rydyon. AC en ol** rydyon e de6th ryderch. AC en ol ryderch e de6th sawyl pen **yssel. AC en ol sawyl a de6th pyrr. AC en ol pyrr e de6th** Capoyr. AC en ol capoyr e de6th Manogan y 6ap g6r pr6d //

Llanstephan 1 t. 59

**a hygna6s. ac y ar pob peth 6nya6n wyryoned er rwng e pobyl** a gwnaey. Bely ma6r 6ap Manogan. **ACc gwedy mar6 Manogan e de6th bely ma6r y 6ap en y ol** ente6 en 6renyn. a de6 6geyn mlyned e gwledych6s ef ar enys **prydeyn. Ac yr bely h6nn6 e b6 try meyb. llwd. a chasswalla6n.** a nynnya6. A megys y dyweyt rey or ky6arwydyeyt pedweryd **map a wu yda6 lle6elys. A ll6d oed hynaf or rey henny a h6nn6** gwedy mar6 y tat a kymyrth llywodraeth e teyrnas. Ac odyna e b6 **gogoned6s adeylya6dyr keyryd a chestyll. Ef a atnewyd6s** m6roed ll6ndeyn. ac o anry6edyc tyroed ae damkylchyn6s. Ac **gwedy henny a orchymynn6s yr kywda6twyr adeylat tey** endy megys na bey en e teyrnassoed em pell en y chylch en 6n **dynas adeylade6 na they kymryt ac a 6ey endy. Ac y gyt a hen**ny emlad6r da oed a hael ac ehelaeth en rody bwyt a dya6t y **pa6b or ae keyssyey. A chet bey llawer yda6 o keyryd a dynas**soed honn a karey en wuy noe 6r6n. ac en honno e presswyly**ey er rann wuyhaf or wlwydyn. Ac wrth henny e gelwyt hy** kaer l6d. ac or dywed kaer l6ndeyn. Ac gwedy dy6ot estra6n ke**nedyl ydy e gelwyt hy l6ndyne ne6 ente6 l6ndres.** Lle6elys hagen a karey ef en wuyhaf oy 6rodyr. kanys Gwr **pr6d a doeth oed. Ac gwedy klybot o le6elys ry 6ar6 brenyn** ffreync hep ada6 etty6ed namyn 6n 6erch. ac ada6 e ky6oeth **en lla6 honno. ef a de6th at lwd y 6ra6t ac erchy kyghor a nerth** nyt na mwy yr lles yda6 ef. namyn yr keyssya6 achwaneg6 **anryded ac 6rdas. a theylycda6t y e6 kenedyl o galley ef mynet** y teyrnas ffreync y erchy e 6orwyn honno en wreyc yda6. Ac **en lle y 6ra6t a kytsynnyws ac ef ac wu da kantha6 y kyghor** ar henny. Ac en e lle paratoy lloghe6 ac e6 llenwy o 6archogy**on ar6a6c a chychwyn parth a ffreync. Ac en e lle gwedy e6** dyskynn6 an6on kennade6 a or6gant y 6ynegy y wyrda //

Llanstephan 1 t. 60

**ffreync estyr y neges e dothoed oy cheyssya6. Ac o kyt*kyghor* gwyr**da ffreync a tewyssogyon er rodet e 6orwyn y le6elys a choron e **teyrnas y gyt a hy. Ac gwedy henny ef a lywy6s e ky6oeth en** pr6d ac en doeth ac en dedwyd hyt tra parha6s y oes. **AC gwedy llythra6 talym o amser teyr Gormes a dygwyd6s en** enys prydeyn. ar ny ry klywssey nep or hen oessoed gynt **e6 kyfryw. Kyntaf oed onad6n ryw kenedyl a doeth a elwyt** coraneys a chymeynt oed e6 gwybot ac nat oed amadra6d **or a ky6arffey e gwynt ac ef nys gwyppynt ac wrth henny** ny ellyt 6n drwc 6d6nt. Eyl oed. dyaspat a dodyt pob nos **kal mey wuch pob aelwyt en enys prydeyn. a honno a aey** trwy kallonnoed e dynyon en kymeynt ac e kolley e gwyr **e6 llyw ac e6 nerth. E gwraged a gollynt e6 beychyogy. ar** meybyon ar merchet a gollynt e6 ssynhwyr. ar holl any6ey**llyeyt a adawey en dyffrwyth. Tryded oed yr meynt** 6ey e darmerth ar arllwy a paratoet en llyssoed e bre**nyn ket bey arlwy blwydyn o wuyt a dya6t ny cheffyt** byth dym ohona6 namyn a trewlyt en er 6n nos kyntaf. **Ac eyssyoes kyhoed oed ac amlwg er ormes kyntaf. ar** dwy ormes ereyll nyt oed nep a wypey pa estyr oed 6d6nt. **Ac wrth henny mwy gobeyth oed kaffael gwaret or kyn**taf; noget or eyl ne6 or trydyd. AC wrth henny llwd **6renyn a kymyrth pryder mawr a go6al enda6 kany wy**dyat pa fford e kaffey gwared or gormessoed henny. Ac galw **atta6 a or6c holl wyrda y ky6oeth a go6yn kyghor 6d6nt** pa peth a gwnelynt en erbyn e gormessoed henny. Ac o kyffre**dyn kyghor y wyrda llwd 6ap bely a aeth hyt at le6elys** y 6ra6t brenyn ffreync. kanys gwr doeth a ma6r y kyg**hor oed h6nn6 y keyssya6 kyghor y kantha6. Ac ena pa**ratoy llyghes a gwnaethant a henny en argel ac //

Llanstephan 1 t. 61

**en dysta6 rac gwybot or kenedyl honno estyr e negys. nac o** nep eythyr e brenyn ae kyghorwyr. Ac gwedy bot en para6t **e llyghes ll6d a aeth end6nt a dechre6 holly e moroed. Ac gwedy** klybot o le6elys e chwedle6 henny kany wydyat ef acha6s na ne**ges llynghes y 6ra6t. en e lle ente6 a kynn6ll6s llyghes or parth** arall dyr6a6r y meynt. ac aeth ar e mor en erbyn y 6ra6t. Ac gwe**dy gwelet o lwd henny; ef a edewys y holl longhe6 ar e weyl**gy allan eythyr 6n llong. ac en er 6n honno e de6th en erbyn **y 6ra6t. Ac en e lle pan weles lle6elys henny ente6 em mewn** 6n llong arall a de6th

en y erbyn ente6. Ac gwedy e6 dy6ot y gyt **pob 6n onad6nt a aeth dwyla6 m6nygyl oy gylyd. ac o 6rody**rya6l karyat pob 6n a gressaa6d y gylyd onad6nt. **AC gwedy mynegy o lwd yda6 estyr y neges. y 6ra6t a dywa6t** e gwydyat eh6n pa acha6s ry dodoed yr gwladoed henny. **Ac gwedy henny wynt a kymerassant kyghor y emdydan en am**gen no henny megys nat elhey e Gwynt am e6 hamadra6d **a gwybot or coranyeyt er hyn a dywedynt. Ac ena e perys lle6e**lys Gwne6th6r corn hyr ac trwy e corn dywedwyt. Ac gwedy **bot en para6t e corn lle6elys a dywa6t wrth y 6ra6t er rody ef** yda6 ef ryw pry6et a gad6 rey onad6nt en 6yw y hylya6 rac **o6yn damweynnya6 eylweyth dy6ot er ryw ormes honno. a** chymryt ereyll or pry6et ac e brywa6 em plyth d6fyr ac ef a **kadarnhaey bot en da er rey henny y dystryw kenedyl coran**yeyt. Nyt amgen gwedy e delhey adref or teyrnas eh6n gal6 **pa6b y gyt oy pobyl ef ac o kenedyl e cornayeyt y 6n datlew y** 6ynn6 gwne6th6r tangnhe6ed er rygth6nt. Ac ena Gwedy **delhey pa6b y gyt kymryt e d6fyr h6nn6 ae 6ur6 en kyffre**dyn ar pa6b. ac ef a kadarnhaey e bydynt 6ar6 e coranyeyt. **en k6byl; ac nat eydyga6ey nep oe kenedyl ente6 eh6n.** .R eyl ormes ep ef essyd yth ky6oeth ty. dreyc yw //

Llanstephan 1 t. 62

**honno. a dreyc arall estra6n kenedyl esyd en emlad a hy ac en** keyssya6 y Gorescyn. Ac wrth henny rac llyt e dyt ech dreyc chwy **e dyaspat engyrya6l honno. Ac 6al hynn e gelly kaffael gwy**bot henny. Gwedy ed elych atref mess6r er enys y hyt ae llet **ac en e lle e keffych pwynt e per6ed en ya6n par clad6 e lle** honno. ac gwedy henny par dody kerwyn en lla6n or med gore6 **a aller y gwne6th6r em me6n e clad h6nn6 a llen o paly** ar wynep e kerwyn. ac gwedy hynny yth person d6*h6nan* **byd en y gwylya6. Ac ena ty a wely e dreygye6 en emlad en** ryth ar6thyr any6eylyeyt. ac or dywed en ryth dreygye6 ed **ant yr awyr. Ac or dywed oll gwedy darffo 6d6nt blynaw o** engyrya6l a gyrat emlad wynt a ssyrthyant en ryth de6 por**chell ar warthaf e llen ac a s6dant ac a tynnant e llen ganth6nt** hyt eg gwaela6t e kerwyn ac a e6yan e med en k6byl. ac **a kyscant gwedy henny. Ac ena en e lle plykca tythe6 e llen** en e6 kylch wy. ac en e lle kadarnhaf a keffych yth ky6oeth **em me6n kyst 6aen clad wynt a ch6d em me6n e dayar.** A hyt tra wuynt wy en e lle honno ny da6 gormes y enys **prydeyn o le arall. ACha6s e tryded ormes yw. Gwr lletry**tha6c kadarn essyd en dwyn de wuyt ty ath darmerthe6 **a h6nn6 trwy y hwt ef ae letryth a gwna y pa6b kysc6.** Ac wrth henny e mae reyt y tythe6 en de person d6*h6nan* **gwylya6 de darmerth ath arlwy. a rac gor6ot o kysc6 ar**nat byt kerwyn en lla6n o d6fyr oer ker dy law. a phan **6o kysc6 en treyssya6 arnat dos em me6n e kerwyn.** AC ena ed emchwel6s llwd tra*che6yn* oy wlat. **ac en dyannot e dy6ynn6s ef pa6b en llwyr oe** ky6oeth ef ac or coranyeyt a megys e dyscadoed yda6 **brywa6 e pryfet a or6c em*plyth* dwfyr a b6r6 h6nn6** ar pa6b en kyffredyn. ac en e lle er holl coranyeyt en llwyr //

Llanstephan 1 t. 63

**a wuant 6ar6 hep edyga6ael nep or brytanyeyt.** AC em penn espeyt gwedy henny llwd a perys mess6ra6 **er enys ar y hyt ac ar y llet. ac en ryt*ychen* e ka6as e** per6ed pwynt. ac en e lle honno e perys ef clad6 e dayar **ac en e ffos honno gossot kerwyn en lla6n or med gore6 a** allwyt y kaffael. a llen paly ar y hwynep. Ac ef eh6nan e **nos honno wu en y gwyllyat. ac 6al ed oed e6elly ef a we**les e dreygye6 en emlad. ac gwedy dar6ot 6d6nt blyna6 **a dyffygya6 en emlad wynt a dygwydassant en e kerwyn.** Ac gwedy dar6ot 6d6nt y6et e med kysc6 a gwnaethant **ac en e6 k6sc ll6d a plyg6s e llen en e6 kylch ac en e lle** dyogelaf a ka6as en dynas emreys en eryry em me6n **kyst 6aen y kwdy6s. ac e6elly e peydy6s e dyaspat tym**hestl6s oe ky6oeth. AC gwedy dar6ot henny e brenyn a pe**rys arlwya6 gwled dyr6a6r y meynt. ac gwedy y bot en para6t** ef a perys gossot kerwyn en llawn o d6fyr oer ker y law. ac **ef eh6n en y prya6t person ae gwyly6s. Ac 6al e byd e6elly** en gwyllya6 ef a glyw llawer o amra6aylyon kerde6 a h6n ac **en y kymhell ente6 ar kysc6. Ac en e lle sef a or6c ente6 rac y orthry**m6 ef or kysc6 a llesteyrya6 ar y darpar mynet en e d6fyr. a henny **en 6ynych. Ac or dywed enachaf gwr dyr6a6r y 6eynt en wys**cedyc o ar6e6 tr6m kadarn en dy6ot y me6n a chawell kantha6 **a megys y gnotaassey en dody er holl darmerth ac arlwy or bwyt** ar llyn em mewn e kawell ac en kychwyn y emdeyth ac ef. Ac en **e lle ll6d 6renyn a kychwynn6s en y ol ac dywa6t 6rtha6 6al** hynn. Arho ep ef arho. ket ry gwnelych ty sarhaede6 a **chollede6 ymy kyn no hynn nyt ey weythyon ony barn** de 6ylwryaet ty e trech ac en dew*rach* no my. Ac en dy**annot ente6 a gossodes e kawell ar e lla6r ae arhos ef atta6.** Ac ena gyrat ac angerda6l emlad a wu er rygth6nt a newy- //

Llanstephan 1 t. 64

**dya6 dyrnode6 ar tan en ehedec or cledyfe6 ac or ar6e6 ereyll.** Ac or dywed e tyghet6en ar rac*weles* damwennya6 e wud6**golyaeth yr brenyn. kan wur6 y ormess6r er rygtha6 ar** dayar. Ac gwedy gor6ot arna6 o grym ac angerd erchy **na6d a or6c. Ar brenyn a dywa6t 6rtha6 ente6. Pa wed ep** ef e gallaf y rody na6d yty gwedy e gny6er kollet a sarhaet a **ry gwnaethost tythe6 ymy. Ac ente6 dywa6t en attep yda6 ef.** Ep ef de holl kollede6 eyryoet or ar ry gwne6th6m y yty my **ae hennyllaf en kystal ac y d6g6m. ac o hynn allan my nys** gwnaf y kyffelyp. Ac y gyt a henny gwr ffydla6n 6ydaf byth **bellach. Ar brenyn a kymyrth henny y gantha6. Ac e6elly e** gwara6t ll6d e teyr gormes henny y ar enys prydeyn. Ac o henny **hyt en dywed y oes en hed6ch ac en detwyd e gwledychws.** AC ena or dywed gwedy mar6 llwd map bely ma6r e k6dywt y **corff eg kaer l6ndeyn ker lla6 e porth a elwyr ettwa eg kymraec** oy enw ef porth llwd. ac en saysnec e gelwyr ef lwdes Gate. De6 **6ap hagen a wuessynt yda6. Sef oedynt er rey henny. a6arwy** 6ap llwd. a thene6an 6ap llwd. Ar rey henny 6rth nat oed oet **arnad6nt megys e gellynt llywya6 e teyrnas e gwnaethpwyt** kasswalla6n 6ap bely y 6ra6t ente6 en 6renyn. Ac en e lle gwedy **y 6rda6 ef o coron e teyrnas. ef a kymyrth enda6 haelder a** dayony a chlot a molyant en kymeynt ac en yd oed y clot ef **en ehedec tros e gwladoed ar teyrnassoed em pell y 6rtha6.** Ac odyna gwedy damweynnya6 yda6 ef en k6byl llywodraeth **er holl teyrnas ac nyt oy neyeynt. Eyssyoes kasswalla6n a** emrodes y warder ac ny mynn6s bot y neyeynt en dyran **or teyrnas namyn rody 6d6nt a or6c ran 6a6r or ky6oeth.** Ac esef ar rodes y a6arwy 6ap llwd kaer l6ndeyn a yarllaeth **swyd geynt. Ac y tene6an er rodes yarllaeth kernyw. Ac** ente6 eh6nan en pennad6r ar pa6b ac en arweyn coron e teyrnas. //

Llanstephan 1 t. 65

**AC en er amser h6nn6 megys y keffyr en hystoryae6 gwyr r6ue**yn gwedy dar6ot y wl kessar goreskyn ffreync ef a damwen<u>**nyws**</u> **y dy6ot hyt ar glan traeth rwten. Ac gwedy ~~gwedy~~ gwe**let ohona6 odyna enys prydeyn go6yn a or6c yr nep oed en y kylch **pa gwlat oed honno a pha kenedyl ae ky6anhedey ac ae presswy**lyey. Ac gwedy kaffael ohona6 gwybot ~~ohona6~~ enw e teyrnas **ar pobyl ef a dywa6t. mwyn herc6lff ep ef o 6n kenedyl ed** henym ny er r6ueynwyr. ar brytanyeyt kanys o kenedyl tro **e kerdassam ny. Eneas escwydwyn gwedy dystryw tro a wu** en hentat ynny en kyntaf. Ac 6d6nt wynte6 e b6 hentat br6**t6s 6ap syl6y6s. ~~6ap~~ ascany6s 6ap eneas. Ac onym twyllyr** y ne6 ry dybonhedassant wy. kanys megys y tybygaf ny wdant **wy dym y wrth 6ylwryaeth wrth e6 bot en presswylya6 eythyr** e byt. em me6n er eygya6n. Ac esca6yn herwyd y tebygaf y 6yd **e6 kymhell wynt y tal6 teyrnget ac y e6 gwne6th6r en tre**tha6l. ac y tal6 gwastat wassanaeth yr r6ueynnya6l teylyg**ta6t. Ac eyssyoes ya6n yw en kyntaf erchy 6d6nt talw teyrn**get y wyr r6ueyn kyn e6 llaf6rya6 nac emlad ac wynt. megys **e mae er holl kenedloed ereyll o amgylch e byt en tal6 teyrnget** 6d6nt. a darestyghedygaeth y sened r6ueyn. rac kody o*honam* **nynhe6 hen 6onhed pryaf en hentat ny ae hen teylycta6t** kan ell6ng e6 gwaet wynte6 megys e maent en kereynt ynn. **Ac gwedy an6on o wl kessar er amadrodyon hynn e me6n llythyr** hyt at kasswalla6n llyd6a6 en 6a6r a or6c ente6. ac an6on lly**thyr hyt at wl kessar ar geyrye6 hynn en e llythyr.** KAsswalla6n brenyn e brytanyeyt en **an6on annerch y wl kessar y gyt ar amadra6d hwnn** Anry6ed yw wl kessar meynt chwant a chybydyaet Gwyr **rwueyn kanys rac meynt sychet arnad6nt e6r ac aryant** na allant dyodef en bot ny megys odyeythyr e byt en <u>dyoed</u> //

Llanstephan 1 t. 66

**perygle6 er eygya6n hep gamry6yg6 kymhell swllt a threthe6** arnam. or lle ar ry kynnhalyassam ny eyryoet en ryd dytreth **hed6ch hyt hyn. Ac nyt dyga6n ganth6nt henny namyn** keyssya6 gwaret en rydyt a mynn6 gossot tragywyda6l keythy**wet. kewylyd ytty wl kessar ed wyt en y keyssya6 kanys kyf**fredyn gwythen bonhed essyd yr brytanyeyt ac yr r6ueynwyr. **en llythra6 y gan eneas. ar 6n*ryw* ~~y.~~ kadwyn en rac*egl6ra6*** kadarn kytemdeythas a dyley er rygth6nt. Honno a dyly6t **y cheyssya6 ae herchy ynny. nyt kymhell keythywet arnam** kanys er rydyt honno a ordyfnassam ny ac a dyscassam ny yr **rody ae chynhal. en wuy noc arweyn Gwed keythywet. En** e 6eynt honno e gordyfnassam ny y chaffael ae med6 hyt na **wdam ny 6fydha6 y keythywet. A honno hagen pey keyssynt** e dwywe6 y dwyn y kenhym. ny a lawuryem en 6eynt y **gallem oc en holl nerth oy hatael en e6 herbyn. Ac wrth hen**ny wl kessar byt etnebydedyc yth dyosparth ty en bot ny **en para6t y emlad yth erbyn ty o cheyssy ty dy6ot yr enys** honn megys ed wuyt en gogy6ada6 dy6ot ydy. **AC gwedy gwelet o wl kessar e llythyr h6nn6 en dyan**not paratoy y lyghes a or6c ac arhos Gwynt wrth eylen**wy oy weythret er hyn ar ry dywedassey y kasswalla6n** trwy y lythyr ae kennade6. A gwedy kaffael

ohona6 ef **e dam6nedyc wynt dyrcha6ael hwylye6 a gwnaethant ac** y aber themys e de6th yr tyr ae lw gantha6. Ac 6al ed oedynt **e llonghe6 en kaffael e tyr enachaf kasswalla6n a holl ke**dernyt enys prydeyn kantha6 en dy6ot y kastell dorabel **en y erbyn. ac eno e kymyrth kyghor y gyt ae wyrda pa** wed ed emledynt ac ew gelynyon a pha ansa6d y ll6dynt **y kaffael e tyr. Ac eno e dothoed bely pen*teylw* kasswal**la6n a thywyssa6c y 6ylwryaeth a thrwy kyghor e gwr //

Llanstephan 1 t. 67
**h6nn6 e gwneyt pob peth en e teyrnas. Ac eno he6yt e** dothoedynt de6 neyeynt e brenyn. a6arwy 6ab llwd ty**wyssa6c ll6ndeyn a thene6an yarll kernyw. Eno he6yt e do**thoedynt e try brenyn a oedynt darestyghedyc yda6. nyt am**gen creyd6 brenyn er alban. a Gwerthaed brenyn Gwyned.** a brythael brenyn dy6et. Ar rey henny megys pa6b ar rodes **kyghor en newyd y kyrch6 Gwyr r6ueyn kyn kaffael ona**d6nt 6n dynas nac 6n kastell ar tyr enys prydeyn. ac e6elly **llaf6rya6 y keyssya6 e6 G6rthlad y emdeyth. kanys o cheffynt** wy dywot em*plyth* kedernyt e wlat anha6s a dyryssach **oed e6 gwrthlad. Ac ena o kyt*d6undep* kyghor pa6b wynt** a kyrchassant e traethe6 en e lle ed oed wl kessar ae lw en e6 **pebyllye6. Ac gwedy gossot ena e bydynoed o pob parth wynt** a kymyscassant e6 dehe6oed ac e6 gelynyon. a newydya6 **dyrnode6 ae gylyd. ar ergydye6 en erbyn e lleyll. A hep 6n** gohyr o pob parth e ssyrthynt er rey brathedyc ar ergydye6 **en e6 hemyscaroed. A chyn amlet er redey e tywarchen or** gwaet a chet bey dysse6yt dehe6 wynt en llyngh6 eyry yr **mor. Ac 6al ed oedynt e gwrthwynebedygyon 6ydynoed en** kymysc6 ef a damweynny6s trwy e tynghet6en ky6ar6ot **nynnya6 ac a6arwy 6ap llwd a gwyr ll6ndeyn ar rey** swyd keynt ed oedynt wynte en tewyssogyon arnad6nt **ky6ar6ot a bydyn er amhera6dyr. Ac gwedy e6 hymkymys**c6 y gyt er amherodra6l 6ydyn hayach a wascar6s rac e **brytanyeyt o tew 6ydyn en e6 kywarssangh6. Ac gwedy** e6 bot plyth tra phlyth en de6*dyplyg6* dyrnode6. e damweyn **ar rodes fford y nynnya6 y kaffael en6rya6 ae amhera6**dyr. Ac wrth henny kan dyr6a6r o lewenyd y kyrch6 a **gwnaeth nynnya6 kanys mwy no llawen oed kantha6** kaffael rody 6n dyrna6t yr ryw wr h6nn6. Ac y gyt ac //

Llanstephan 1 t. 68
**y gweles wl kessar ef en kyrch6 y ta~~y~~ryan en kyflym a dyr**che6ys en erbyn e dyrna6t. ac en e 6eynt y gad6s y nerthoed **yda6 ef a ossodes y cledyf ar nynnya6 ar y penffestyn.** Ac en e lle dyrcha6ael y cledyf a or6c a cheyssya6 er eyl dyr**na6t en ol e kyntaf. hyt pan alley rody aghe6a6l dyrna6t** yda6. Ac megys e gwyl nynnya6 henny ef a dodes y taryan **en erbyn e dyrna6t. Ac ena eyssyoes e tryg6s cledyf wl kessar** em pen nynnya6. ac ny all6s ef kaffael tynn6 y cledyf rac ka**letet e 6rwydyr kan e bydynoed en emkymysc6 ac en newydya6** aghe6olyon dyrnode6. Ac wrth henny nynnya6 a kymyrth cle**dyf wl kessar ac a wury6s y cledyf eh6n y 6rtha6. ac a chledyf** er amhera6dyr en y law er r6thr6s ef y elynyon. a phwy bynnac **a ky6arffey ac ef ar cledyf h6nn6 y trawey. ar neyll 6ydey** ae llad y penn y arna6 ae ente6 y 6ynet en 6rathedyc megys **na bey 6n gobeyth ohona6. Ac 6al ed oed nynnya6 ar wed** honno en dywalha6 en erbyn y elynyon enachaf labyen6s **tewyssa6c en ky6ar6ot ac ef ac en e lle ar e ky6ranc kyntaf** nynnya6 ae llada6d. Ac eyssyoes gwedy llythra6 er rann wuyhaf **or dyd e brytanyeyt o kywarssanghedygyon 6ydynoed a dygynt** r6thre6 glew kalet a dwu en e6 kanh6rthwya6 e wud6go**lyaeth a damweynny6s 6d6nt. ac wl kessar a kymyrth y** longhe6 ae pebyllye6 ae l6este6 en kedernyt yda6. Ac gwedy **dy6ot e nos ef a kyweyr6s y longhe6 ac a aeth end6nt ac a** wu lawen kantha6 kaffael e mor en lle kastell yda6. Ac gwedy **kyghory oe kytemdeythyon yda6 na chynhalyey emlad ar** brytanyeyt a 6ey hwy. ef a wu 6rth e6 kyghor ac a emchwe**l6s trach y ke6yn parth a ffreync.** AC gwedy henny kasswalla6n o acha6s e wud6golyaeth **honno y gyt a dyr6a6r lewenyd a tal6s dyolchdrede6** yr dwywe6. a gal6 atta6 y kytemdeythyon ar kytl6ryessynt //

Llanstephan 1 t. 69
**ac ef ac en herwyd breynt pob 6n ae laf6r talw 6d6nt e6 gwas**sanaeth. o amlhaf rodyon. Ac or parth arall go6al6s oed kanys **nynnya6 y 6ra6t oed en 6rathedyc ac en pedr6s am y 6yw.** kanys wl kessar en wrwydyr ar rodassey dyrna6t hep all6 **medegynyaeth yda6. Ac or dyrna6t h6nn6 kyn penn e pymthec*6et*** dyd gwedy e wrwydyr e b6 6ar6. ac eg kaer l6ndeyn ker llaw porth **e gogled e cladwyt. y gyt a brenhynya6l arwylyant. Ac y gyt ac** ef en e bed e dodassant e cledyf a d6gassey ente6 y gan wl kessar **pan emladassey ac ef. Ac esef oed enw e cledyf h6nn6 aghe6 coch** kanys pwy bynnac a archollyt ac ef ny bydey byw. **AC gwedy emchwel6t o wl kessar y ke6yn ar ffo a dyscynn6** ohona6

ar traeth ffreync medylya6 a gwnaethant e ffre**ync gwrthwyneb6 yda6 a mynn6 gwrthlad y arglwyaeth** y arnad6nt. kanys wynt a tebygynt y 6ot en wannach megys **na bey reyt 6d6nt bot y o6yn ef arnad6nt. kanys chwedle6** kyhoed a dwyedyt em pob lle bot e mor en kyfla6n o lyghes **kasswalla6n en erlyt wl kessar. Ac wrth henny glewach** ed emrodynt y keyssya6 g6rthlad wl kessar oc e6 ter6yne6 **wynt. Ac y gyt ac e gweles wl kessar henny ny mynn6s ef** mynet em pedr6sder emlad ac wynt. namyn agory y trysor **a or6c ar rody da en dy6ess6r y po 6n ar neyllt6 onad6nt** ac e*6elly* e6 dwyn en tanganhe6ed ac en 6n ac ef. Ac y gyt **a henny yr pobyl ada6 rydyt ac yr rey ry kollassey tref e6** tat y hennyll 6d6nt. ac yr keyth ada6 rydyt. Ar gwr a oed gynt **en dywal megys llew. en a6r megys oen gwar en llawen en talw** er eyda6 y pa6b. Ac ny orffowyss6s ef o gwne6thyr e clayardrede6 **henny hyt pan tangnhe6ed6s ef pa6b ac e6 dwyn en 6n ac ef a** chaffael y arglwydyaeth arnad6nt megys kynt. Ac ena eyssyoes **nyt aey 6n dyd heybya6 hep koffa6 b6d6golyaeth e brytanyeyt** a ffoedygaeth wl kessar. a henny kan y watwaredygaeth. //

Llanstephan 1 t. 70

**AC ena gwedy llythra6 dwy 6lyned parattoy eylweyth y** lyghes a or6c wl kessar 6rth 6ynet tros er eygya6n y keys**sya6 dyal y sarhaet ae kewylyd ar kasswalla6n ac ar e brytanyeyt.** Ac gwedy kaffael o kasswalla6n gwybot bot en wyr henny kadarn**ha6 e keyryd ar kestyll ar dynassoed. ac e6 hatnewyd6 er rey a at6ey**ley onad6nt. a gossot marchogyon ar6a6c y e6 kad6 a gwnaeth. ac **em pob pryf porth en amkylch er enys gossot gwyr ar6*a6c*** a or6c y e6 gwylya6 ac y e6 gwarchad6. Ac eythyr henny ar **hyt kana6l themys e fford ed hwylyt parth a ll6ndeyn ef perys** gwne6th6r polyon heyrn ky6rasset a mordwyt gwr ac e6 ply**m6. a gossot er rey henny a dan d6fyr a phan delynt e llonghe6** megys ed elhey er rey henny trwyd6nt ac e peryclynt o henny. **Ac gwedy dar6ot henny kynn6lla6 a gwnaeth kasswalla6n** holl ye6enctyt er enys ag eg kylch er ar6ortyr arhos dy**6odedygaeth wl kessar ae lynghes kantha6.** AC gwedy dar6ot y wl kessar paratoy pop peth or a oed **reyt yda6 ef a kychwynn6s ar e mor y gyt ac aneyryf** amylder marchogyon kan darmerth6 ac awyda6 gwne6**th6r dam6nedyc aer6a or brytanyeyt. A henny hep amhe6** a gwnathoedynt pey ry delhey e6 llyghes en yach ganth6nt **yr tyr. Ac wrth henny ny allws ef dwyn y dyhewyt ar** . gweythret kanys hyt tra ed oedynt en hwylya6 ar hyt **kana6l themys en kyrch6 parth a ll6ndeyn ed aethant e6** llonghe6 ar e polyon heyrn ar ry dywedassam ny wuchot **a chan er rey henny e dyode6assant dyssy6yt perygyl aghe6**a6l hyt pan 6odassant hyt ar 6ylyoed o 6archogyon. kanys **gwedy tyll6 e llonghe6 ar e polyon heyrn henny e de6th** e d6fyr en me6n a ss6da6 e llonghe6 a dan e weylgy. Ac **gwedy kaffael o wl kessar gwybot henny y gyt a dyr**6a6r o laf6r a gof6t trossy er hwylye6 a or6gant parth //

Llanstephan 1 t. 71

**ar tyr. Ar rey a 6uessynt en e 6eynt perygyl honno ac a kau**sant o 6reyd e tyr. A phan gweles kasswalla6n y ar glann **e tymhestyl honno arnad6nt llawenha6 a or6c o acha6s bo**dy e sa6l a 6odes onad6nt; a thrysta6 o acha6s dyanc er rey **ereyll. Ac gwedy rody arwyd o*hona6* oy kyt6archogyon kyr**ch6 er r6ueynwyr a gwnaethant en dyannot. Ac esef a or6**gant gwyr r6ueyn eyssyoes ket ry ky6arffey pery**gy*l* ac wynt ar er a6on y gyt ac e ka6ssant e tyr en **6ra6l g6rthwyneb6 yr brytanyeyt a chymryt e6 gle6der** en lle m6r y e6 hamdyffyn. ac aer6a dyr6a6r y meynt **a gwnaethant or brytanyeyt. ac eyssyoes mwy wu er hon** a ka6ssant. nor honn a gwnaethant. kanys llawer a 6odes **onad6nt. ac wrth henny lley oed e6 ny6er. Ar brytanyeyt** pob a6r mwyf6y 6ydey e6 ll6 kanys o pob lle ed em**kynn6llynt a mwy teyr gweyth oed e6 ny6er. Ac wrth** henny kan gwanha6 er rey ereyll e ka6ssant wynte6 e **6udygolyaeth. Ac gwedy gwelet o wl kessar ry or6ot arna6** y gyt ac echydyc oe ny6er ed aeth ar ffo en y longhe6. ac chym**ryt dyogel6ch e mor en amdyffyn yda6. Ac gwedy kaffael** gwynt herwyd o*hona6* dyrcha6ael hwylye6 a hwylya6 **hyt en traeth moryan. Ac eno ed aeth em mewn kastell ar** ry gwnathoed rac o6yn ky6ar6ot ac ef e kyfryw damweyn ar ky**6arf6assey gynt ac ef y gan e brytanyeyt. Ac esef e gelwyt e kastell** odnea. Ac esef acha6s y gwnathoed rac o6yn emchwel6t or ffreync **arna6 er eylweyth o delhey ar ffo y wrth e brytanyeyt megys** e weyth arall. Ac wrth henny ry gwnathoed ente6 e kastell h6nn6 **megys e galley ente6 gwrthwynweb6 yr 6rthpwyth pobyl honno** o cheffynt gwrthwyneb6 yda6 megys y keyssessynt gynt. **.C o acha6s kaffael o*hona6* e wud6golyaeth er eylweyth y** ar wl kessar kasswalla6n a kymyrth dyr6a6r o lewenyd //

Llanstephan 1 t. 72

**enda6. ac a en6yn6s gwys tros pob lle en enys prydeyn y erchy** oy holl wyrda dy6ot hyt en ll6ndeyn ac e6 gwraged y gyt ac wynt. **y tal6 gwylya6l anryded dyled6s y e6 tadolyon dwywe6. trwy er** rey ry ka6ssynt b6d6golyaeth or 6eynt r6ueynnya6l amhera6dyr **h6nn6. Ac gwedy dy6ot pa6b hep waradrygyant amra6aelyon** aberthe6 a or6gant ac y ladedygaeth er any6eylyeyt er amrodassant. **Ac ena aberth6 a gwnaethant de6 6geyn myl o warthec a chan**myl o de6eyt. ac o amra6aylyon kenedloed adar e sa6l ny ellyt **en ha6d y ossot en ryf. Eythyr henny deg myl ar r6geynt o** amra6aelyon kenedloed koedolyon bwyst6ylet. Ac en e lle gwedy **dar6ot 6d6nt perffeythya6 e6 hanryded yr dwywe6. or gwedy**llyon ar gormodyon wynte6 eh6neyn a wuytaassant megys e **gnetteyt en er ryw aberthe6 henny. Ac od yna er hynn a we**dyll6s or nos ac or dyd kanth6nt wynt ae trewlassant trwy **amra6aelyon gwaree6. Ac em*plyth* e gwaree6 henny ef a** damweynny6s de6 was ye6eync arderchа6c. e neyll onad6nt **en ney yr brenyn. ar llall en ney y a6arwy 6ap ll6d kyn**henn6 en gware palet ac or dywed llydya6 am e wud6golyaeth **Ac esef oed enw ney e brenyn hyrlas. ac enw e llall k6helyn.** Ac gwedy emlydya6 ac emkywethyl eskylf6 cledyf a gwnaeth **k6helyn a llad penn hyrglas ney e brenyn. Ac gwedy y lad** kynhyrf6 a or6c e llys oll. ac ehedec e chwedyl at kasswalla6n. **A llydya6 a chyffroy en 6a6r a or6c o acha6s lladedygaeth y** ney. ac erchy a gwnaeth y a6arwy rody k6helyn y dyodef **kyfreyth e llys arna6 rac mynet hyrglas en dy*dyal*. os** kam e lladessyt. Ac gwedy gwelet o a6arwy bot bryt **e brenyn en kyffroedyc en y erbyn pedr6ssa6 a gwnaeth** rody y ney en y ewyllys a dywedwyt bot llys yda6 ef ac **en y lys eh6n e dywedey ef delyw ohona6 ente6 rody** ya6n ae kymryt. o pa6b or a o6ynhey ya6n oy wyr ef. //

Llanstephan 1 t. 73

**Ac wrth henny os keyssya6 ya6n a 6ynney ef y gan k6he**lyn ef a dywedey e mae en y lys ef en ll6ndeyn e dylyey ef **gwne6th6r ya6n tros y ney a henny o 6reynt a hen dylyet** yr kynhoes er hen wyrda. Ac gwedy gwelet o kasswalla6n **na chaffaey ya6n wrth y 6ynn6 ae ewyllys gogy6yda6 a thygh**6 y a6arwy a gwnaeth ed anreythyey ente6 y ky6oeth ef **o tan a hayarn ony delhey wrth y ewyllys. Ac odyna trwy** lyt a bar bryssya6 a or6c kasswalla6n y anreythya6 ky6oeth **a6arwy. Ac a6arwy hagen pe6nyd trwy kyt*emdeythyon* a cha**rant en keyssya6 arafha6 yrlloned e brenyn. a cheyssya6 made6**eynt y kantha6. Ac gwedy na alley ef o nep fford en e byt kaffael** lleyha6 llyt e brenyn. medylya6 a or6c pa fford e galley ente6 g6r**thwyneb6 yr brenyn a daly en y erbyn. Ac or dywed gwedy nat** oed fford arall yda6 e gallaey ef g6rthwyneb6 yda6. ef a an6ones **kennade6 hyt ar wl kessar a llythyr ganth6nt ar synhwyr hon** end6nt. Y wl kessar a6arwy 6ap ll6d tywyssa6c ll6ndeyn **en an6on annerch ac gwedy dam6nedyc aghe6 dam6nedyc yechyt** a bwched. Edy6ar yw kenhyf y daly yth erbyn ty hyt tra 6uost **ty en kynhal emlade6 en erbyn 6e mrenyn y. kanys pey pey**ty6n y tydy a orwuass6t ar kasswalla6n. e gwr gwedy e **6eynt wud6golyaeth honno a ka6as trwy 6e nerth y a kym**yrth e 6eynt syberwyt enda6 hyt pan edyw en keyssya6 6e **nytreftad6 y am dyky6oethy am dyhol om ky6oeth a gorescyn** yda6 eh6n 6eg ky6oeth. A gwybyd ty nat e6elly e delyey **tal6 ymy. myfy en y ky6oethogy ef ac ente6 ym dyky6oethy** ynhe6. myfy er eylweyth ae kynhelyeys ef ar y ky6oeth. ac ente6 **en keyssya6 6eg gorescyn ynhe6. kanys myfy en k6byl en emlad** yth erbyn ty a gwneyth6m e pthe6 hyn oll yda6. A mynhe6 **a tyghaf y ky6oethe6 nef a dayar hyt nas heydeys hy onyt** na rod6n y 6e ney y dyodef bra6t y lys ef arna6. Ac eny 6o //

Llanstephan 1 t. 74

**gole6ach ac egl6rach yth doethynep ty acha6s e wyryoned gwaran**da6 ty a my a datkanaf yt er acha6s e mae y 6ar arnaf y. Gwedy **kaffael ohona6 ef e 6eynt wud6golyaeth honno trwy 6e nerth** y e gwnaetham nynhe6 gwylya6l lewenyd ac anryded y en **tadolyon dwywe6. Ac gwedy perffeythya6 o*honam* ny pob peth** or a perthyney ar e dwywe6 e damweynny6s er rwng de6 **neyeynt yn tyf6 kyfryssed am wud6golyaeth gwarae. palet** Ac gwedy kaffael om ney ynhe6 e wud6golyaeth. enynn6 a **or6c e llall o enwyr yrlloned a dyspeylya6 cledyf a cheyssya6** llad penn 6e ney ynhe6. Ac esef a or6c ente6 gochel e cledyf ac **en e kyfryssed h6nn6 eyssyoes syrthya6 ney e brenyn ar y cle**dyf ac e b6 6ar6. Ac gwedy kennatta6 henny yr brenyn gor**chymyn ac erchy y mynhe6 rody 6e ney y y dyodef bra6t y lys** ef en dyal y ney ente6. Ac gwedy nas rod6n ynhe6 6e ney en y **ewyllys ef e de6th ente6 ae holl lw kantha6 am pen 6e ky**6oeth ynhe6 ae anreythya6 ae losky. Ac wrth henny ed wyf **ynhe6 en erchy de tr6gared ty. ac en keyssya6 porth a nerth** y kenhyt ty y keyssya6 6eg ky6oeth ymy trache6yn hyt **pan 6o trwy 6e nerth ynhe6 am porth e gellych tythe6 gor**escyn enys prydeyn.

Ac o hyn na phedr6ssa dym kanys **nyt oes dym twyll na brat en er amadra6d h6nn.** AC gwedy darlleyn e llythyr h6nn6 rac bron wl kessar kyghor **a kymyrth y gan y annwylyeyt hyt na chretey ef oy o6er** amadra6d ac nat aey ef y enys prydeyn ony chaffey ef gwystlon **a 6ey da kantha6 hyt pan 6ey dyogelach kyrch6 enys prydeyn.** Ac 6rth henny a6arwy 6ap ll6d a en6yn6s kynan y 6ap ac **y gyt a henny deg gwystyl ar r6geynt o 6eybyon e gwyr bonhedy**kaf en y ky6oeth oe annwylyeyt ae karant. Ac gwedy rody e **gwystlon en hyfryt wl kessar a kynn6ll6s y lw ac a kyweyry6s** y llyghes ac ar e gwynt kyntaf e dyscynn6s em porth rwyt6n. //

Llanstephan 1 t. 75
**Ac en er amser h6nn6 ed oed kasswalla6n en dechre6 emlad** a chaer l6ndeyn. ac en anreythya6 e gwladoed en y chylch. Ac y gyt **hagen ac e kygle6 ef ry dy6ot wl kessar y tyr enys prydeyn** emada6 a gwnaeth ente6 a ll6ndeyn a bryssya6 a or6c en erbyn **er amhera6dyr. Ac gwedy dy6ot ohona6 hyt ger llaw glyn** oed en agos y kaer keynt ef a gweles en e lle honno llw gwyr **r6ueyn ac e6 pebyllye6 ac e6 ll6este6 gwedy ry dyskynn6 en** e glynn h6nn6. kanys awarwy 6ap ll6d ae d6gassey hyt e **lle honno wynt y keyssya6 dwyn kyrch nos en dyrreb6d** am penn kasswalla6n. Ac ena hep 6n gohyr gwedy gwy**bot or r6ueyngwyr bot e brytanyeyt en dy6ot. en dyannot** gwysca6 amdanad6nt a gwnaethant e6 har6e6 a gossot e6 **marchogyon en 6ydynoed. Ac ena ed aeth a6arwy 6ap** llwd a phym myl o wyr ar6a6c y gyt ac ef ac em me6n **llwyn koet oed en agos 6d6nt emk6dya6 en h6nn6 hyt** pan 6ey odyno e galley gwne6th6r nerth a chanh6rthwy **dy wl kessar. Ac gwedy dar6ot yr brytanyeyt or parth arall** gwysca6 amdanad6nt ac empery. nyt annodassant o pob parth **newydya6 aghe6olyon dyrnode6 ac ergydye6. Emkyrch6 a** gwneynt e bydynoed ac ellwng e6 gwaet y redec. Ac o pob **parth e syrthynt e kalaned en 6eyr6 megys e syrthynt e** deyl y ar e gwyd mys hydref pan 6ey 6a6r e gwynt. Ac 6al **ed oedynt e6elly en emlad enachaf a6arwy 6ap ll6d ae 6edyn** kantha6 en ky6ody oy lech6a ac or t6 en y ol en kyrch6 bydyn **casswalla6n er hon oed en kynhal holl kedernyt e brytany**eyt. ac ar ry daroed y r6ueynnya6l 6edyn y hanreythya6 **or rann 6a6r ohoney. ac ara6rhon hep allel se6yll. en er**byn y chyt*ky6ta6dwyr*. Ac wrth henny kymryt ffo a or6**gant wy ac ada6 e maes. Ac en agos y henny mynyd oed ac** em penn e mynyd llwyn o koll tew a oed. Ac eno e ffoes kas- //

Llanstephan 1 t. 76
**walla6n ae wyr. gwedy y dygwyda6 en er rann wanhaf or** emlad. Ac gwedy kaffael ohona6 ef gowchelder penn e mynyd **h6nn6 en 6ra6l kynhal h6nn6 a or6gant a gwne6th6r aghe6** y lawer o e6 gelynyon. kanys e6 herlyt a gwnathoedynt er **r6ueynwyr ac a6arwy 6ap ll6d wynt kan brywa6 e6 by**dynoed ac en 6ynych e keyssynt kyrch6 ar e6 torr yr mynd ac **nys gellynt. kanys kerryc e mynyd ae orwchelder a oed amdyf**fyn yr brytanyeyt. a llesteyr yr gelynyon. ac o penn e mynyd **e gwneynt e brytanyeyt aer6a dyr6a6r y meynt oc e6 gely**nyon. Ac wrth henny sef a gwnaeth wl kessar kylchyn6 **e mynyd ae lw a mynn6 gwarchae kasswalla6n en e lle hon**no hyt pan 6ey reyt yda6 ae emrody en ewyllys er amhe**ra6dyr ae ente6 y warchae ena hyt pan 6ey mar6 o newyn.** Oy*a* dyw anry6ed kenedyl e brytanyeyt er rey dwyweyth a **kymhellassant wl kessar amhera6dyr r6ueyn ar ffo e gwr** a daroed yda6 darestwng a gorescyn er holl 6yt 6rth y kyghor **ac yr gwr ny all6s er holl 6yt g6rthwyneb6 yda6. ar bryta**nyeyt eyssyoes ar ffo oedynt en g6rtheneb6 yda6 ef. ac en pa**ra6t y dyodef aghe6 tros e6 gwlat ac e6 rydyt. Ac 6rth henny** e kant l6can em molyant e brytanyeyt or kessar. Ef a dan**gosses y ergrynnedyc ke6ynoed yr brytanyeyt. Ac ena gwe**dy llythra6 espeyt de6 dyd gwedy nat oed y kasswalla6n na ~~oed~~ **bwyt na dya6t ofynha6 a gwnaeth gor6ot arna6 em**rody eg karchar wl kessar. Ac wrth henny an6on a or6c kas**walla6n kennade6 hyt at a6rwy 6ap ll6d ac erchy yda6 ef y** tangnhe6ed6 ef ac wl kessar. rac o6yn kolly breynt e ke**nedyl ed hanoed o*honey*. Ac y gyt a henny he6yt mynegy** a gwnaeth yda6 ket ry6eley ef ar y ky6oeth ef hyt na myn**ney ef eyssyoes y aghe6 ef yr henny. Ac gwedy datkana6 or** kennade6 henny y a6arwy. ente6 a dywa6t 6al hynn. //

Llanstephan 1 t. 77
**Ny deleyr kar6 e tewyssa6c a 6yd araf a gwar en ry6el me**gys oen. ac ar er hed6ch a 6yd dywal megys lleo. Oy*a* dwywe6 **nef a dayar 6y arglwyd y e gwr a oed kyn no hyn en med6** ohonaf y ar ara6rhon e mae en erchy ymy y tangnhe6ed6 ef **ar amhera6dyr. er h6nn a 6uassey dam6net kantha6 kyn no** henny kaffael tagnehe6ed y kantha6 ef. Ac wrth henny e deley **ente6 anryded6 ac**

**aryneygya6 e g6r a kymhell6s y gyt ac ef** amhera6dyr r6ueyn oe ky6oeth ac eylchwyl a all6s y dwyn **ydy trache6yn. Ac 6rth henny ny deleyt gwne6th6r kam** y mynhe6 e gwr a alley ena gwne6th6r e gwassanaeth h6n**n6. ac ara6rhon a allaf y tagnhe6ed6 ente6 ar amhera6dyr.** Ac 6rth henny andoethynep yw yr tewyssa6c gwne6th6r **kodyant a sarhaet oy 6archogyon ef trwy er rey e kaffo en** ente6 e 6ud6golyaeth. kanys nyt e tewyssa6c pye6 e wu**d6golyaeth namyn e gwyr a ellyghant e6 gwaet en em**lad trosta6. Ac eyssyoes my ae tagnhe6edaf ef ar amhera6**dyr. kanys o gwnaeth ef sarhaet ymy. dyga6n o ya6n** yw kenhyf ynhe6 y 6ot ef en erchy 6en tr6gared ynhe6. **Ac en dyannot ena ky6ody a or6c a6arwy 6ap llwd or lle** ed oed a bryssya6 a or6c hyt e lle ed oed wl kessar a dy**gwyda6 ar tal y glynye6 a or6c rac bron er amhera6dyr** a dywedwyt 6rtha6 ar e wed honn: Arglwyd ep ef dyga**6n ar ry gwneythost ty o dyal ar kasswalla6n. gwna wey**thyon tr6gared ac ef. Pa peth a keyssy ty y kantha6 ef am**gen ac 6uydyaeth yty a thal6 teyrnget y wyr r6ueyn o** enys prydeyn. Ac ena gwedy na rodey wl kessar 6n attep **yda6 ef. a6arwy eylchwy a dywa6t 6al hynn. Hynn ep ef** a edeweys y ac a am6odeys a thydy. sef yw henny dar**estwng kasswalla6n a gorescyn enys prydeyn 6rth te** kyghor ty. llyma henny gwedy ry gwne6th6r. llyma //

Llanstephan 1 t. 78

**kasswalla6n en darestyghedyc. llyma enys prydeyn om kanh6r**thwy y gwedy y goreskyn. Pa peth a delyaf'y y gwne6th6r amgen **no henny yty. Nyt ef a gwnel crea6dyr pob peth ymy gwedy e** gwelhwyf y 6y ewythyr y am arglwyd 6renyn en erchy 6en tr6**gared y ac en gwne6th6r ya6n ymy or sarhaet a gwnaeth ef** ymy dyodet ohonaf ynhe6 byth y karchar6 ef a myfy en 6yw. **Nyt eska6yn llad kasswalla6n ne6 y karchar6 a myfy en 6yw. ka**nys nyt kewylyd kenhyf y rody 6e kanh6rthwy am porth am **nerth yda6 ef ony bydy ty wrth 6eg kyghor ynhe6 amda**na6 ente6. Ac wrth henny ena rac o6yn a6arwy wl kessar **a kymyrth kytd6h6ndep a thangnhe6ed a theyrnget pob** blwydyn y kan kasswalla6n o enys prydeyn. AC esef oed **eyryf e teyrnget a telyt or enys honn y wyr r6ueyn pob blwy**dyn teyr myl o p6nhyoed aryant. Ac o henny allan kytemdey**thyon 6uant wl kessar a chasswalla6n 6ap bely. kan rody o** pob 6n onad6nt oy kylyd amra6alyon rodyon a thlysse6. Ac **ena e gayaf h6nn6 e tryg6s wl kessar en enys prydeyn a phan** dechrewys e gwayanhwyn dy6ot ed aeth tros e mor hyt en **ffreync. Ac odyna gwedy henny em penn espeyt kynn6lla6** llw ma6r a gwnaeth o pob lle a mynet hyt en r6ueyn en er**byn pompey6s e g6r oed en kynhal er amherodraeth.** AC odyna gwedy llythra6 espeyt seyth mlyned e b6 mar6 **kasswalla6n ac eg kaer efra6c e cladwyt. Ac en ol kas**walla6n e gwnaethpwyt tene6an 6ap llwd y ney ente6 **6ap y 6ra6t en 6renyn yarll kernyw oed h6nn6 kanys** a6arwy 6ap llwd ry athoed y gyt ac wl kessar parth a r6**6eyn. Emladwr a ry6el6r da oed tene6an a gwr oed a ka**rey ya6nder a gwyryoned ac ae gwnaey a pha6b. Ac en ol **tene6an e gwnaethpwyt kyn6elyn y 6ap ente6 en 6renyn.** marcha6c gwychyr oed h6nn6 ac amhera6dyr r6ueyn ae //

Llanstephan 1 t. 79

**....ssey ac a rodassey ar6e6 yda6. Ac wrth henny kymeynt** . ... kantha6 ef karyat Gwyr r6ueyn a chet galley ef attael **e6 teyrnget racd6n hyt nas attalyey.** AC en er amser ed oed kyn6elyn 6ap tene6an en 6renyn en er **enys hon e ganet yess6 cryst en arglwyd ny e gwr** yr y werth6a6r gwaet ef a prynn6s kenedyl dyn o keythy**wet aghana6c dyaf6l. Ac gwedy gwledych6 o kyn6elyn** enys prydeyn trwy espeyt dec mlyned e ganet de6 6ap **yda6. Sef oedynt er rey henny Gwydyr oed e map hynaf ydaw** a Gweyryd oed e llall. Ac or dywed gwedy eylenwy o kyn6e**lyn dye6oed y wuchwed ef teyrngwyalen e ky6oeth a lly**wodraeth e teyrnas a dygw...s en llaw Gwydyr. Ac gwedy **.tael or Gwydyr h6nn6 e teyrnget a deley y tal6 y gwyr** r6ueyn ef a de6th Gloew kessar er h6nn a oed en kynhal **er amherodraeth a llw ma6r kantha6. Ac y gyt ac ef e do**thoet haymo tewyssa6c y lw ef oed h6nn6 a thrwy kyg**hor h6nn6 e gwneyt ac e ll6nyethyt pob peth or a gwne**lyt. Ac ena gwedy dyskynn6 Gloew kessar em porth kaer **perys ef a dechrewys kayw pyrth e dynas a mwr maen** a ll6dyas e kywda6twyr y dy6ot allan. kanys ef a 6ynney **e6 kymhell y wed6 yda6 ne6 ente6 hep tr6gared e6 gwar**chae en e lle honno hyt pan 6ydynt meyr6 o newyn. **AC gwedy bot en honnedyc dy6odedygaeth gloew kessar yr** enys honn Gwydyr en dyannot a kyn6ll6s holl 6archogyon **enys prydeyn ae holl wyr emlad ac en erbyn gwyr r6ueyn e** de6thant. Ac gwedy gwysca6 a bydyna6 en dyannot kyrch6 gwyr **r6ueyn a or6gant ...ychyr dechre6 emlad a or6c Gwydyr** ... a ladey ef eh6nan ae 6n cledyf oe elynyon noc a ladey er ran **... oe lw. Ac pob a6r e medylyey Gloew kessar ffo a** ... y longhe6 ar r6ueynwyr en holla6l en gwaskar6. pan //

Llanstephan 1 t. 80
**aeth e twyllyr gan haymo a b6r6 y ar6e6 eh6n y amd...** mryt ar6e6 6n or brytanyeyt a ladydoed amdana6 ac en ryth **6n or brytanyeyt emlad ae wyr eh6n ac annoc e brytanyeyt** y emlad megys ket bey 6n onad6nt 6ey ef a dywedwyt bot e **wud6golyaeth ar Gor6ot en e6 llaw o pherheynt en emlad megys** ed oedynt kanys yeyth e brytanyeyt ac e6 moes a dyskassey ente6 **en r6ueyn em plyth gwystlon e brytanyeyt en r6ueyn. kanys em**plyth e megessyt. Ac odyna trwy blyth e bydynoed dynessa6 a or6c **hyt pan 6yd kerllaw e brenyn gwedy kaffael ohona6 ef lle ...**amser y gyt ae cledyf llad penn e brenyn a or6c. Ac odyna y gyt ar **eskym6n wud6golyaeth honno llythra6 a or6c trwy 6n trwy** arall hyt pan 6yd emplyth y lw eh6n. Ac ena e de6th Gweyryd **brenyn ac gwedy gwelet o*hona6* y 6ra6t gwedy ry lad en e lle** dyot y ar6e6 e eh6n a or6c a Gwysca6 ar6e6 e brenyn amdan...**ac en e lle annoc e brytanyeyt a or6c a gyrr6 grym ac angerd** end6nt ac erchy emkadaraha6 en emlad megys ket bey ef 6ey **Gweyryd. ac ena e brytanyeyt emkadarnhe6 a gwn...** 6rth y annoc ef megys ket bey ef 6ey Gwydyr kanys ... **ettwa ry lad e6 brenyn. Ac or dywed eyssyoes llyth...** er r6ueynwyr en dwy rann ac en depryt Gw... **e maes. Ac ena ed aeth Gloew kessar ar rann oe lw y gyt ac ef** a chymryt y longhe6 en kederny a dyogel6ch yda6 a haymon **rann arall y gyt ac ente6 a ffoassant yr koedyd ac ...** kany cha6ssant o espeyt mynet en e6 llonghe6. Ac ena ...**a gwnaeth Gweyryd bot er amhera6dyr en er rann ...** llw a bryssya6 a or6c ente6 ac e6 herlyt wynt o le pwy gylyd hyt **pan y godywa6d wynt ar glan e mor y lle gelwyr ara6rhon ...** enw ef porth ham6nt. ne6 ente6 s6dhampt6n. kanys eno ed **oed porthloed a dyskyn6a adas y longhe6 ac eno ed oedynt ...** o newyt longhe6. ac en er rey henny e mynnassey haymon ... //

Llanstephan 1 t. 81
**e wahard am uruduu ar brenhyn e kemhell canes** e gan pob den a uedydyer e deleyr kemryt bruduu **ac e gan vr ac e gan wreyc urth henne e dele a gur a** gureyc e rody hythey hyt en oet mab seyth mluyd a el a dan llau e peryglauR. **Pve benna a wnel** amuot deduaul ae gylyd doet e deu amuotuur **e gyt a dywedent eu hamuot ual e menhoent e wne**ythur a rodent en llau er amuotwyr cadu er amuot **ar e llun e hadausant. O deruyd e den gwneythur amot** ac na menho e kadu ac na watto er amuot er argluyd **byeu kemell e kadu mal e hatuerho er amotwyR** O deruyd e den mennu guadu amot ac arall en gerru ar**nau ac enteu en e wadu ehun e keureyth a deweyt** na dau arnau namen e lv ehun oe wadu ony byd ar**nau gurthtug. os gurthtug a uyd arnau galwet** am uraut ac esef a uernyr ydau e lv ar e seythuet **oe wadu a henne ual e guatter mach ar oet a uo ar re**yth mach ar hunnu. O deruyd ena mennu llyssu un **or reythwyr henne nyt oes llys arnau namen na han**fo oe kenedel ual na deleho bot en reythur ydau sef **mal e dele bot en reythur ydau en kyn nesset ac e de**leho talu galanas e gyt ac ef ae kemryt. trostau ac **urth llv e reythur bot en wyr e kerennyd. O deruyd e** den gwneythur amot ae gylyd hep amotwyr ar llau **en e gylyd ar neyll en mennu guadu ny dau arnau na**men e lw ehun oe wadu. O deruyd e den emadau ac arall **eg guyd testyon am peth a mennu eylweyth e wadu** ohonau e keureyth a deweyt na dele ef ef e wadu ene **palloent e testyon. O deruyd e den emadau ac arall hep tys**tyon en e lle nyt amuot hunnu a chanyt amot guadet //

Cotton Titus D.ii ff. 25v
**oe lw ehun. Ny delyey nep guneythur amuot tros e gylyd** cane pharha amuot namen en oes e den ae gunel. Ny de**le e tat adau amuot ar e mab namen can kannyat e mab** noc a eyll e mab guneythur amuot ar torr e tat ae tat en **uyu. Amuot a tyr dedef ket gunelher amuot en erbyn keureyth dyr yu e kadu.** Pue bynnac a kemer**ho arall ar oruodogaeth dyguydet ef em pob ke**ryd or a oed ar e den a gemyrth attau. O men enteu e **dyeyssewau or den a kemyrth ef uot trostau kemeret** enteu meychyeu e gan e den ar e amrygoll ac onys ke**mer ket deleo ef guneythur yaun tros e oruodogaeth** am e den ny dele e den guneythur ydau ef un yaun **canyt emedewys ac ef. Os e goruodauc a kemer mey**chyeu e gan e llourud ar e dyeyssewau ny byd naud y**dau enteu rac e meychyeu henne. O deruyd e den kemryt** arall ar e oruodogaeth ac oet arnau a chyn nor oet dy**lessu or llourud e goruodauc talet e goruodauc trostau** kubel. O deruyd e den adau goruot peth e arall e ganthau **en e pen ehun ed a pa beth a oruu arnau ae bychan ae** llawer canes ef ehun a creduet. Try peth ny deleyr na**ud racdunt gan eu bot en kyuadeuedyc goruodogaeth** a mechnyaeth a goresgyn. O deruyd e personeu er eglues **deweduet gallu onadunt hue rody naud en erbyn urun** or try henne byt em pen e brenhyn e gur a rodes udunt **hue e nodua honno eturyt pa delu e rodes ef udunt** hue e nodua honno ac os rodes en e erbyn ehun catwent **huenteu er hen a rodho ef udunt hue.** Pob perchennauc tyr llan

a deleant deuot ar pob **brenhyn newyd a del e datcanu ydau ef eu breynt** ac eu delyet. Ac esef achaus e datcanant ydau ef rac tue- //

Cotton Titus D.ii ff. 26r

**llau e brenhyn a guedy e datcanhoent ydau ef eu bre**ynt o guyl e brenhyn bot en yaun eu breynt estennet **e brenhyn udunt eu breynt ac eu nodua. O deruyd e den** guneythur agkeureyth a rac er agkeureyth hunnu **kerchu naud ac ef ar e naud hunnu kyuody haul arnau** ny dele er abbadeu nar effeyryeyt e hebrug ef ene wnel **yaun am er agkeureyth gesseuyn. O deruyd na keffroho** haul arnau ef hebregent venteu euo hyt e lle e delehoe**nt e hebrug. O deruyd e den guneythur cam kewerthyd** keynnyauc e ar e nodua a keffroy haul arnau ef am er **agkeureyth re dygones e ar e nodua ny dele e amdyffyn** or naud e gunaeth cam arnau onys adnewydha o naud arall. **P6y bennac a gemerho naud ef a dele** emdeyth en e uenwent ar corflan hep kreyryeu **arnau ae escrebel e gyt ac escrebel e klas ar abbadeu hyt** ed elhoent bellaf ac ed ergettyoent eu buches trach eu **keuen. O deruyd e den bot kreyryeu arnau a guneythur** ohanau cam a dan e kreyryeu ne dele caffael naud nac **amdyffyn e gan e kreyryeu henne canys haedus. Messur** corflan eru keureythyaul en e hyt ae pen ar e uenwent **a henne eg kylch e uenwent en kumpas. O deruyd bot e**glues a dewetto deleu kennal den ar e nodua seyth ble**ned hep wneythur yaun neu espeyt a uo hue a bot er** argluyd a uo ar e wlat en gurthuenebu ydy am hen**ne ac en dyweduet nat edyu e ganthau ef ydy e breynt** hunnu reyt yu er eglues bot ydy a gatwo e breynt hun**nu o testyon deduaul ac os keyff gatter ydy en dywara**uun e breynt ac onys keyff hytheu hebreget er eglues **ef mal e deleho oreu neu enteu gunaet yaun or agke**ureyth re dygones. Am dadleu tyred yu henn. //

Cotton Titus D.ii ff. 26v

**Deu amser e byd agoret keureyth am tyr a da**ear a deu e byd kaeat o nauuet dyd o kalan **gayaf e byd agoret hyt nauuet dyd chueura**ur. o nauuet dyd chueuraur e byd kaeat hyt **nauuet dyd o uey. o nauuet dyd o uey e byd agoret ke**ureyth hyt nauuet dyd guedy aust. o nauuet <u>guedy</u> **aust e byd kaeat keureyth hyt nauuet dyd guedy ka**lan gaeaf. a sef achaus e byd kayat keureyth e kenhay**af ar guaeanhuen urth dywyllyau e daear en e deu** amser henne rac llesteyryau eredyc e guaeanhuen. **a rac llesteyryau medy e kenhayaf. sef achaus e mae** nau nyeu guedy kalan gayaf or keureyth en kayat a **nau nyeu guedy guel san freyt en agoret rac kaeu keure**yth en un dedyauc ac en un funut a henne nau nyeu gue**dy kalan mey en kaeat a nau nyeu guedy aust en agor**et rac agory keureyth en un dedyauc heuyt. P6e byn**nac a uenno kyffroy haul am tyr a dayar kyffroet pan** uenno o nauuet dyd kalan gaeaf allan neu o nauuet **dyd mey canys en er amseroed henne e byd agoret keure**yth am tyr a daear. O deruyd e haulur mennu holy tyr **a daear deuet en er amseroed henne ar er argluyd e** erchy dyd e warandau e haul a henne ar e tyr en e dyd **hunnu datcanet e haul ac ne dele caffael attep e dyd** hunnu canes haul deysseuyt yu ar e guercheytweyt. **ac urth henne e guercheytweyt a deleant oet urth porth.** Ac ena e mae yaun er egneyt eu guarandau a gouen pa **le e mae eu porth o dewedant bot eu porth en eu kem**hut ehun roder oet try*dyeu* udunt. o byd en er eyl **kemut nau nyeu. o byd en e tredyd neu uot llanu a threy** e regthunt ac eu porth os kyn hanner dyd e bernyr //

Cotton Titus D.ii ff. 27r

**er oet petheunos or dyd hunnu e byd er oet os gue**dy hanner dyd petheunos o trannoeth ac esef acha**us yu henne canyt oes dyd kubyl ac nat yaun ta**lu dryll dyd en lle dyd ac en er oet barnedyc hunnu **e mae yaun e paub dyuot ar e tyr ac 6ynt ac eu** porth. Ac yna e mae yaun guneythur due pleyt ac **eysted en keureythyaul sef mal yd eystedyr en keure**ythyaul eysted e brenhyn neu e gur a uo en y le ae **keuen ar er heul neu ar er hyn rac aulonedu or hyn** oy vynep ar egnat llys neu egnat e kemhut er he**naf a uo en eysted rac y uron ef ac ar e llau ass**u y hunnu er egnat arall a uo en e maes neu er **egneyt ac ar e llau deheu ydau er effeyryat o byd** neu er effeyryeyt ac en nessaf er brenhyn y deu **henaf ae wyrda o henne allan o pob tu ydau. o**dyna e ford er egneyt kyuaruynep ac vynt e dar**emret y eu brautle. kegaus er haulur ae lau assue** ar e ford ar haulur en nessaf ydau en e perued ae **kanllau ar e llau arall ydau ar ryghyll en seuyll** tracheuen e kegaus ar pleyt arall e tu arall er ford. **kegaus er amdyffennur ae lau deheu ar e ford ar** amdyffennur en nessaf ydau en e perued ae kanllau **or tu arall ydau ar ryghyll trae keuen enteu. Gue**dy darfo eysted e*uelly* kemerer mach ar keureyth **sef meychyeu a uyd ar tyr a daear guestlon o den**yon byu neu a uo muy o pob pleyt ar guestlon hen**ne em medyant er argluyd yd ant. Guedy henne** e dodyr tellued sef yu henne gostec ar

e maes puy byn**nac a torro e tellued honno teyr buv camluru a tal** neu nau ugeynt aryant ar geyr a dywetter gue- //

Cotton Titus D.ii ff. 27v

**dy er ostec e uot en dyuuynyant yr nep ae dywet**to ac er kygaus e dewetter er porth ydau. **(llinell wag)** (llinell wag) **.(llinell wag)** (llinell wag) **(llinell wag)** (llinell wag) **(llinell wag)** (llinell wag) **(llinell wag)** (llinell wag) **(llinell wag)** (llinell wag) **Gvedy darfo eysted en keureythyaul mal e dy**wedassam ny uchot ena e mae yaun er eg**nat dyweduyt urth y due pleyt emdyweduch** o keureyth weythyon. Ac ena e mae yaun er eg**nat gouyn er haulur pue dy keghaus ty a puy dy** kanllau. Ac yna e mae yaun er haulur eu hen**wy. Ac yna e mae yaun er egnat gouyn er hau**lur a dyt ef coll neu kaffael en eu pen huy. Ac yna **e mae yaun er haulur dyweduyt dodaf hep ef.** Ac ena e mae yaun er egnat gouyn er kygaus ac **er kanllau a sauant huy ydau ef en er hen y mae** ef en e dody arnadunt huy. Ac yna e mae yaun u**dunt huenteu dyweduyt sauun. Ac wedy henne y** mae yaun er egnat gouyn yr amdyffynnur puy **dy kygaus dythey a puy dy kanllau. Ac yna mae** yaun ydau enteu eu henwy huy. Ac yna y mae //

Cotton Titus D.ii ff. 28r

**yaun er egnat gouyn ydau enteu a dyt ef coll a** chaffael en eu pen huy. Ac yna y mae yaun ydau **enteu dyweduyt dodun hep ef. Ac yna e mae ya**un er egnat dyweduyt urth er haulur haul ty **weythyon dy haul. Ac yna y mae yaun er haulur** dechreu holy. Lyman esyd yaun yr haulur y dewe**duyt mynegy y uot ef en wyr pryodaur ar e tyr** hun ar dayar ac osyt a amheuho y uot ef en wyr **pryodaur bot ganthau enteu a gatwo y pryodol**der o ach ac edryf hyt y mae dygaun en e keureyth **ar ry erru en agkeureythyaul y ar y pryodol**der ac osyt ae amheuo mae ydau dygaun ay g6**yr er re erru en agkeureythyaul ac esef y mae en**teu en dody ar y keureyth deleu dyuot en keurey**thyaul tracheuen yr lle yr ry erruyt en agkeure**ythyaul ohanau. O deruyd bot rey a ryuedho dody **keytweyt a guybydyeyt or un pleyt e keureyth** a deweyt y gellyr eny warandahwer attep er **amdyffynnur. Hep er amdyffynnur. Myuy esyd** wyr pryodaur o ach ac edryf ac ysef yd vyf en **guarchadu uy meu am pryodolder ual y mae go**reu y deleaf e warchadu ac osyt a amheuo henne **e mae ymy dygaun a geydu bot en wyr a dewe**daf a thytheu o buost ty yma yn kyureythyaul yd **eythost odyma ac osyt a amheuo henne mae ym**my dygaun ae guyr. E keureyth a deweyt ket dar**fey yr amdyffynnur attep en gynt noy holy ef or** haulur bot yn anolo yr attep eny warandawo **ef er haul ac yna rody attep. Ac wedy y darfo** udunt eu due kygheusaeth ual y dywedassam //

Cotton Titus D.ii ff. 28v

**ny uchot gouynnet er egnat udunt ae dyga**un a dywedassant a gouynnet udunt a uynnant **guellau eu kygheussaeth ac o byd ae mynno gat**ter ydau ac ony byd ae mynno kemeret er egnat **e due kygheussaeth a datcanet huy a guedy as dat**canho aet er egneyt allan ar effeyryeyt y gyt ac **6ynt ar ryghyll y gyt ac vynt y eu cadu rac dyuot** deneon y warandau arnadunt. O deruyd e den dy**uot e warandau arnadunt huenteu ef a dele talu** teyr buu camluru er brenhyn ac o byd e brenhyn **en e maes ef a dele talu camluru deudeblyc am ~~h~~** henne. Ac yna guedy yd eystethoent hue y mae ya**un yr effeyryat guedyau duv y dangos o duv yr** yaun udunt a chanu onadunt huenteu eu pader **a guedy y pader y mae yaun yr egnat datcanu eu** due kygheussaeth eylweyth. Ac o deruyd bot en reyt **urth geyr kyuarch ellegher deu oy ouyn ac o byd** reyt yr pleyt e gouynner e geyr kyuarch ydy urth **kemryt kygor aent hue gan kannyat er egnat y** eu kygor ac ysef yd ant e nyuer y buant en eu kyg**eussaeth hep a uo mue a guas yr argluyd y gyt** ac uynt y eu kadu rac dyuot nep y eu kyghory y gyt **ac vynt ac o dau nep attadunt ae kyghoro talet ef** camluru yr brenhyn a byt anolo e keghor odyna **deuent e deu henne ar er egneyt a datcanent eR** egneyt eu keghor. O deruyd na bo reyt urth geyr ~~porth~~ **keuarch yaun yu gadael udunt eu hardelu a ger**ru deu e ouyn pue eu guybydyeyt ac eu keytweyt **a pa le y maent o dywedant eu bot en e maes muyn**haer vynt. o dywedant eu bot en un kemhut ac //

Cotton Titus D.ii ff. 29r

**vynt roder oet try*dyeu* udunt o dywedant eu bot** en er eyl kemut roder oet nau nyeu udunt. o dywe**dant eu bot eg gwlat arall neu uot llanu a threy** y regthunt ac uy oet petheunos or dyd hunnu os **kyn han*ner* dyd uyd. os guedy hanner dyd pe**theunos o trannoeth a bot e guystlon eg karchar **e**

**brenhyn hyt e dyd hunnu ac erhy e paub dyuot** ae defnydyeu ganthau hyt ar e tyr keny bo duun **gan e due pleyt henne neut edyu en dyd barnedyc y** keureyth. En e trededyd guedy e delher uynep en uy**nep yaun yu y paub eysted en e le mal ed eystedus** e dyd gynt. Ac o byd meyru rey or guyr a wu en e **kyghaused dotter ereyll en eu lle a guedy yd eyste**der ena e mae yaun yr haulur kennyc e testyon ae **keytweyt ae defnydyeu a dyweduyt e uot ef en pa**raut ae defnydyeu ganthau mal y hedewys. Ac ena **e mae yaun er brenhyn erchy dangos e guestlon** en e maes canys uynt esyd ueychyeu. Ac ena guedy **dangosser e guystlon erchy er ryghyll dody gostec** ar e maes. Ac ena e mae yaun er egnat dyweduyt **cosp er anostec sef y henne teyr buu kamluru a** bot en anolo e geyr a dywetter. Ac yna e mae ya**un yr haulur dody em pen er egneyt panyu euo** a edewys en kentaf e testyon ae keytweyt a deleu **ohonau enteu eu muynhau hue en kyntaf. Ac ena** e mae yaun er egneyt erchy ydau enteu eu duen huy **en y kylch ef ac eu dangos. sef rey a dengys e rey a** dengys e dyd gynt. Ny dele er amdyffennur yna ~~ł~~ **llyssu urun onadunt kyn guybot beth a dywet**toent cany uyr na bo da ydau a dywettoent ar //

Cotton Titus D.ii ff. 29v
**hun a lesso kyn guybot beth a dywetto byt saue**dyc hunnu. Ar amdyffynnur a eyll gouyn a oes o **ureynt er rey henne e deleoent bot en testyon ac** o byd deuent racdunt sef achaus e geyll ef gouyn **henne urth na eyll alltut bot en vy*bedyat* ar** kemro tref tadauc ac na eyll gureyc ar vr ac e **gyt a henne ny eyll llawer o deneon bot en guyby**dyeyt herwyd breynt ac urth henne ny lluger ar **er amdyffynnur dyweduyt henne. O deruyd er am**dyffynnur ry adau testyon a uo gwell nor rey ry **edewys er haulur ae o uot en well eu breynt ae** oc eu bot uenteu en amlach a mennu ohonau kyn**nal o henne yaun yu eu dangos a guedy dangosso** ef e tystyon nyt yaun er haulur eu llessu huenteu. **Ena e mae yaun er egnat gouen er haulur gouyn** mae breynt dy tystyon ty. Ac ena e mae yaun er **haulur dyweduyt breynt e testyon ae vynt en uey**ry ae en kyghelloryon ae vynteu en ueneych neu en **athraon ae venteu en effeyryeyt neu en escolheygy**on ae vynteu en lleygyon breynhyaul. Guedy darfo **er egnat gouyn er haulur breynt e tystyon ena e** mae yaun er egnat gouyn er amdyffynnur breynt **e tystyon. Ac ena e mae yaun er amdyffynnur de**weduyt e breynt goreu a uo yu testyon. Ena e mae **yaun er egnat datcanu e deu ureynt re dywaut e** due pleyt racu y eu tystyon. Ena e mae yaun er egnat **gouen er guybydyeyt a sauant hue en er hyn ed edys** en y dody en eu pen huy. Lema paub or guebydyeyt **en dyweduyt e sauant. llema paub or ~~guybydyeyt~~** due pleyt en amheu guybydyeyt y gylyd nas dygant //

Cotton Titus D.ii ff. 30r
**dygant er dygen ket as dywettoent ar eu tauaut le**ueryd yaun yu er egneyt eu kreyrhau a guedy as krey**rhaoent e mae yaun udunt menet allan ac edrech** er hen yaunhaf a welhoent urth y glyussant ac o **guelant bot en well testyon e neyll rey noy gylyd dy**uarnent huy e guaethaf e tystyon. O deruyd bot en kys**tal e testyon dyuarner er amdyffynnur can edewys** ef tystyon a uey well noc a oed gan e llall ac nas cauas. **Ac ena e mae yaun er egnat barnu dyuot er haulur** er tyr ar e breynt ed oed pan kychuennuyt en agky**ureythyaul y arnau. Ac wedy henne e mae yaun** er egneyt prouy e keytweyt y edrech a duc pob rey **onadunt huy bot en pryodaur e pleyt e mae en e ken**helu a dyweduyt o keytweyt pob rey eu bot en pry**odaur ac ot amheuyr huenteu yaun yu eu kreyr**hau ar nep a gylyo onadunt y urth e llu kollet e **tyr. O seyf e keytweyt er due pleyt kyhyded yu ar** lle y bo kyhyded deu hanner uyd. Ket barner ydau **dyuot er tyr ny kychuyn e gur a oed en e ulaen eno** erdau o geyll caffael tu a thal ydau en er un lle ac **en gystal y deu tyr urth na buryyr ef odyna ac ny** deleyr enteu talu tyr ambreynnyaul en lle tyr a **breynt ohonau megys kyghelloryaeth neu uaerony** neu redyt. Ac ena e mae yaun er egneyt dyuot y eu **brautle. Ac yna e mae yaun udunt kemryt kedernyt** ar uot urth y uraut a chemryt mach ar eu gobyr. Ac **ena e mae yaun er egneyt datcanu e due kyghaused.** a guedy henne datcanu e uraut ac ena e dele e bren**hyn rydhau e guystlon oc eu carchar. Messur gobyr** er egneyt am tyr a dayar pedeyr ar ugeynt ac o henny //

Cotton Titus D.ii ff. 30v
**ran deu ur er egnat llys ac ny dele muy nac ef a** uo en e lle nac ef ny bo. O deruyd e amprydaur bot **keytweyt ganthau ar e uot en guarchadu tyr a** daear en eylgur neu en tredyd a bot pryodaur en e ho**ly a keytweyt ydau ar y pryodolder er ampryodaur** a kechuyn racdau. O deruyd ydau enteu holy oy uot en **eylgur neu en tredyd a bot pryodaur en eysted en e** erbyn ny kychuyn er ampryodaur

racdau y ar e tyr. **Pryodaur a kychuyn trydygur. trydygur a gychuyn** tref tadauc sef yu tref tadauc mab a adawo y tat we**dy ef ar e tyr. tref tadauc a gychuyn gur dyuot. sef** yu gur dyuot gur a del truydau ehun ar tyr ac **ny bo nep oy kenedel kyn noc ef ar y tyr ac y*uelly* e** kerda eu breynt herwyd e bo eu kynwarchadu. Go**ber brenhyn o tyr ny bo suyd ohonau chue ugeynt** o tyr y bo suyd o*honau* mal penhebogydyaeth neu **dysteynnyaeth neu kyghelloryaeth neu uaerony punt** o tyr e bo due suyd ohonau chue ugeynt a punt sef yu hen**ne o uessur rantyr. Penteylu a dele ugeynt o pob** punt a del er brenhyn am dadleu tyr a dayar a hen**ne o ran e brenhyn a dec keynnyauc er dysteyn wyr** euelly. Guedy barner tyr a dayar e den ny ellyr llu**dyas kyuran ydau o henne allan pan uenho na chae**dyc uo er amser nac ef ny bo kyureythyaul yu ydau **ef kyuran pob amser ac ny dele kemryt tyr kennyf** en lle pryodolder ac os kymer ae kolly ohonau en ke**ureythyaul ny deleyr y ennyll ydau can kemyrth** anylys en lle dylys. Ny dele kyt*tyryauc* talu yu gy**lyd tyr ny bo suyd ohonau en lle tyr y bo suyd oho**nau onyt ehun ae men ac os kymer collet e ureynt //

Cotton Titus D.ii ff. 31r

**Pa haulur bynnac a dyrchauo tystyon ene deleher** am emdyweduyt o kyureyth a dyrchauael ereyll or **amdyffynnur en e erbyn. sef a dyweyt e kyureyth** ena na deleyr duen e ardelu y ganthau nac y gan **nep onadunt eny pallo ydau e ardelu. Ac yna mae** yaun gouyn udunt puy eu hardelu ac eu tystyon a **pa le ~~b~~ y maent ac ot edynt en e maes muynhaer rey** er haulur en gyntaf ac onyt edynt en e maes roder **oet udunt herwyd e lle e boent endau mal e dyweyt** e keureyth ac onyt edyu testyon er haulur en e ma**es muynhaer rey er amdyffynnur sef achaus yu hen**ne cany deleyr annot parotruyd urth amparotru**yd. os rey er haulur a uyd en e maes yaun yu eu dan**gos er egneyt ac eu neylltuau. Ac ena e mae yaun er **egneyt kemryt tystyolaeth e kentaf ry dodet en e pen** urth e uuenhau a gouyn ydau ae guyr a dyweyt **er haulur ae nyt guyr a rody naud duu racdau na** dywetto cam tystyolaeth a dyweduet o*honau* en**teu tros henne bot en wyr ed oed er haulur en e dy**weduyt. Medylyet er amdyffynnur ena o pa hon e **menno ef dystryu e testyon ae o uot ganthau rey e**syd aduuynach a haus eu credu. ae enteu oc eu llessu. **Os eu llessu a uyn ac eu dyanc y adan y lys ef ny deleyr** muynhau e testyon ef wedy henne namyn muyn**hau e rey dylys. Os o uot en well e tystyon e dewys** muynhaer e rey goreu ac en ol e rey goreu barner **Os kystal uydant barner yr haul er haulur can e**dewys er amdffynnur bot en well e testyon nor **lleyll. pey en kystal y hadausey kyhyded uydey a ran**nu deu hanner. Os llessu testyon a uyn er haulur //

Cotton Titus D.ii ff. 31v

**llysset ual hyn. pan dywetto y tyst y ewyllys** guedy as gouynno er egnat ydau dywedet en**teu ket as dywettych ar dy tauaut leueryd nys** degy yr dygen. Ac yna os duc e tyst er dygen ae ty**gu gurthtyget enteu arnau ef re tygu anudon** ohanau. ac y gyt a henne nyt geyr dy geyr ty ar**naf uy. Ac ena e mae yaun ydau dody un or try ~~p~~** pung esyd keureythyaul en e erbyn ae tyrdra ae **gelynyaeth ae kerennyd nes er amdyfynnur noc** ydau ef ac ony watta e tyst a yrrer arnau byt lys**syedyc ac os guatta byt sauedyc onys gyrr er am**dyffynnur arnau truy tystyon ereyll ar testyon **henne en e maes byt sauedyc tystyon er haulur ca**ny deleyr oet y tyst ar tyst arall. Ac ony keyff er **haulur ae deu tyst ae try sauedyc ae a uo muy ual** e dywedassam ny uchot barner er haul ydau. Rey **a dyweyt e mae gureyctra esyd petweryd llyssyant** e keureyth eyssyoes a dyweyt e mae o kenedel gely**nyaeth yd henyu ae uot en tredyd. O deruyd e due ple**yt dody eu hardelu em pen tystyon ac na llysso nep **tystyon y gylyd e toreu breynt e tystyon ac aduuyn**haf ac amlaf barner en ol e rey henne. O deruyd eu **bot en ogystal barner en deu hanner er amrysson** a honno yu keureyth kyhyded. Keytweyt a dele **tygu un ryu llw ac a tygo e llourud en y ulaen em** pob pung ac a deleant tygu nat yr cas nat er dygass**ed nat er gobyr nat er guerth nat er dym namen** er cadu e guyr. Ny deleyr llyssu keytwat o byd breyn**nyaul cane gyrr ef un druc ar nep namen cadu gan** perchennauc er eydau. Tyst a dele tygu bot en wyr //

Cotton Titus D.ii ff. 32r

**er hyn a gadarnaho ac nat yr kas nat yr dygassed** e tug ac urth erru druc o tyst ar dyn e geyll e den e **lessu enteu. Reythur not a dele tygu tebygu bot en** glan ~~tebygu~~ llw e den e tygo e gyt ac ef ac o palla **un gur or guyr not palledyc uyd e reyth oll. Reythur** arall a dele tygu bot en tebycaf ganthau bot en wyr **er hyn a tug a chet pallo e reyth kyfredyn en ol e deu**parth e deleyr barnu. Ot edeu den kyuryf o testyon **kywyret neu pallet ot edeu enteu a uo dogyn eg keure**yth dygaun yu deu neu try

ket boet guell a uo muy **nyt tystyolaeth tystyolaeth un den. O deruyd e den en** dyd coll neu caffael keyssyau annot o uot e arwaes**saf neu y testyon en glaf neu en agheneu ereyll e ke**ureyth a dyweyt na grymya ydau henne cane cha**uas e peth a edewys. O deruyd dyguydau dyd coll neu** gaffael en amser cayat kyureyth am tyr a daear neu **en amser dedon. rey a deweyt deleu e adnewydu en** amser ryd eylweyth. e keureyth eyssyoes a dyweyt **nat oes dym a annotto dyd coll a chaffael namen un** peth sef yu henne na del cof er egnat e uraut amdanau. **ac ot amheuyr kreyrhaer ef. ac yna e rodyr oet eR** egnat e emgoffau ac e emdydan a guyr a uo hyn eu **puyll noc ef. sef yu er oet nau dyeu ac en e nauuet dyd** datcanet y uraut yr due pleyt a henne en dygygheus**saeth. O deruyd llesteyryau er oet ae o uaru ae o tyghet**uen arall ae o tremyc er haulur na doeth e waran**dau e uraut byt er amdyffynnur en e medyant ar** guarchadu o henne allan. O deruyd e den pan holer en **dadleu am tyr a daear dyweduyt na wnel yaun a tys**tu or haulur er argluyd ae egneyt ae wyrda na wa- //

Cotton Titus D.ii ff. 32v

**dus y haul ae uot en treyssyur a galu am uraut e**na e mae yaun o godef e uraut en e maes arnau e **dyuarnu en tragywydaul oe warchadu. os adau e ma**es a wna en agkeureythyaul y dyuarnu en oes er argl**uyd byeyffo er orsed honno cany eyn em bro ny rodho** . guyr. Pa amdyffynnur bynnac y sauo ganthau kyg**haus a chanllau ac ef ehun en tredyd a keyssyau oet ur**th porth o*honau* ny dele y caffael canys henne o deny**on yu e porth keureythyaul. Ny dele kygaus a chan**llau seuyll y gyt ac ef am haul a uo lley no kewerthyd **try ugeynt neu am tyr a daear a march ac eydyon.** Ryd yu teruenu pob amser. Nyt cayedyc keureyth **am tyr egluys un amser e rygthunt ehun cany henyu** oc an keureyth ny o holant huenteu nyny neu nynheu **vynteu cayedyc uyd. Ryd uyd rannu tyr pob amser** ony wedyr deleu e ran er bot er amser en cayedyc. **Val hyn e dele brodyr rannu tyr e rygthunt pede**yr eru urth pob tedyn a guedy henne e symudues **bledyn uab kenuyn deudec eru er mab ucheluur ac v**yth er mab eyllt ac uyth er godaeauc ac eyssyoes cadar**naf yu e mae pedeyr eru yu e tedyn. Messur er eru** keureythyaul petwar troetued en hyt e uerryeu. 6**yth en e uey*yeu* deudec en e kesseyl*yeu* un ar pymthec** en er hyr*yeu* a guyalen gyhyt a honno en llau e geyl**wat ar llau arall ydau ar er escur perued a hyt e kyr**haydo a honno o pob tu ydau yu llet er eru ae dec ar **rugeynt yu y hyt. Ereyll a dyweyt e mae guyalen** gyhyt ar gur huyaf en e tref ae lau uuch y pen ac yn **un ryu gerdet ar honno ac ar e llall. Ony byd tey e** mab yeuaf a dele rannu er holl tref tat ar hynaf //

Cotton Titus D.ii ff. 33r

**dewyssau ac o hynaf e henaf e*uelly* hyt en oet er** yeuhaf. Os tey a uyd e braut eyl yeuhaf a dele rannu **e tedenneu ~~ac e~~ canys dylerbren uyd enteu yna ar** hynaf dewyssau ar e tedenneu ac enteu guedy hen**ne rannu holl tref tat ac o hynaf y*uelly* hyt ar** yeuhaf dewyssau ar rannyat hunnu a parha en **oes e brodyr a guedy bo maru e brodyr e keuenderu** a dele kystadlu o mennant sef ual e deleant etyued **e braut yeuhaf a dele kystadlu ac etyued er hynaf** dewyssau ac e*uelly* o hynaf y henaf hyt ar yr yeu**haf ar kyuran honno a dele bot e rygthunt huen**teu en eu hoes. Ac ony byd da gan e keuerderu e ky**uran a uu gan eu tadeu uynteu a deleant kemeyn**hyau ual e keuenderu a guedy e ran honno ny dele **nep na chemeynnyau na chyunewydyau. am tyr gue**lyauc e deleyr mal e dywedassam ny. Tyr kyllydus **hagen ny deleyr e rannu herwyd brodyr namen ma**er a chyghellaur a deleant e rannu a rody e paub ~~en~~ **kystal ae gylyd en e tref ac urth henne e gelwyr en** tyr kyuryf ac ny byd eru dyffodedyc en tyr kyuryf **namyn o byd e ryu e ryu eru honno endau e rannu** or maer ar kyghellaur en kyffredyn y paub kystal **ae gylyd ac ny dele nep kechwyn oy tedyn kyureythy**aul o geyll caffael kyhyded amdanau o tyr arall. Ac **ual e dywedassam ny uchot am e llall e*uelly* e dely ma**er y bysweyl e wneythur am tyr e uaertref can adael **paub en e tedyn herwyd y gallo oreu. Ny dele un tyr** bot en dyurenhyn o byd abbat*tyr* ef o bydant lleygy**on dyrue a chamluru ac amober a lledrat a lluyd ef ae** dele. O byd tyr espyt*ty* ef; ef a dele lledrat ac emlad ac //

Cotton Titus D.ii ff. 33v

**urth henne nyt oes un tyr hepdau. Pan uo maru** er escop e brenhyn a dele e da oll canys dyffeyth bren**hyn yu pob da hep perchennauc ydau eythyr guys**coed er egluys ae thlysseu ac a perthyno attey. Try **gorsedauc e*syd* a allhant guneythur eu cabydul true** eu keureyth ehun en lle na llesteyryoent kyureyth **e brenhyn sef ynt e rey henne escop ac abbat a meys**tyr espytwyR. TRy ryu datanhud **esyd datanhud ar ac eredyc. a datanhud karr** a datanhud burn a beych ar datanhudyeu henne **nyt yaun eu datanhudau namen e mab en lle y tat** kyn no henne cany deleyr datanhud o ach

ac edryf. **Pvy bynnac e barner datanhud ydau o ar ac eredyc** ef a dele eysted yno ene emchuelo e keuen ar y das **a henne hep attep ac yna attep. a nauuet dyd or ka**lan gayaf hunnu kyureyth. Puy bynnac y barner **datanhud ydau oe ryuot a charr a chyuanned ac ae**luyt ydau ehun neu yu tat kyn noc ef ar y tyr hun**nu ef a dele bot eno en dyattep hyt e nauuet dyd;** ac ena rody attep ac em pen er eyl ~~e~~ nauuet dyd kyureyth. **Puy bennac e barner datanhud ydau oe ryuot ae ~~u~~**wurn ae ueych ae ef ae y tat kyn noc ef en kyuanhe**du aeluyt ar e tyr ef a dele bot eno teyr nos en dyattep.** a thry*dyeu* ac yna rody attep ac em pen e nauuet dyd **keureyth. Ar datanhudyeu henne ne deleyr eu barnu** ony byd rod ac estyn y gan argluyd ydau gynt ar e tyr. **Puy bynnac enteu a uynho holy tyr o ach ac edryf** dangosset y ach hyt e kyff yd henyu ohanau ac ot edyu **ef eno en petwaregur pryodaur yu canys en petwar**egur yd a dyn en pryodaur ac nyt e*uelly* e dyscyn //

Cotton Titus D.ii ff. 34r
**dyn o pryodolder ene uo alltut canys kyureyth a dy**weyt o deruyd e den bot eg gulat arall ae o achaus **dyhol ae o achaus galanas ae o agkeneu ereyll mal** na allo ef caffael e wlat en prytuerth e kyureyt a dy**weyt na dyffyd y pryodolder ef hyt e nauuet dyn.** pa amser bynnac e del oy ouyn ac ony byd ereyll en **pryodoryon en e erbyn en eysted ar e tyr deleu kubyl** o*honau* or a edewys ac o byd ereyll en pryodoryon en **y erbyn deleu keureyth kyhyded e rygthunt a ke**uran cany dele pryodaur ragor rac y gylyd. Os e nau**uet den a dau y ouyn tyr dyffodedyc yu e pryodolder** a hunnu a dyt dyaspat am e uot en mynet o pryodaur **en ampryodaur ac ena e guerendeu e keureyth e dyas**pat honno ac e ryd kynnuys ydau sef yu henne kef**uryuedy a kymeynt a phob un or nyuer e buynt en** eysted en y erbyn a honno a elwyr dyaspat uuch annu**uen a chet dotter e dyaspat o henne allan byth ny we**rendewyr. Ac ereyll a dyweyt na dele e nauuet dyn **dody e dyaspat honno namen e uynet o pryodaur en** ampryodaur. Ny deleyr guarandau urun or teyr ha**ul hyn en amser caeth keureyth am tyr a dayar sef** ynt e rey henne haul pryodolder a haul datanhud a haul emurthryn. **Herwyd guyr guy**ned ny dele gureyc caffael tref tat cany dele deu **ureynt o un llau sef yu henne tref tat e gur ar eydy e**hun a chany dele hytheu tref tat ny deleyr y rody hy**theu namen en e lle e deleho e meybyon hytheu tref tat.** Rey a deweyt na dele meybyon un wreyc tref tat o **uamues namen un wreyc sef yu honno gureyc a** rodho y that ae brodyr e alltut. Ereyll a dyweyt //

Cotton Titus D.ii ff. 34v
**ket rodho y chenedel hyhy e alltut ac nas rodho hen**ne o deneon na dele e meybyon hy tref tat. E keureyth **eyssyoes a dyweyt bot teyr guraged a dele eu meyby**on tref tat o uamues. 6n yu onadunt gureyc a rodo **kenedel en keureythyaul e alltut. eyl yu gureyc a** dycco alltut treys e arney en honneyt ac or treys hon**no caffael mab e keureyth a deweyt cany cholles hy** e breynt na chyll y mab hytheu e delyet o uamuys. Tryded **yu gureyc a rodho e chenedel eg guystleyryaeth all**tuded ac en e guestleyryaeth hunnu caffael mab oho**ney o alltut e mab hunnu a dele uamuys. Nyt oes** un wreyc enteu a emrodho ehun e alltut a deleho **e meybyon uamuys. Rey a deweyt am ueybyon e** ryu wraged henne ket buynt tref tadogyon nat **ynt pryodoryon. e keureyth a dyweyt na chychuyn** pryodaur rac ampryodaur ac e kechuyn pryodaur **rac meybyon e ryu wraged henne ae y ar peth ae** y ar kubyl ac urth henne e gat e kyureyth e rey hen**ne en pryodoryon ar keureyth eyssyoes a dyweyt o** byd suyd neu ureynt or tyr hunnu na cheyff ef dym ***ohanau* ef hyt e tredegur canys guell yu breynt pry**odaur a gynwarchatwo tyr nogyt un newyd dyuot **ac en tredegur e byd hunnu en dygaun warchadu** ony byd hyn a damweynnya caffael o kemraes mab **o pennaeth alltut en keureythyaul ac e hunnu e gat** e keureyth y suyd ae ureynt en dyannot. Kanhuyn**aul o powys ny dele mamuys eg guyned nac o uy**ned em powys ac e*uelly* en deheuparth. Ny dele e **tat defnydyau delyet e mab am tyr a daear namyn** en e oes ehun noc a dele e mab treyssyau e tat en e //

Cotton Titus D.ii ff. 35r
**oes am tyr e*uelly* ny dele y tat treyssyau e mab am** tyr a chet as treyssyo ef e mab ae dvc tracheuen eythyr **un peth ene bo keuundep tat a brodyr a cheuyndyru** a cheuyrdyru ac argluyd am talu tyr en waettyr a **hunnu ny eyll e mab e duen tracheuen canys yr mab** e prynnut heduch o hunnu megys er tat canys henne **o deneon yu y gradeu ny ellyr defnydyau tyr hep eu** kegor a cheny bo tyr e ryu den hvnnv ny byd alltut **eyssyoes namen bonhedyc canuynaul. Bonhedyc yu** dyn a uo e kyulaun uonhed eg kemry ac o uam ac o **tat. Keureyth eglues a dyweyt na dele un mab tref tat** namen e mab hynaf er tat or wreyc pryaut. Keure**yth hewel ae barn er mab yeuhaf megys er hynaf** ac a uarn na dotter

pechaut e tat nae agkeureyth **en erbyn e mab am tref e tat. Nyt dylys e den e dyuo**dyat e tyr namen true uraut e keureyth neu o estyn **argluyd. Rey a dyweyt o lledyr den am tyr deleu hun**nu oe etyued enteu en waet*tyr* udunt guedy henne. **E keureyth a dyweyt nat guaet*tyr* urun namen a** talher en keureythyaul guedy na bo dym ar helu e **llourud a talho nac o keynnyauc palader nac o dym** arall ac a uarn na deleyr llad un den namen e llourud **ny wnel e kubyl ar tyr hunnu a deleyr e rannu e** rygthunt mal e deleyt rannu er alanas. **Puy bynnac a dyodeuo muynhau e tyr un dyd a** bluydyn hep turyf hep eynywet ac en kywlat **ac ef ac eysted arnau. e keureyth a dyweyt na dele** hunnu attep or tyr guedy henne namen e bot en vyu**edyc hy ac en haul tra bluyden sef yu turyf ac eyny**wet llosky tey a thorry ereyder. Puy bynnac bye //

Cotton Titus D.ii ff. 35v

**yffo tyr eg glan traeth ef byeuuyd keulet ar** tyr or **traeth**. a gunaet koret arnau os men eythyr o buru **e mor peth er tyr neu er traeth e brenhyn byeuuyd ~~h~~** hunnu canys pynuarch e brenhyn yu e mor. Try thlus **kenedel e gelwyr melyn a choret a pherllan ar try** henne ne deleyr eu rannu nac eu kychuynnu namen **rannu eu fruytheu er nep ae deleho. Tyr coflan ny** deleyr eu rannu herwyd tydynneu namen herwyd **gardeu ac o byd tey arnau ny dele e mab yeuhaf uynt** muy nor hynaf namen eu rannu herwyd esteuyll. **Ny dele nep attal gardeu ganthau herwyd breynt** e teyl namen un uluyden canys pob bluyden e dele**yr eu teylau. Brynar due ulyned e deleyr y eredyc** branteyl wyr e*uelly*. tyr guyd wyr y*uelly*. Buarth**teyl teyr blened y eredyc. Karr*teyl* pedeyr blyned** e deleyr y eredyc. tyr coet wyr euelly. branar*teyl* ~~p~~ **pedeyr blyned heuyt. Ny dele braut bot en koet*vr*** er llall namen talet ydau koet kystal ar hun a dy**oskes enteu ac ony cheyff koet kystal talet o henuaes** ydau kystal ar koet ac ony cheyff o henuaes ardet er **hun ry dyosces y koet e arnau pedeyr blened ac odyna** allan gadet yu uraut kystal ac ydau ehun ohonau. **Ny dele nep guerthu tyr nae prydau hep ganhyat** argluyd namen lloccet pob bluyden ef os myn. Guyr **a uo a dan abbadeu a guyr a uo a dan escop vynt a de**leant prydau eu tyr os mennant can ganhyat e rey **henne. E keureyth a deweyt e dele meybyon uchelwyr** cadu argluydyaeth ar eu halltudyon ual e dele e bren**hyn kadu argluydyaeth ar y alltudyon enteu ac ual** yd a alltudyon en pryodoryon en e petwaregur gue- //

Cotton Titus D.ii ff. 36r

**dy e dotter ar dyffeyth brenhyn uynt e*uelly* yd a all**tudyon e meybyon uchelwyr en petwaregur en pry**odoryon o bydant en guarchadu tyr adanadunt en ky**hyt a henne ac o henne allan ny deleant uynet y urth **e meybyon uchelwyr canys pryodoryon . ynt a dana**dunt ac na deleant huynteu due pryodolder vn en e **wlat yd hanuoent o*honey* ac arall yma. Guedy buynt** pryodoryon huenteu eu tydynneu a edyr udunt her**wyd e delehoent ac eu tyr amyn henne en tyr such a** chulltyr e rygthunt. O myn er alltudyon mynet y urth **eu hargluydy kyn eu bot en pryodoryon uynt a** deleant adau hanner udunt ac os or enys hon yd han**uydant ny deleant trygyau en un lle e tu hun hun e** glaud offa ac os tra mor yd hanuydant ny deleant try**gyau yma namen hyt ar e guynt kentaf e caffoent** mynet y eu gulat ac o thrygant emchuelent ar eu ke**ythywet ual kynt. Ereyll a dyweyt na deleant uynet** hyt ar e trede*guynt* ac os e mab ucheluur ac eu gyrr **huynteu kyn eu bot en pryodoryon oc eu hanuod ne de**le hunnu dym oc eu da huynteu. **Kyn no duyn coron lundeyn a theyrnwyalen o sae**son dyuenwal moel mut a oed urenhyn ar er enys **hon a mab oed hunnu e yarll kernyu o uerch brenhyn** lloegyr a guedy dyffody tadues e urenhynyaeth e ka**uas enteu hyhy o cogeyl urth y uot en vyr er brenhyn** ar gur hunnu a oed ur audurdodus doeth ar gur hun**nu a wnaeth keureythyeu da en er enys hon en gyntaf** ar keureythyeu a wnaeth ef a parhaassant hyt en oes **hewel da. a hewel guedy henne a wnaeth keureythyeu** newyd ac a dyuaus rey dyuenwal ac ny symudus he- //

Cotton Titus D.ii ff. 36v

**wel eyssyoes messureu e tyred er enys hon namen mal** y hedewys deuynwal canys goreu messuruur uu ef. Ef a **uessurus er enys hon o penryn blathaon em pryden hyt** em penryn penwaed eg kernyu sef yu henne nau can **mylltyr a henne yu hyt er enys hon ac o grugyll ymon** hyt en sorram eg glan mor ud pymp can mylltyr a hen**ne yu llet er enys hon sef achaus e messurus ef henne yr** guybot y mal ae mylltyryeu ae hemdeythyeu en e dye**oed. Ar messur hunnu a uessurus deuenwal er gro**nyn heyd try hyt gronyn heyd en e uotued teyr mot**ued en llet e palyf. try llet e palyf en e troetued try ~~t~~** throetued en e cam try cham en e neyt try neyt en e tyr **sef yu e tyr eg kemraec newyd grun. a myl or tyr yu** e mylltyr ac or messur hunnu ed edys en arueru yma **etwa. Ac yna e gunaethant messur er**

**eru keureythy**aul urth uessur e gronyn heyd try hyt e gronyn heyd **en e uotued teyr motued en llet e palyf try llet y palyf** en e troetued petwar troetued en e uerr*yeu* vyth **en y uey*yeu* deudec en e kesseyl*yeu* un ar pymthec en** er hyr*yeu* guyalen kyhyt ar hyr*yeu* en llau e geyl**wat ar escurr perued yr yeu honno en e llau arall ydau** a hyt e kyrhaydo ef a honno gan hyt e ureych yu deu **eyryonyn e tyr sef yu henne llet er eru keureythy**aul a dec ar ugeynt e honno yu y hyt. pedeyr eru o hon**no em pob tedyn a dele bot petwar tedyn em pob** ran*tyr* pedeyr rantyr em pob gauael. pedeyr gaua**el em pob tref pedeyr tref em pob maenaul deudec mae**naul a due tref en e kymhut e duy tref a dele bot en **reyt e brenhyn ac en hauot*tyr* ydau a chymeynt ac** a dywedassam ny uchot oll en e kymhut arall sef yu //

Cotton Titus D.ii ff. 37r

**henne o eyryf ~~erwy~~ pymp ugeyn tref. a henne yu y** cantref en yaun dec degweyth a dele bot en e cant ac **nyt a ryf bellach dec. Hen yu ryf o erwy a dele bot en e** cantref pedeyr eru keureythyaul em pob teden un ar **pymthec em pob rantyr pedeyr a thry ugeynt em pob** gauael un ar pymthec a deugeynt a deu cant en e tref **pedeyr eru ar ugeynt a myl o erwy em pob maenaul** deudeg myl a deu cant ac uyth eru a petwar ugeynt **en e deudec maenaul. En e due tref a perthyn ar e llys** e dele bot deudec eru a pymp cant sef yu henne guedy **del oll y gyt o erwy en e kymut deudeg myl ac vyth cant** a kymeynt a henne oll en e kymut arall sef yu henne **o eyryf erwy en e cantref chuech cant a pymp myl ar u**geynt nyt muy nyt lley. Or deudec maenaul a dele bot **en e kemut pedeyr onadunt en ueybyon eyllyon e por**thy kun a meyrch a kylch a dooureth ac un e kyghello**ryaeth ac un e uaerony ar chuech ereyll en ueybyon u**chelwyr rydyon. Ac or uyth henne e dele e brenhyn **guestua pob bluydyn sef yu henne punt o pob un ona**dunt a honno a rennyr try ugeynt ar pob tref o pede**yr tref a uyd en e uaenaul ac e*uelly* o petwareran buy** gylyd e rennyr ene el ar pob eru or tedyn e ran a hon**no a elwyr e punt tung ar gostecuur a dele e kemell** a chymeynt a henne oll or kemut arall ac euelly e byd **kyulaun e cantref. Meyrydyon a chyghelloryon a de**leant keweyryau e wlat a guneythur e dadleu ac a de**leant hanner o pob peth en erbyn e brenhyn eythyr** o try peth sef yu henne guerth tyr a guerth lleyder **a guerth keleyn. Kyghellaur a dele rannu e rygthau** ar brenhyn ar brenhyn dewyssau. Maer a dele ran- //

Cotton Titus D.ii ff. 37v

**nu e regthau ar kyghellaur ar keghellaur dewys.** E maer ar kyghellaur a deleant bot deu was ganthunt **en guneythur eu negesseu a deu ereyll er brenhyn ac** vynt a deleant duen kylch ar eu petweryd ar ueyby**on eyllyon e brenhyn due*weyth* en e uluyden a han**ner ebedyu e meybyon eyllyon a hanner amober eu **merchet a deleant. Maer a chyghellaur a deleant ke**weyryau meybyon eyllyon e brenhyn ar eu heru keure**yth pan uo maru un onadunt ac a deleant cadu dyf**feyth e brenhyn a tygu trostau pan uo reyt ac o def**nydhya e brenhyn ef vynt a deleant eu suyd ohanau.** Ny dele na maer na chyghellaur bot en pen*kenedel* na**men un o uchelwyr e wlat ny deleyr penkenedlaeth** o uamues. Pen*kenedel* a dele pedeyr ar ugeynt y gan **pob gur a uenno cares ydau canys hytheu ehun a tal** e hamober ac a dele pedeyr ar ugeynt e gan pob mab **a kemerho ef eg kenedel ac ef a dele emerru y gyt ae** kar em pob reyt or a del arnau. Nyt oes gobyr mu**ryedyc e uab ucheluur en dadleu namen er hen a uyn**her e rody. Maenaul e taler tung o*honey* ny dele er ar**gluyd nae mel nae pyscaut canys med a deleyr o*honey*** ac y gyt ar med pedeyr ar ugeynt o pob maenaul a de**leyr a hunnu a elwyr aryant y guynnos ac ual e ren**nyr e punt tung e rennyr hunnu. Ny deleyr gossot **ar e maenolyd ryd na maer na kyghellaur na kylch** na dooureth na macuyeyt na dym namen a dywedassam **ny uchot eythyr kylch maur e teylu pob gayaf. Ny de**le e brenhyn yu wlat un lluyd ohoney ehun namen un**weyth pob bluyden ac ny dele bot en hunnu namen py**theunos a mys en e wlat ehun ryd uyd ydau pan uen- //

Cotton Titus D.ii ff. 38r

**ho. Paub a dele guneythur gueyth kestyll e brenhyn** pan uenho eythyr guyr e uaertref. Ny dele meybyon **eyllyon e brenhyn e porthy na porthy e teylu a chany de**leant e porthy ny deleant vynteu eu mel nac eu pyscaut **namen e rody e lys e brenhyn ac ef a dele os myn gune**ythur coredeu ar eu dyured a llad eu bydaueu. Vn or **meybyon eyllyon a dele bot en uaer e bysweyl. vynt** a deleant rody pynueyrch er brenhyn en e luedeu ac **a deleant anrededu er argluydes un*weyth* pob blue**den ar uuyt a llyn. ac a deleant porthy e kun ar kyny**deon ar hebogydyon ar maccuyeyt pob un onadunt**

**un**weyth pob blueden. ac o byd alltudyon gulat arall eg **keuoeth e brenhyn ae en wyr ydau ae en arhos guynt** ae em petheu ereyll ef a dele os myn eu gossot en dooureth **ar e ueybyon eyllyon. Herwyd rey er alltudyon henne** kemeynt ac a dangossont o da pan delhoent y ty e mab **eyllt a deleant e gaffael pan elhoent ohanau ac o chyll** dym e talu udunt eythyr try peth a deleant y gadu **ganthunt ehun dyd a nos. sef yu henne eu llodreu ac** eu kledyueu ac eu menyc ac ny deleant eyghyau namen **e nos gyntaf o chaffant uara ac un enllyn. Meybyon** eyllyon e brenhyn a deleant guneythur seyth tey er **brenhyn sef ynt e rey henne. neuad a buyt*ty* a chegyn** a hunty a marchty a kynor*ty* a thy bychan. E brenhyn **a dele o pob byleyntref gur a buyall y wneythur llues**teu ydau en e lluyd. Ny dele maer e bysweyl dale dadleu **namen ar wyr e uaertref namen erbynnyeyt da e** brenhyn y gan e meyry ar kyghelloryon ac ef a dele ro**dy pedeyr ar ugeynt er gostecuur pan estenher ma**eronyaeth ydau. Guassanaethwyr e maer ar kyg- //

Cotton Titus D.ii ff. 38v

**hellaur a deleant hebrug e da hyt ar uaer e byswe**yl. Maer e bysweyl a dele keweyryau e llys oe meun **ac a perthyno attey y am eredyc a heu ac arheyl escry**bel e brenhyn ae hauodyd a petheu ereyll a uo reyt ac **ef a dele cospy guyr e uaertref am eu agkeureythyeu** ac eu dyrue ac eu kamluru ac eu hebedyu ef ae dele **ac amober eu merchet e wreyc ae dele. E porthaur** a dele kymell amober ac ebedyu e rey henne a pede**yr keynnyauc ydau enteu o pob un o*nadunt* hue.** Maer e bysweyl a dele pedeyr keynnyauc e gan e **porthaur pan estenher y suyd ydau ac ef a dele te**gu tros tyr burd e llys ae hauot*tyr* o byd reyt ac eu **amdyffyn ac vynt ac a pertheno arnadunt. Guyr e** uaertref a deleant guneythur odyn ac yscubaur **er brenhyn ac eu dywallu pan uo reyt. vynt a dele**ant talu tung eu tyr en llau uaer e bysweyl ac a de**leant e porthy due*weyth* en e ulueden. ac vynt a dele**ant dernu a chrassu a medy a llyfnu a llad gueyr a **cheyssyau guellt a kennut e gnyuer gueyth e del e bren**hyn er llys ac vynt a deleant anrydedu e brenhyn pan **uo en e llys herwyd eu gallu ae en deueyt ae en vyn** ae en uenneu ae ar emenyn ae ar kaus ae ar llaeth. **O dery mab ucheluur e uab ar uaeth ar uab eyllt ar**gluyd kan y ganhyat neu gan y odef ohonau un dyd **a bluyden hunnu a dele ran mab o tyr e mab eyllt ac** oe da wedy henne. O pob maenaul ryd e brenhyn a de**le keruen ued nau dyrnued en e hyt en amryscoeu ac** ony cheffyr o ued due o uragaut ony cheffyr o uraga**ut pedeyr o kuryf. Puy bynnac a torro** teruyn e rug duy tref oe eredyc e brenhyn a dele //

Cotton Titus D.ii ff. 39r

**er ychen ae hardo ar guyd ar heyrn a guerth e** troet deheu er amaeth a guerth e llau assu er geyl**wat a pedeyr keynnyauc e perchen e tyr a chyweyr**yau e teruyn ual kynt. Pvy bynnac a ardo tyr en **agkyuarch talet pedeyr keynnyauc er nep byeyffo e** tyr a keynnyauc am pob kuys a ardher ac agkyuarch **er brenhyn. O deruyd emteruenu e rug deu wyr gym**breynt am tyr ar neyll en teruenu hyt racu ar llall **hyt ema a tygu o pob pleyt llyna e tredyd lle y ran keure**yth en deu hanner. Pvy bynnac a dycco maen teruyn **a uo honneyt e rug due tref talet chue ugeynt e per**chennauc e tyr a chamluru er brenhyn ac e*uelly* am **ford a gatwo teruyn gan emyl e ford.** Messur guestua e brenhyn en amser gayaf o uae**naul ryd yu hen pun march or blaut goreu a tyuo ar** e tyr ac eydyon kyc a dogen keruen o ued nau dyrued **en e hyt en amryscoeu ar gymeynt arall en e llet a se**yth dreua o geyrch un ruem en ebran a huch teyr blu**yd ac enhorop hallt a llet try bys en e thewet a llester** emenyn try dernued en e hyt hep uoel a thry en e let. **Ac ony ellyr caffael henne punt amdaney a honno a el**wyr e punt tung a pedeyr ar ugeynt e wassanaeth**wyr e brenhyn. ony ellyr caffael e med due o uragaut** ony cheffyr e bragaut pedeyr o guryf a henne a dau **o pob maenaul ryd er brenhyn. sef mal e rennyr e punt** honno chue ugeynt er bara a thry ugeynt er llyn. a **thry ugeynt er enllyn. Or maenolyd caeth e deleyr** deu daun buyt pob bluyden y gayaf huch teyr bluyd **a llester emenyn try dernued hyt try llet a dogen ke**ruen o uragaut nau dernued en e hyt en amryscoeu //

Cotton Titus D.ii ff. 39v

**a dreua o geyrch un ruym en ebran a chue thorth ar** rugeynt or bara goreu a tyuo ar e tyr. O byd gue**nythtyr chuech onadunt en peyllyeyt ony byd gue**nythtyr chuech onadunt en rennyon pedeyr ona**dunt parth ar neuad a due parth ar estauell ac** en gyulet ac o pen*elyn* hyt ardurn ac en ken te**wet ac na plyccoent er eu dale erbyn eu hemyl.** a den a genewo tan en e neuad e nos honno neu **keynnyauc er nep ae kynneuho trostau. Messur** daun buyt er haf yu mollt teyr bluyd a mannat **emenyn kyulet ar dyscel letaf a uo en e tref a chyn** tewet ac y bo deu uoeldernued endau a chue

thorth **ar ugeynt o ryu uara a <u>dywespuyt</u> uchot a chyn**nullau a uo o luden e perchennogyon e tref oll **e gyt ac eu godro un weyth en e dyd ac na odroher** namen er un weyth honno a chossyn a wnelher **o henne o laeth hep urac hep ebran hep dym e ken**neu tan. Maer a chyghellaur a deleant kylch pob **bluyden un*weyth* ar ueybyon eyllyon e brenhyn** a deu was gan pob un onadunt ac er kyghellaur **dewys y ty ac ny deleant kylch er haf.** Rey e*syd* ar pedrus am ueychyogy gureyc **o llegryr pa beth a deleyr amdanau ae uy**nepwarth ae galanas. e keureyth a dywe**yt panyu galanas a deleyr amdanau sef achaus yu e** try mys kentaf e byd guyn ef ac ena e byd traean ga**lanas arnau. ar eyl try mys e byd rud ac y byd deu**parth galanas arnau ac en e try mys dywethaf e **byd kylaun enteu o aelodeu ac eneyt ac y byd gala**nas kubyl arnau. Rey a deweyt nat yaunach talu //

Cotton Titus D.ii ff. 40r
**galanas gur amdanau ef nogyt un gureyc cane wys** <u>bet</u> yu ef ae gur ae gureyc. e keureyth a deweyt bot **en yaunhaf barnu en ol e peth pennaf a bot galanas** gur arnau a henne ene uedydhyer ac urth henne e ma**e dyr e uot enteu ar ureynt e beychyogy ene uedyd**hyer. O henne allan ene uo seyth bluyd e dele y tat te**gu a thalu trostau eythyr na dele talu na dyrue na** chamluru er brenhyn trostau cany dele e brenhyn dym **am anodeu ac nat oes puyll ganthau enteu ef a dele ha**gen dyeyssywau e kolledyc or eydau. O pen e seyth ble**ned allan ef ehun byeu tygu tros e weythret ae tat** byeu talu canys ena yd a a dan lau er effeyryat ac e **kymer gued duu arnau. Or pan anher y mab ene uo** pedeyr bluyd ar dec e dele bot urth noe e tat ae tat **en argluyd arnau ac ny dele cosp arnau namen un** e tat ac ny dele un keynnyauc oe da en henne o amser **namen a uedho e tat ac ny dele maruty arnau ket bo**et maru en henne o amser namen bot en eydau y tat **e da oll canes y tat en henne o amser a dele attep trostau** am pob peth. O deruyd maru e tat e uluyden gyntaf e ga**ner e mab ehun a a em breynt y tat. Ny deleyr talu ebe**dyu mab ene uo pedeyr bluyd ar dec ae tat en uyu. gue**dy yd el enteu em breynt e tat ef ae tal. Em pen e petwa**red uluyden ar dec e dele e tat duen e uab ar er argluyd **ae orchemyn ydau ac yna e dele enteu gurhau er arglu**yd a bot urth ureynt e argluyd ac ef ehun byeu attep **trostau o pob haul a ouynher ydau ac ef ehun byeu ~~<u>n</u>~~** medu e da ac ny dele e tat y uaedu o henne allan muy **noc estraun ac os maed gan kuynau or mab racdau ef** a uyd dyruyauc ac a wna yaun er mab oe sarhaet. //

Cotton Titus D.ii ff. 40v
**dyly ran** deu wr or anreithyeu a dycher eithyr y wlat. ac o drayan y brenhin ew a **dyly trayan. Ew yu y trydydyn a dyly tra*yanu* ar brenhyn. y** deu ereill yu y urenhines ar penhebogyd. Ew a dyly tri chorneit. 6n y **gan y brenhin. Ar eil y gan y urenhynes ar trydyt y gan y distein. Ar rei** hynny a dyly uod ar y anchuyn. ew a dyly certh y gan y bard teulu pan **uynho. ew a dyly meteginyaeth rat pan uynho eithyr y waetdillat.** Onyt un or teir gweli arberygyl. 6yd. Sew yu y rei hynny. dynaut **ym pen hyt er emenyd. Dyrnyaut hyt yr emyscar. neu torri un or** pedeir colouyn. ew a dyly cylch y gan y brenhin wedy gwahano ac ew **y nodolic ew ar teulu. A their ran a dyly uot. yr henran ar ran berued.** ar ran yeueygc. a phob eilwers y dyly uot y gyt ac wynt. ar ran y bo **ew y gyt ac wynt a dyly dewys y ty. A hyd tra uo ew ar y cylch h6n**n6 y dyly uot s6ytwyr ydau a dryssaur. a choc a s6ydwyr b6yt ar **rei hynny a dylyant cr6yn yr anіueilyeit a lader udunt h6y. ar co**geu a dyly y gwet ar dihynnyon ar emyscar. a gwedy darfo y cylch **h6nn6 deuet ar y brenhin a thricet y gyt ac ew hyt y phen y wluydyn.** ac ny dyly uynet y ganthau hyt y pen y wluydyn onyt y6 negesse6 **ew. A llyna yr achaus canys trydyd hannepcor brenhin yu y teulu.** y deu ereill effeiryat teulu ac ynat llys. pan uo maru y penteulu y **brenhin a dyly y uarch ay arueu. ay gun ay hebauc a hynny yn lle** y ebedy6 cany dylyir ebediu y aylaut y brenhin. namyn y herneis. **Yr eil yu effeiryat teulu hunn6 a dyly y dyr yn ryd. ay wysc teir** gweith yn y wluydyn. y liein y gan y urenhines ay urethynwysc **y gan y brenhyn. y le yn y ne6ad y am y tan ar brenhin yn nessaw** yr celui urth uendigau buyt a chanu pater. y lety yn ty y clochyd. **ar ysgolheigyon y gyt ac ew. y saraet yu herwyd braut sened. //**

BL Add. 14931 t. 6
**ay ank6yn yu seic a chorneit llyn. ew a dyly offrum y brenhin a** phaub or y rodho ew offrum ydau yn y teir g6yl arbennic. ew a dy**ly trayan degum y brenhin. ew a dyly degum y teulu. ew a dyly** ~~degum y teulu~~ a del yn eu dayret. ew a dyly pedeir ceinnyauc am bop **inseil agoret a ro*der* am tir a dayar a negesseu ereill maur.** ew a dyly offrum y brenhyn beunyd ar efferen ac offrum y s6yd**wyr achlan. a trayan g6eini ar deuparth yr lle pan hanfo. a phob** peth a berthyno barth ar llys or holl dynyon ew bieu trayan eu gwa**ssanaeth. ew a dyly y dillat a uo am y brenhin tra uo yn y arawys.** ew a dyly uot yn wastat y gyt ar brenhin. kanys trydyt anhepcor **yu. ew a dyly cafael y uarch ual y treulhyo y gan y brenhin. Ny dyly** escop personi nep ar sapeleu y brenhyn heb y ganhyat. Trydyd **yu y distein ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bressvyl ay wysc deir**gweith yn y wl6ydyn. Sew yu hynny y 6rethynwysc y gan y bren**hin ay lyeinwisc y gan y urenhines. y sarhaet yu nau m6u a nauge**int ariant. ..erth yu **..u m6u nau ug** ..n m6u. ew a dyly gwysc y penteulu yn y teir guil arbenhic. ew **a dyly rann6 y llyetyeu. ydau ehun yn nessaw yr llys ar holl s6ydwir** y gyt ac ew. ew ysy ben ar yr holl s6ydwyr. ew a dyly pedeir ar **rugein y gan bop un or s6ydwyr. pan estynner suyd ydau. cr6yn** y gwarthec a ladher yn y gegin yr s6ydwyr ar distein yd ant. ac yr **distein y d6iran onadunt. eythyr gwarthec y maer. y coc ar distein** bieu cruyn y manscrybyl. Sew yu y rei hynny deueit ar 6yn ar **mynneu. ar yrch ar alaned. a phob anіueil man a del y groen yr ge**gin amdanau. ew a dyly dec ceinnyauc o bop punt a del yr brenhin. **am dadleu tir a dayar. ew a dyly trayan dir6y a chaml6ru y s6ydwir.** ew a dyly trayan diruy a wneler 6uch cynted. O deruyd y dyn gw**neuthur cam is coryw a fo ohanau 6uch coryw. ay daly ew kyn** cafael naud trayan y diruy a dyly y distein. y naud yu d6yn y dyn **a wnel y cam hyt ar y penteulu. ac ynteu hyt yn dyogel. y distein //**

BL Add. 14931 t. 7
**a dyly medu yn wastat y b6yt yn y gegyn. ar llyn yn y uedgell. Ereill** a dyweit y mae hyn yu y naud. or pan dechreuho seuyll yn y s6yd yny **el y dyn dywethaw y gysgu d6yn y dyn. y distein a dyly gwassanaethu** ar chwedyn ar wyt. ar seithuet ar lyn. Sew yu y rey hynny y bren**hin ae hyneyw. ay osp. ay edlig. ay benhebogyd ay droydyauc ay ben**gwastraut. yn seithuet ar lyn. canys ceny dylyo kytwyta ac ew; ew **a dyly kytyued. ew a dyly gossod naud a thystu gwirodeu. P6y byn**nac a dorro y naud cyffredyn a ossoto ew nyd oes y hunn6 un naud. **ew a dyly deu ebran yu uarch. a phedeir pedol ac eu to hoyllyon un**weith yn y wluydyn y gan y gow llys. ew a dyly huyedyc hebauc y **gan y penhebogyd pob guyl 6yhagel. ew a dyly y gan y kynydyon** o hanner chweuraur hyt yn diwed y gwaanhuyn croen ewyc pan **uynhoynt or dyd hunnu hyt hanner hydrew croen hyd kanys yn** y tymhoryeu hynny yd heliir. ew a dyly kadu ran y brenhin or an**reith a del o orwlat. yny uynno y brennyn y dewynydyau. a phan** uynho y brennyn y drayan y distein a dyly dewys y eidyon o dra**yan y brennyn. y distein a dyly tyghu dros y brennyn. y distein a** dyly rannu aryant y guynnos. 6al hyn y rennir ariant y guynnos. **Sew y6 hynny pedeir ar ugeint o bop gwled y bo med arnei. ac o hyn**ny

un ar bymthec y suydwyr y brennyn. ac 6yth y suydwyr y urenhi**nes. or un ar bymthec a da6 y suydwur y brenhin. 6rth yr distein ar** cogeu. ar distein a dyly d6yran ac un yr cogeu. a phedeir yr gweis**syon yste6yll. d6y y dryssaur y neuad. 6n y dryssaur yr ystauel. 6n** yr kanh6yllyd. Or 6yth a berthyn ar s6ydwyr y urenhines. pede**ir yr distein ar cogeu. ar d6yran yr distein. 6n yr gwas ystauel.** 6n yr lla6uor6yn. 6n yr dryssaur. 6n yr canh6yllyd. **Pedweryd yu yr hebogyd ew a dyly y uarch bres6yl ay dir yn ryd** y le yn y llys y6 pedwarygur nessaw yr brenhyn. ar y seic. y lety **yu ysgubaur y brenhin rac daly ~~m6o~~ m6c ar y adar. ew a dyly //**

BL Add. 14931 t. 8

**d6yn llestyr yr llys y dodi gwiraut yndau cany dyly ew namyn torri y** sychet. sew achaus yu hynny rac gwander y6 adar. ew a dyly dyrn6ed **o ganhuyl guyr y gan y distein y abuyda6 y adar ac y wneuthur y wely.** Ny dyly talu aryant y pengwastraut canys y brenhin ay gwasanaytha. **yn tri lle. pan ellygho y hebauc daly y uarch. Sew ual y dyly daly y uarch** tra disgynho a phan esgynho daly y warthauyl. a daly y uarch pan el **yu aghen edyl. ew a dyly calonneu yr aniueilyeit a lader yn y gegin ar** ysgyueint y borthi y hebogeu. ew a dyly dauat hesp neu pedeir ceinnyauc **y gan uileinnyeit y brenhin. 6n weith yn y wluydyn y dyly cylch ar** y bileinnieit. ew a dyly trayan diruy yr hebogydyon ac amobyr eu mer**chet. ew a dyly croen hyd yn hydrew. ar gwaann6yn croen ewyc y wne**uthur menyc y arweyn hy hebauc ac y wneuthur tauylhualeu. ew **a dyly y anrydedu o deir anrec y dyd y llado y hebauc un o dri ederyn. ay** b6nn. ay garan. ay cryhyr. ew a dyly mantell y brenhyn y mar**choco yn y teir guyl arbennic. y naud yu hyt ar y urenhines. ereill** a dyweit panyu hyt y lle diwethaw yd ellygho y hebauc ar ederyn. **ew a dyly yr huyedigyon. ac ew a dyly nythot yr hebogeu ar llamysten**not a uo yn dayar y brenhin. Or pan doto y hebauc ymud ynyu tyn**ho allan ny dyly atep nep. namyn un or cytsuydogyon. y sarhaet y6** chwe b6u a chwe ugein mu6. gan eu hardyrchauael. **Pymhet y6 yr ygnat llys ew a dyly y dyr yn ryd a lieinwysc y gan y** urenhines ay urethynwysc y gan y brenhin. y le yu y am y tan ar bre**nhin yn nessaw yr effeiriat teulu. y lety yu ystauel y brenhin yr hon y** bo yn cysgu yndi. ay glustoc y gan y urenhines a llenllieín. ar gobennyd **yd eisted y brenhin arnau y dyd. a dana6 ynteu y nos. Ereill a dyweit** na dyly ew y lety or neuad. y uarch a dyly uot y rug march y brenhin **ar paret. ay duyran ydau. or ebran. ew a dyly taulburth o asgurn mor**uil y gan y urenhines ac arall y gan y bard teulu ac ouer*dlysseu* hynny //

BL Add. 14931 t. 9

**ny dyly ew nac eu gwerthu nac eu rodi tra uo byu. ew a dyly ran g6r y gyt** ar suydwyr. ew a dyly y gan y pengwastraut diwallu y uarch or hoel gyn**taw hyd y dywethaw. ay ystarnu ay duyn ydau y esgynn6 arnau pan uar**choco. ew a dyly y gan y porthaur agori y porth maur ydau yn dyuot yr **llys. ac y uynet y meun ac allan. ac nas ellygho uyth yr wychet nac yn my**net nac yn dyuot. ew a dyly ran gur o aryant y gwastrodyon. ew a dyly **or anreith a wnel y teulu y gorwlat wedy del yr brenhin y thrayan. yr ei**dion a dewisso ew a dyly am bop dadleu tir a dayar pedeir ar ugeint y ryg**thau ar yneit a duyran ydau ew. ew a dyly barnu ar y llys ac ar y teulu.** ac ar a berthyno arnunt. ew a dyly llamysten gywruys neu huyedyc **hebauc y gan y pen*hebogyd*. ew ysyd drydyd anhepcor argluyd. ew a** dyly pedeir ar ugein y gan bop ynat a prouo ew. ac yn y lle y bo yn kyduar**nu braut y gyt ac yneyt ereill. ew a dyly ran deu 6r. y naud yu hyt ar** y urenhines. Puy bynnac a gyrcho naud atau ew. ew a geiph naud or **pan dechreuho doosparth y dadleu cyntaw yny darfo y diwethaw yn y** dyd hunnu. O deruyd y dyn ym6ystlau ac ynat llys neu ac arall o geill **y dyn hunn6 proui uot yn gam y uraut a uarnus yr ynat collet yr ynad** y dauaud neu ynteu a pryno y gan y brenhin yr y werth cy6reith. Os **ynteu a oruyd talet ydau y sarhaet. Sew yu y sarhaet chwe bu6 a** chwe ugeint o aryant. can y ardyrchauael. y werth yu chwe bu6 a **chwe ugein mu6. can y ardyrchauael. Chwechet y pen**gwastraut ew a dyly y dyr yn ryd a lieinwysc y gan y urenhines ay ure**thynwysc y gan y brenhyn ay uarch bresuyl. y le yu y am y ~~le~~ celui ar bre**nhin. y lety yu y ty nessaw yr ysgubaur urth dylyu ohanau **ew rannu yr ebran. ew a dyly duyran or ebran yu uarch ew.** ew a dyly pedeir ceinnyauc am bop march a rodho y brenhin eithyr y dri **dyn sew yu y rei hynny yr escop ar penhebogyd ar croessan. Sew acha**us nas dyly y gan yr escop. urth y uot yn beriglaur yr brenhin a chy**uodi racdau ac eisted yn y ol. a daly y lewys tra ymolcho. Sew achaus //**

BL Add. 14931 t. 10

**nas dyly yr penhebogyd urth dylyu or brenhin y wasanayth ew. or tri a**chaus y dywedir nas dyly y brenhin. Nys dyly yr croysan sew achaus nas dy**ly canys ew a dyly ruymau y kebystyr am y geillyeu. yr un a uo y pen y** march a roder ydau tra el or llys. ac or achuyssyon hynny ny dylyant ta**lu ariant y gwastrodyon. ew ar gwastrodyon a dylyant yr ebolyon** hyt yn duy wluyd o trayan y brenhin or ~~arr~~ anreith. ew a dyly capaneu; **glau y brenhin ay hen gywrayeu lli6 eu pren. ay hen fruyneu dulys. ay** hen ysparduneu dulys y ymduyn arueu y brenhin. ew a dyly croen ych **y gayaw. a chroen bu6ch yr haw. ny dyly nep dim or gwadaut namyn** y pengwastraut. ew a dyly dyrnued y rug llyn a gwadaut. y chruyn **y wneithur kebystreu. ew a dyly coysseu y gwarthec a lader yn y ge**gyn. y naud yu hyd y parhao talym y march kyntaw. ew a dyly tra**yan diruy y gwastrodyon ac eu camluru ac amobyr eu merched. ew** a dyly corneit llyn y gan y brennyn ac arall y gan y urenhines ac arall **y gan y distein. arei hynny a dylyant uot ar y anchuyn a seic o wuyt. y sa**rhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint o aryant. y werth y6 chwe bu6 a chwe **ugein mu6 gan y ardyrchauael. ay sarhaet a ardyrcheuyr.** Seithuet y6 gwas ystauel ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bressuyl ay li**einwisc y gan y urenhines ay urethynwisc y gan y brenhin. ew a dyly** bot y lety yn ystauel y brenhin. ew a dyly kadu yr ystauel a gwneuthur **gwely y brenhin a gwneuthur negesseu y rug y neuad ar ystauel. ew** a dyly ran o aryant y guynnos. ew a dyly hen dillat gwely y brenhin. **ew a dyly buyta yn yr ystauel. ew a dyly gwallau ar y brenhin eithyr** y teir gu*yl* arbennic. y naud yu or pan el un y geissyau beych **gwellt a dan y brenhin ~~y~~ a gwneuthur y wely a thanu y dy**llat arnau yny thynno drannoeth duyn y dyn heb erlit heb ragot. ew **byeu kadu tryzor y brenhin y fioleu ay gyrn. ay uodruyeu a cherydu** ydau a gollo. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint o aryant. y werth **yu chwe bu6 a chwe ugein m6u. gan y ardyrchauael. //**

BL Add. 14931 t. 11

**Uythuet yu bard teulu ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bressuyl. ay lieyn**wisc y gan y 6renhines ay urethynwisc y gan y brenhin. ew a dyly eisted **yn nessaw yr penteulu yn y teir guyl urth rodi y delyn yn y lau. ew a dyly** dillat y distein yn y teir guyl. pan uynher canu kerd y bard cadeiryauc a **dechreu ar canu kyntaw o dw. ar eil or brenhin bieifo y llys. neu ony byd** ydau ew a ganher kanet o urenhin arall. gwedy y bard kadeyryauc y **bard teulu bieu canu tri chanu o gerd amgen. O deruyd yr urenhines my**nnu kerd aet y bard teulu y ganu ydi gerth. yn diuessur ~~an~~ a hynny yn **yssel. ual nat awlonido y neuad ganthau. ew a dyly bu6ch neu ych or an**reith a wnel y teulu y gorwlat gwedy yd el yr brenhin y trayan. 6ynteu **a dyly pan rannoent yr anreyth canu unbeinnyaeth prydyn. ew a dy**ly yr brenhin taulburd o uoruyl. a modr6y yr urenhines. y lety y gyt ar **penteulu. y naud yu hyt ar y penteulu. yny kerdho y gyt a beirth ereill** ew a dyly ran deu ur. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint o aryant. y werth **yu chwe bu6 a chwe ugein mu6. Nauuet yu y gosteguur ew** a dyly y dir yn ryd ay uarch bressuyl. ay lienwisc y gan y urenhines ay **urethynwisc y gan y brenhyn. ew a dyly ran gwr y gan y suydwyr.** ew a dyly pedeir ceinniauc o bop buuch a del yn diruy or a berthyno ar y llys **ew a dyly medu buyt a llyn a dan y distein. ew a dyly gwassanaythu a gos**tegu a tharau y post. uch pen yr effeiriat. ew a dyly seuyll y gwassanaeth **y brenhin yn y absen. ew a dyly tri ugeint y gan bop maer bisweil pan do**ter yn uaer. ew a dyly or pan dioter y maer yny doter arall gwarchad6 **y llys. ew a dyly synnhyau urth y doodreuyn. ac urth da y brenhin yn y llys** or pan el yr un a uo yndi yny del arall ydi. ew a dyly kynullau t6ng y bre**hin. y lety yu y gyt ar distein. y naud yu or ostec kyntaw hyt y diwethaw.** duyn y dyn a wnel y cam. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint o ariant **can y ardyrchauael. y werth yu chwe bu6 a chwe ugein mu6 gan y ar**dyrchauael unweith. Decuet yu y penkynyd ew a dyly y dir **yn ryd ay uarch bressuyl ay lieinwisc y gan y urenhines ay urethynwisc //**

BL Add. 14931 t. 12

**y gan y brenhin. y le yn y llys y am y keluy ar effeiryat teulu ac y gyd ac** ew y kynydyon. y lety yu yr odyn. y ancuyn yu tri chorneit llyn a seic. 6n **or corneidieu llyn y gan y brenhin ac arall y gan y urenhines ar trydyd y** gan y pen*teulu*. ew a dyly diruy y cynydyon ac amobyr y merchet. ew a **dyly pedeir ar ugein y gan bop un yd estynner suyd ydau. ew a dyly or nodolic** hyt uis chweuraur bot y gyt ar brenhin pan uynho. ac o h6ythnos o uys **chweuraur ew a dyly kymryd y g6n a gyrn ay ~~gylly~~ gynllyuaneu. a** mynet y hely ewiget. ay gorn oet yn wueylyn. ay werth yu punt **ac o hynny hyt h6yl yeuan hanner haw hely ewiget. ac yn hynny o** ysbeit ny dyly ew gwneuthur yaun y nep or haul a uo arnau onyd y **un oy gydsuydogyon. Rei a dyweit na dyly ew tyghu namyn yu gorn** ay gynllyuaneu.

ew a dyly croen ych y gayaw y wneuthur kynllyua**neu. a chroen bu6ch yr haw y wneuthur cuaraneu. trannoeth gwedy** guyl yeuan hanner haw y dyly mynet y hely keiru. ac ony chefir kyn **y gyuodi y ar y wely a gwisgau y guaraneu ny dyly gwneuthur yaun** y neb or haul a ouynher ydau. ac hynny o ysbeit hyt galan gayaw **y dyly bot deudec goluyth kywreithyaul yn yr hydod. ac urth hynny yd** heliir hyt galan gayaw. a nauuet dyd kalan gayaw y mae yaun ydau **mynet y hely moch coet ac o hynny y dyly uot yn eu hely hyt galan ~~uis~~** mys tachwed ac y kyhyt a hynny o amser ny dyly ew ateb y neb onyd **y un or kytsuydogyon. ac o hynny hyt galan mys tachwed yd heliir** moch coet. a chalan mys tachwed y dyly ew rannu y chruyn a thalu y **baup or kytsuydogyon or rei a dylyho ran ydau. ac yna ateb a gwedy** hynny rannu y chuyn yn deu parth a thrayan ar deu parth yr kyny**dyon ar trayan yr brenhyn. o deu parth y kynydyon duy ran y gy**nyd gellgy ac un y gynyd mylgi. ar penkenyd a d~~a~~yly duy ran y gan y **kynydyon gellgun a duy ran y gan gynydyon mylgun. ac o drayan y** brenhyn or cruyn ew a dyly trayan ac ew y*syd* drydydyn a dyly tray**anu ar brenhin ac wedy hynny y penkynyd a dyly dangos y kun ar //**

BL Add. 14931 t. 13

**kyrn ar kynllyuaneu yr brenhyn a gwedy as dangosso mynet y gymrit** kylch ar uil~~y~~einnyeit y brenhin. ac o hynny hyt y nodolic bynt ar eu cylch **ac erbyn y nodolic deuent ar y brenhin eu breint ac eu lle yn y llys. 6n werth** yu kun y penkynyd a chun y brenhin. Puy bynnac a uo peth y rygthau ar **brenhin nar penkynyd nac arall uo hunnu a dyly rannu ar brenhin dewys.** Naud y penkynyd yu duyn y dyn a wnel y cam hyt yny uo abreid clywed **llew y gorn. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint o aryant gan y ardyr**chauael unweith. y werth yu chwe bu6 a chwe ugein mu6 gan y ardyrcha**uael unweyth. Unuet ar dec yu medyd ew a dyly y dir yn ryd ay** uarch bressuyl ay lieinwisc y gan y urenhines ay urethynwisc y gan y bre**nhyn yn y teir guil arbennyc. ny dyly ew le deduaul yn y llys. yn y neuad** y lety y gyd ar distein. y naud yu or pan dechreuho gwneuthur ker6yn **ued yny ruymo y huyl am y phen duyn y dyn a wnel y cam. ew a dyly yr** huyl a uo ar y ger6yn neu bedeir ceinnyauc. a hynny yn dewis y nep bie**iffo y wled. ew a dyly trayan y k6yr neu bedeir ceinniauc yn y le y gan y**distein neu archenat a dalho pedeir ceinnyauc. k6yr y wled y ual hyn y **rennir y trayan yr medyd gesseuyn. ar deu parth yn dri thrayan y tray**an yr ystauel ar deu parth yr neuat. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe **ugeint ariant. gan y ardyrchauael unweith. y werth yu chwe bu6** a chwe ugein mu6 kan y ardyrchauael. Deudecuet y6 y **medyc ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bres*suyl* ay liein y gan y ure**nhines ay urethyn y gan y brenhin y le yn y neuad ymon y post a uo **y gyd ar kelui y bo y brenhin yn eisted yn y emyl. y lety y gyt ar penteu**lu. y naud yu or pan archo y brenhyn ydau uynet urth dyn archolledic **nac yn y llys y bo nac eithyr y llys yny del y urthau duyn y dyn a wnel** y cam. ew a dyly medeginyaeth rat yr a uo yn y llys. ac yr penteulu ey**thyr eu gwaet dillat onyt un or tri pherygyl. Sew yu y rei hynny dyr**naut y pen hyt yr ~~em~~emennyd a dyrnaut y corf hyt yr emyscar **a thorri un or pedwar post. am bop un or tri pherygyl hynny y dyly** //

BL Add. 14931 t. 14

**y medyc nau ugeint ay wuyt neu punt heb y wuyt. a heuyt y waet di**llat. y medyc a dyly yny doto goreth pedeir ar ugeint. medeginyaeth rud**eli deudec ceinnyauc 6yth ceinnyauc. gwerth padell medyc ceinnyauc. me**dyc a dyly cymryt tyllued y gan genedyl yr archolledic o byd maru or **uedeginiaeth a wnel ew. ac onys kymer ew. gurthebet tros y weithret.** ew a dyly nad el or lly yn wastat onyt kan gannyat y brenhyn. y sarhaet **yu chwe bu6 a chwe ugeint o ariant gan y ardyrchauael. y werth yu** chwe bu6 a chwe ugein mu6. Trydyd ar dec yu y trullyat ew **a dyly y dyr yn ryd ay liein y gan y urenhines ay urethyn y gan y bre**nhin ay uarch bresuyl. ew a dyly ran o ariant y guynnos. ew a dyly gwar**chadu y uedgel. a chanthau y fioleu. ew a dyly yr huyl a uo ar y geruyn** ued neu pedeir ceinniauc. a hynny yn dewys perchen y wled. ew a dyly **gwiraud o bop gwled y bo med arnei. ew a dyly trullyau y llyn a rodi y baub** cymeint ay gilyd. ew a dyly diwallu y uedgell ac a uo yndi. Messur gwi**raud gyureithyaul yu lloneit y llestri y gwallouyer yndunt o g6ryw** ac eu hanner o uragaut. ac eu trayan o ued. ew a dyly buyta y gyt ar **suydwyr. y lety yu y gyt ar distein. y naud yu or pan dechreuho llestyr** yn llyn yny darfo y gyuedach; y nos honno duyn y dyn a wnel y cam. **ew a dyly y oleuat yn diuessur y gan y distein. 6rth y wassanaeth. y** sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint o aryant kan y ardyrchauael. **y werth yu chwe bu6 a chwe ugein mu6 gan y ardyrchauael.** Pedweryd ar dec yu y dryssaur ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bressuyl **ay urethyn y**

**gan y brenhin ay liein y gan y urenhines. ew a dyly ran** o aryant y guynnos ew a dyly gwiraut gyureythyaul ew a dyly **arweyn pob neges or a dyweter urthau or porth hyd y neuad neu** hyt yn lle arall y bo y brenhin. ew a dyly dillat y bard teulu yn y teir **guyl arbennyc. ew a dyly y lety y gyt ar porthaur. ew a dyly buy**ta y gyt ar suydwyr. ew a dyly adnabot suydogyon y llys. ac nas ata**lyo urun onadunt yn y porth. ac os eteil talet kamluru yr brenhyn. //**

BL Add. 14931 t. 15
**ac os un uyd or pensuydogyon talhed ydau y 6ynebwerth. os un uyd or** lleill pedeir ceinnyauc. y naud y6 duyn y dyn a wnel y cam hyt ar por**thaur ac ynteu a dyly y gadu ew yny el y penteulu truy y porth ac ynteu** hyt yn dyogel. ew a dyly corneit llyn y gan y distein a seic a hynny yn y an**cuyn. ew a dyly ruydhau y ford yr brenhin ay uyrllysc a pha dyn bynnac** a trawho y ar y ford hyt y ureych ay uyrllysc cet gouynho yaun ydau ny **dyly y gafael. ew a dyly wedy buyta gyrru a uo yaun y yrru or neuad. ew** a dyly y gyt ar suydwyr ran o aryant y cruyn. ny dyly eisted yn y neuad **namyn ar dal y ~~neuad~~ deu lin y wneuthur negesseu urth y brenhin. y sar**haet yu chwe bu6 a chwe ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 a chwe ugein **mu6. Pymthecuet yu coc ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bre**suyl y gan y urenhines y liein y gan y brenhin y urethyn. ew a dyly cy**uanhedu y gegin ac a dyly cafael y reidyeu y gan y distein ar maer biswe**il ew a dyly cruyn y manscribyl oll or a del yr gegin a chruyn amdanadunt. **Sew mal y dyly y trayan ydau ew ar deu parth yr distein. ew a dyly dechreu** pob anrec or a ardymhero ew. ew a dyly y dihynnyon ar gwer. ew a dyly **dyuot ar anrec diwethaw ay gossot ran bron y brenhin. ac yna y dyly y** brenhin y anregu ew o wuyt a diaut. y naud yu or pan dechreuho kywey**ryau yr anrec kyntaw yny dyco y dywethaw rac bron y brenhin duyn y dyn** a wnel y cam. y distein a dyly y diwallu o holl lyssyeued y am pypyr a llys**syeuoed ereill. ew a dyly buyta gyt ar suydwyr. y lety y gyd ar distein** ew a dyly ran o aryant y guynnos. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe uge**int o aryant gan yb ardyrchauael. y werth yu chwe bu6 a 6i.xx. mu6.** Vnuet ar bymthec y canhyllyd ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bresuyl **ay liein y gan y urenhines ay urethyn y gan y brenhin. ew a dyly ran o a**ryant y guynnos. ew a dyly daly cannhuyll rac bronn y brenhin y am y **dysgyl ac ew tra uo yn buyta y briu6ara ar diuynyon a el tros y dysgyl;** ew ay dyly. ew a dyly dyrned o ganhuyl a uo yn y lau. ew a dyly enyn**nu y kann6ylleu yn y llys ac a dynho ay danhet o benneu y cann6ylleu //**

BL Add. 14931 t. 16
**yn y llys a dyly. ew a dyly a wedillyo or kann6ylleu pan el y brenhin yn** y ystauel. ew a dyly y gan y distein y treul yn diuessur o ganhuylleu. y naud **yu duyn y dyn a wnel y cam eb herlit heb ragor or pan enynher y ganhu**yll gyntaw yny difoder y diwethaw. pan el y brenhin yr ystauel ew a dy**ly mynet a chann6yll ganthau oy ulaen. ew a dyly buyta y gyt ar suyd**wyr. y lety yu y gyt ar distein. y sarahet yu chwe bu6 a chwe ugeint o **aryant kan y ardyrchauael. y werth yu. 6i. buu. a 6i. xx. m6u gan y ardyrchauael.** Uchot y traythuyt o ureint a dylyet yr un suydauc ar bymthec a ber**thyn ar y brenhin yma y dechreuny traythu or uyth a berthyn ar y urenynes.** Kyntaw yu onadunt y distein ew a dyly y dir yn ryd ay uarch a liein y gan **y urenhines ay urethynwisc y gan y brenhin ew a dyly medu buyt a llyn yr** ystauel ew a dyly gwasanaythu ar urenhines ar wyd a llyn ew a dyly **trayan dyruy suydwyr y urenhines. y lety yu gyt a distein y brenhin ny dy**ly eiste yn yr ystauel namyn gwassanaythu or ystauel hyt y gegin y naud **yu duyn y dyn a wnel cam hyt ~~y diogel~~ ar distein y brenhin ac ynteu hyt** y diogel. ew a dyly trayan y gan suydwyr y brenhin y rygthau ay gedym**deithyon a duy ran ydau ew. ew a dyly pedeir ceynniauc o aryant y guyn**nos y rygthau ar cogeu ar duy ran ydau ew. ew a dyly y holl reit y gan **distein y brenhin yn diuessur y sarhaet yu. 6i. buu. a 6i.xx. ariant. y** werth yu chwe buu a chwe ugein m6u gan y ardyrchauael. **Eyl yu y heffeiriat ew a dyly y dyr yn ryd. y uarch ay liein ay urethyn** y gan y urenhines ar brenhin ew a dyly trayan degum y urenhines ac a **berthyn ar hyt ystauel. ew a dyly pedeir ceynnyauc o bop hynseyl agoret** a rodho y urenhines ew a dyly offrum paub a berthyno atei hy. ew a dy**ly dillat y urenhines y hun y penythyo yndau erbyn y pasc. ew a dyly** bendigau a del o wuyt a llyn yr ystauel. y lety y gyt ac effeiryat y bre**nhin yn ty y clochyd. y naud yu hyt yr egluys nesaw. y sarhaet her**wyd braud sened. hy werth herwyd breint y genedyl. ac *yuelly* pob **gradwr. Trydyt yu y phengwastraut ew a dyly y dir yn ryd ay //**

BL Add. 14931 t. 17

**uarch ay lieyn y gan y urenhines. ay urethynwisc y gan y brenhin. ew a dy**ly pedeir ceinnyauc o bop march a rodho y urenhines. ynteu a dyly rody kebys**tyr gan bop un. y lety y gyd a phengwastraut y brenhin. y naud yu hyt ar** bengwastraut y brennyn. ereill a dyweit pany6 hyt tra barhao redec y **march kyntaw yr urenhynes d6yn y dyn a wnel y cam. ew a dyly tray**an yr ebolyon hyt yn duy wluyd or anreyth. ar deu parth y bengwastraut **y brenhin. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint o aryant. y werth yu. 6i.** bu6 a chwe ugein mu6. gan y ardyrchauael. Pedweryd yu y **gwas ystauel ew a dyly y dyr yn ryd ay uarch ay liein y gan y urenhines.** ay urethyn y gan y brenhin. ew a dyly ran o aryant y guynnos. ew a dyly **gwneuthur negesseu y rug yr ystauel ar neuad. ew a dyly gwassanaythu** ar y urenhines eythyr y teir guyl arbennic ar wuyt a llyn. ew a dyly kad6 **cloeu koffrys y urenhines a diwallu yr ystauel a gwneuthur y gwely. y le**ty yu ystauell y urenhines ay wely yn y geudy urth uot yn baraut y wneu**thur negesseu y urenhines. 6n naud yu ac un sarhaet ac un werth a gwas** ystauel y brenhyn. Pymhet yu y llau uoruyn hy a dyly y march **bress6yl a hen dillat y urenhines ay hen grysseu ay hen lenllyeynyeu ay** hen fruyneu ay hen esgidyeu. hy a dyly ran o aryant y guynnos. y naud **yu or pan danho y dyllat ar y gwely y nyu tynno drannoeth. y gwely yn yr** ystauel mal y clyuho y geir lleihaw a dyweto y urenhines. **Chwechet yu y dryssaur ew a dyly y dyr yn ryd ay uarch bresuyl ay ly**eyn y gan y urenhines ay urethyn y gan y brenhyn. ew a dyly duyn ~~o~~ **gwiraut pan uo med ny dyly ew eiste yn yr ystauel namyn gwassanaythu** oy seuyll. ew a dyly ran o aryant y guynnos. y lety y gyt a dryssaur y bre**nhin yn ty y porthaur. 6n naud yu a dryssau~~a~~r y brenhin. y sarhaet y6** chwe bu6 a chwe ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 a chwe ugein **mu6. Seithuet yu y choc ew a dyly y tyr yn ryd ay** uarch bresswyl ay lyeyn y gan y urenhines ay urethyn y gan y bre**nhin. ew a dyly y diwallu or distein oy gywreidyeu yn y gegin. ew a //**

BL Add. 14931 t. 18

**dyly dechreu pob ferym or a gyweyryo ew. y naud yu unaud a choc y bren**hyn. y lety yu y gyt a distein y brenhin. y sarhaet yu. 6i. bu6 a 6i.xx. o ary**ant y werth yu chwe bu6 a chwe ugein m6u. Vythuet yu** y chann6yllyd. ew a dyly y dir yn ryd ay uarch bressuyl ay lieyn y gan y ure**nhines ay urethyn y gan y brenhin. ew a dyly ran o aryant y guynnos.** ew a dyly dyrnued o bop kann6yll a dalyo yn y durn. ew a dyly pen y kan**nuylleu a dynno ay danhed. ew a dyly gwedill y kann6ylleu oll. ew a** dyly y bry6*uara* ar bry6*diuynyon* a el dros dysgyl y urenhines. 6n na**ud ac un llety ac un sarhaet ac un werth a kannuyllyd y brenhin.** Uchow ry traythassam ni or pedwar suydauc ar ugein a berthyn ar y **llys yman y traythun ny or suydogyon aruer o deuaut a uyd in llys. kyn**taw yu o rei hynny gwastraut awyn. yr eil yu troydyauc. y trydyt ma**er bisweil. pedweryd ryghill. pymhed porthaur. chweched guylwr.** Seithuet kynnutei. 6ythuet poburyes. Nauuet gow llys. decuet penkerd. **Kyntaw yu gwastrat awuyn ew a dyly y tyr yn ryd ay uarch ay dillat. ew** a dyly capaneu glan y brenhin y marchoco yndunt. ay hen fruyneu ay hen **hossaneu ay hen ysparduneu ay hen gywruyeu eurgalch ay holl ystarn.** ew a dyly bot ym pob lle yn y absen dros y pengwastraut. ew a dyly daly **gwarthauyl y brenhin pan esgynho a phan disgynho. a duyn y uarch y6** lety a thrannoeth y duyn idau ew a dyly cerdet yn gyuagos yr brenhin. **urth y wasanaythu pan uo reit. ew a dyly kywruyau march yr ynat llys ay** d6yn ydau urth eskynn6 arnau. ynteu bieu barnu y ureint ay dylyed yn rat. **y naud yu or pan dechreuho y gow llys wneuthur pedeir pedol ac eu to hoyl**lyon ac ydau ynteu eu dodi a dan uarch y brenhin duyn y dyn a wnel y kam. **y sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 a** chwe ugein mu6. Yr eil yu troydyauc ew a dyly y dir yn **ryd ay liein ay urethyn ay uarch bressuyl ar suyd honno a dau o ureint** tyr idau ew a dyly daly traet y brenhin yn y arfed or pan dechreuho eisted **y chyuedach yny el y gysgu ac a dyly cossi y brenhin ac ychyhyt a hynny //**

BL Add. 14931 t. 19

**o hysbeit ew a dyly guyllyau y brenhin rac pob gwall. y naud yu or pan do**to y brenhin y draet yn y arfet yny el yu ystauel duyn y dyn. ew a dyly wuy**ta ar un dysgyl ar brenhin. ay geuyn ar y tan. y sarhaet yu chwe bu6 a chw** ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 a chwe ugein mu6 kan y ardyrchauael. **Trydyt yu maer bisweil ew a dyly gwarchadu y llys gwedy yr ystywart** llys yn benhaw. ew a dyly cymryt a rodho y maer ar kyghellaur atau o da **y daly y llys. ew bieu peri yr ar a holl reidyeu y llys. ew a dyly diruy a chamlu**ru y uayrdrew. ew a dyly ebedyu gwyr y uaerdrew. ac amobyr eu merched. **yny bo dadleu rug deu wr or uaerdrew am dir ew a dyly pedeir ar ugeint.** neu am ymlad neu am ledrat. ew a dyly tyghu tros dyr y llys. ew a dyly tri **ugeint o bop karcharaur**

**or a el yn y eol. ew a dyly gwestuaeu ar wyr y** uayrdrew. y gwarthec a uo yn y warchadu ew teir nos kyn eu llad euo **bieu eu cruyn. ny dyly nep cruyn gwarthec y maer bisweil namyn ew** ehun nar brenhin a uo yn y llys nac ew ny uo. y naud yu duyn dyn tros **deruyn tir y llys. y lety yu y buyty. y <u>saraet</u> yu chwe bu6 a chwe ugeint** aryant. y werth yu chwe bu6 a chwe ugein mu6. gan y ardyrchauael. **Pedweryd yu y righill ew a dyly y tyr yn ryd a phan uo y brenhin yn y llys** ew a dyly buyt seic ew a dyly seuyll y rug y deu bost a guyalen yn y lau rac **llosgy y ty tra uo y brenhyn yn buyta. ac yuet y gyt ar suydwyr ac ny dy**ly eisted tra uo y brenhin yn y neuad ny dyly tarau y post y parch y bo y bre**nhin ew a dyly loneit y llestri y gwallouyer yndunt y curyw ac eu han**ner o uragaut ac eu trayan o ued. ac a dyly cosseeu ychen a gwarthec a ga**fer oy guhud ew kywu6ch ay ufarneu. a nauuetyd kalan gayaw peys** a chrys a llaudyr heb denllyw. kyhyd y dyly y dillat a chulym y laudyr **kalan gayaw y dyly. kalan gayaw y dyly kafael capan. a chalan maurth** neu chweuraur mantell. y righyl a ran y rug y brenhyn ar maer ar **cyghellaur. ew a dyly or marudy kyc bulch ar emenyn b6lch ar maen** ysaw yr ureuan ar llyn glas. ar wanaw ysaw or . yd ar yeir ar ka**theu ar wuyall ar dalar o byd yn y dayar ac ony byd talar yr eiryonynneu. //**

BL Add. 14931 t. 20

**O bop ty y del ar neges y brenhin torth ay henllyn teir kyuelyn yn hyt y** way6 d6y dray gevyn ac un ragdau. oe anreith a dycher eythyr y wlat **ew a dyly taru neu anиueil nyt el a dan wed neu gynflyth. pan uo ma**ru ryghyl y brenhyn ew a dyly cafael y da oll. O serheit y righill yn y **eiste tra wneler y dadleu ny dyly cafael namyn gogreit ceirch a phlis**gyn 6y. y sarhaet yu herwyd rei kymeint a sarhaet y neb bieypho y **y tyr y sarhaer arnau. y med ereill teir bu6 a thri ugeint aryant.** y werth teir bu6 a thri ugein m6u. Pymhet yu y portha**ur ew a dyly y dyr yn ryd ay dy o ueun y porth. ew a dyly y ymborth or** llys yn wastat a seic pan uo y brenhin. ew a dyly o bop anrec a el dr6y y **porth dyrnuet. ew a dyly o bop pun cymut a el truy y porth ysgyren a** dynho yn dilesteir yr march ay la6 ar y porth. ew a dyly pedeir ceinny**auc y gan bop carcharaur y kayer y porth arnau. ew a dyly tynnu cr6**yn yr anueilyeit a ladher yn y llys. ynteu a dyly ceinnyauc o bop un ona**dunt huy. ew a dyly or anreyth o uoch a del truy y porth huch a hallo** ew erbyn y gwrych y dyrchauael ay un lla6 yny uo kywu6ch y thra**et a thal y deu lyn. y llydyn c6ta a del yr porth ew byeuuyd. ew a dyly bot** yn ryghil ar y uaerdrew. ew a dyly pedeir keinnyauc o bop amobyr a **del ohoney. ew a dyly gwyssyau gwyr y uaerdrew yr gweyth. ew a** dyly o bop diruy a chamlur6 a dycher y arnadunt gobyr. ew a dyly neges**seu yn ryd yn y llys. ac a dyly kadit y caus a bopo. ew a dyly arluyau y llys** y am bery gwellda a pheri cynneu y tan. y naud yu kadu y dyn a wnel **y cam yny del y pen*teulu* yu lety dr6y y porth ar penteulu hyt y dyogel.** y sarhaet chwe bu6 a chwe ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 a **chwe ugein mu6. Chwechet yu y guyllwr ew a dyly** y dir yn ryd ay wuyt bresswyl ay archenat a thorth ay henllyn yn uorewuyt **ny dyly 6yllyav namyn or pan elher y gysgu hyt y dyd. ynteu a dyly kys**gu y dyd ac na wnel dym namyn yr y obyr rei a dyweit y dyly llygeit **yr anyueillieit a ladher yn y llys. ac a dyly y dillat y an capan a hossaneu. //**

BL Add. 14931 t. 21

**o keffyr ew yn cysgu yn yr amser y dyly uyllyau. ket maydher ny diwygyr y**dau. ac ony meidyr a gaffael yn kysgu talet kamluru yr brenhin. y naud y6 **or pan dechreuho ew kanu y gorn pan hel y 6yllyau yny agorer y porth dran**noeth. y sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 **a chwe ugein mu6. Seithuet yu y kynnutei. ew a dyly y dir** yn ryd ay wyt bressuyl ay seic pan uo y brenhin ay archenat ew a dyly a uo **reit urth gynnuta yn y llys ac o chyll ynteu dym o hynny ew a dyly y da**lu. ew a dyly cadu march y cynnut a chymryd ebran ydau beunoeth or **llys a marchogaeth arnau yn mynet yr coet. ac o chyll ew ar y war**chadu ew; ew a dyly y dalu. ny dyly ew manylu y kynnut or ansaud **y doto ar y march gwedy y del adrew. ew a dyly y gydueu yr yscrybyl a** ladher yn y llys. Sew achaus yu hynny urth y esgyrnygu ar y gynnut ay **wuyeyll ew. y naud yu hyt y gallo y wur6 ay wuyall neu ay 6dyw. y** sarhaet yu chwe bu6 a chwe ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 a **chwe ugein m6u. Vythuet yu y boburyes hy a dyly y buyt** or llys ay dillat ay seic pan uo y brenhyn ay theissen diwed poby o bop am**ryu ulaut a bopo. ay gwely yn y buyty. ny dyly kyuodi rac nep tra uo** yn pobi. y naud yu hyt y buryo ay chrauell. y sarhaet yu trayan sarhaet **y gur ony byd gwr hanner sarhaet y braut. y gwerth yu na hy a uo** gwedu na hy ny uo hanner gwerth y braut. Nauuet yu y gow **llys ew a dyly y dyr yn ryd ay wuyt bresuyl ay seic pan uo y brenhin ew** a dyly~~ly~~ gwneuthur reidyeu y llys yn rat eithyr tri pheth. sew yu y rei **hynny gwarchauyl**

**a chant callaur a chyll kulldyr. a thedyw buyall gy**nnud a phen gwayu o phob un or tri pheth hynny ew a dyly tal y lawr. **ew a dyly y s6ydogyon y llys gwneuthur eu reydyeu yn rad. 6ynteu a dy**lyant y anregu ew am bop llauur. ew bieu amobreu merchet y goueint **ereill. ew a dyly y keynnyon sew yu y keynnyon y wiraut gyntaw a del** yr neuad y le yu yn y llys yn tal y ueig yn emyl yr effeiryat teulu. y naud **yu or pan dechreuho y weyth y bore yny darfo y nos. y sarhaet yu. 6i. bu6. //**

BL Add. 14931 t. 22

**a chwe ugein aryant. y werth yu chwe bu6 a chwe ugein mu6.** Decuet yu y penkerd ew a dyly y dir yn ryd. ay le yu ar neillau yr ynat **llys. ew a dyly dechreu o du6. ar eyl or brenhin bieyfo y llys neu o arall.** ny dyly erchy namyn penkerd ac oy gyt ay gedymdeithyon duy ran y**dau ew. ew a dyly kafael y gan bop cerdaur gwedy yd ymadawho** ay disc pedeir ar ugein. ew a dyly pedeir ceinnyauc y gan bop gwreic **a gysco gwyr genthi gynt. ew a dyly amobyr merchet y cerdoryon** ereill. y gyt ar edlig y dyly gysgu y naud yu or pan dechreuho canu **yn y llys hyt pan dyruyno y canu diwethaw. y sarhaet yu chwe bu6** a chwe ugeint aryant. y werth yu chwe bu6 a. 6i. xx. mu6. **Unuet ar dec yr olchuryes. hi a dyly y buyt or llys ay seic pan uo y brenhin.** ay dillat. ac a dyly y dyd y golcho yr urenhines anrec y genthi. y naud **hyt y buryo ay golchbren. 6n sarhaet ac un werth yu ar boburyes.** Vchow ry trayssam ny or suydogyon a berthyn ar y llys ar rei cyureithy**aul ar rei aruer ac eu breint ac eu dylyet yman y traythun ny o be**theu ereill. Try anhepcor brenhin yn y efferyat urth uen**diga6 y wuyt a chanu eferen. ar ynat llys urth doosparth pob peth** pedrus. ay deulu urth y negesseu. Try anhepcor gurda y delyn ay **urycan ay gallaur. Try anhepcor tayauc y gauyn ay druydeu** ay bentan. Try pheth ny dyly brenhin y gywran. y s6llt ay hebauc **ay leydyr. Try ruyt brenhin. y ueirch ay uoch ay warthec o chyll** dyn anuieil ay gafael ym*plyth* anyueillyeit y brenhin ew a dyly pe**deir ceynnyauc o bop un onadunt. Try ruyt gurda y ueirch ay** warthec ay uoch. yny cafo dyn anuieil yn eu plyth huy talhet. iiii. ceinnyauc. **Teyr ruyt tayauc y uoch ay warthec ay ayawdy o galan mei hyt aust.** o cheyph anyueil ar gyueyl~~n~~yorn. yndau ew a dyly pedeir ceynnyauc. **Try pheth ny eill tayauc y werthu heb gannyat y argluyd. am6s a** mel a moch. ac os gwerth byt diruyauc. ual cynt. ac onys pryny ar**gluyd gwerthet ew y ford y mynho. Teir celuydyd ny dyly mab tay- //**

BL Add. 14931 t. 23

**auc heb gannyat y argluyd. a chet as dysco ew a dyly y d6yn dracheuyn.** onyt yscolheic wedy y chymero urdeu. Sew yu hynny yscolheictaut a **gouannaeth a bardoni. Vyth bynuarch brenhin. Mor difeith. achanauc** gwlat arall. lleydyr. Maru o anuab. Maru yny cafo ebedi6. a chamgylius **y cafer dir6y a chamlur6. p6y bynnac a dyweto geir anwar yr brenhyn ta**let camluru deudyblyc ydau. Pa le bynnac yd ymgafoynt yr effeiryat **ar distein ar ynat yna y byd breynt y llys. ny dyly y brenhin mynet ay** lu or wlat namyn unweith bop bluydyn. 6ynteu a dylyant uynet yn y **gyuoeth ew pan uynho. y brenhin a dyly o bop bileindrew dyn a march a** buyall y wneuthur lluesteu ac uynteu ar y gost ew. Nau tey a dyly **bileynyeit y brenhin y wneuthur ydau. neuad. ystauel. b6yty. ystabyl.** kynordy. ysgubaur. odyn. treuyn b~~y~~echan. cerner. Pob da heb perche**nnauc ydau difeith brenhin. Tri pheth ny dyly y brenhin y rann6 ac arall.** eur ac aryant a chyrn bual. a gwisc y bo urlys eur ydi. P6y bynnac a **wnel cam y uam*egluys* talet pedeir punt ar dec hyt hanner yr abat o** byd d6ywaul lythyrwr. ar llall y rug yr efeiryat ar clas. o gwneir cam **yn y uynwent seith punt yn deu hanner ual y lleill. Puy bynnac a wnel** cam y egluys arall talhet seith punt. y neill hanner yr effeiryat ar llall **yr person. Llyma y dechreu kyureithyeu y wlat kyntaw** yu nau tauodyauc. Sew yu y rei hynny argluyd y rug y deu was. efeiryat **y rug y de6 uynach. tat y rug y deu uab. o byd un or rey ry dywedassam ny** uchot ny mynno dody y pen y tri thauodyauc ar llall **yn y uynn6 kyureith a eirch y dodi. Pedweryd ynat ar y ura**ut. o deruyd y dyn or d6y bleit y bu y gyureith y rygthunt gwadu y: **uraut ar llall yn y hadew. geir yu geir yr ynat yna ar y ura**ut. Pymhet yu mach ar y uechniaeth o deruyd y adew ar neill yn dy**weduyt bot y uechniaeth ar beth maur ar llall ar beth bychan can ade**wuyt y mach credad6y yu pahar y roet. a chan a dyweit ew ny ellyr y **wadu. Chwechet yu rodyat ar y rod sew ual y mae o deruyd y dyn rody //**

BL Add. 14931 t. 24

**peth. a deu dyn yn dyweduyt ymy y roet nac ew heb y llall ymy. geir yu** y eir padi6 y rodes. Seithuet yu mor6yn ar y moruyndaut. O deruyd y **6r duyn moruyn lathlut a gwedy y del yr difeith a hi a chynn bot achaus** ydau a hy a gouyn ydau beth a rody di ymy am hyn a rody ohanau ew beth **ydy**

**hy a gwedy hynny bot yn edyuar ganthau ew oet as gwato ew os** adew hy geir yu y geir hi yna. 6ythuet yu bugeil trewgord. O der**uyd llad lludyn y dyn o ysgrybyl perchennogyon ereill am hynny geyr** yu geir y bugeil. pa eydyon ay lladaud. Nauued yu lleydyr urth y groc. **ar y gydladron. O deruyd ydau ew dyweduyt bot dyn yn gytleidyr ac** ew am y lledrat dyenydiir ay gadarnau o*hanau* yr agheu y athy6 ydau **ac y mae ynteu yn mynet geyr yu y eir ew yna.** Llyma y dechreu cyureythyeu y gwraged. O deruyd y wreic bot rodyeyt **ydy a dan y hagwedi y dyly bot hyt y pen y seith blynet ac ysgar onadunt** ranhent yn deu hanner bop peth a uo udunt. y wreyc byeu rannu y g6r **bieu dewyssau. y moch yr g6r ar deueit yr wreic. ony byd namyn y ne**ill onadunt rannu yn deu hanner ac os deueit a geyuyr a uyd y deueit yr **gur ar geyuyr yr ureyc ony byd namyn y neill eu rann6. Or meyby**on duy rann yr tat ac un yr uam. yr hynaw ar yeuaw yr tat ar perued **yr uam. y doodreuyn ual hyn y rennyr holl lestry y llaeth eithyr un** bayol yr wreic yd a. yr holl dysgleu eithyr un dysgyl yr wreic yd a. ar **deu hynny yr gur yd a. y wreic a dyly y carr a yeu y duyn y doodreuyn** or ty. y gur a dyly holl lestry y llyn. y g6r a dyly y rydyll **ar wreic y gogyr man. y gvr a dyly y maen uchaw yr** ureuan. ar wreyc yr yssaw. y dyllat a uo arnadunt y wreic bieu. yr **hun a uo a danadunt y gur byeu. yny wreicao a gwedy y** gwreicao ellug y dillat yr wreic. ac os gwreic arall a gusc ar y dillat ta**let y huynepwerth y gur bieu y gallaur ar brycan a gobennyd y draus**tyle ar kulldyr ar wuyall gynnud ar taradyr ar pergyg ar crymaneu **oll eithyr un cryman a hunn6 yr wreic. y wreic bieu y badell ar drybet //**

BL Add. 14931 t. 25

**ar wuyall lydan ar g6dyw ar s6ch ar llyn achlan. ar llynat ar gwlan.** ar trythg6t ac a uo yndau. eithyr eur neu aryant a hunn6 o byd y rann6. **Sew yu y trythgut y llaugur. O byd gweeu eu rannu. y pelleneu yr mey**byon o bydant. ac ony bydant eu rann6. y g6r a dyly yr ysgubaur ac a uo **uch dayar ac ys dayar o yt. y gur a dyly yr yeir oll ac un gath ar lleill yr wre**ic. y buyt ual hyn y renhir. y wreic bieu y cyc yn y hely ar caus yn y hely a **gwedy y ~~eo~~ croker y gur bieu. y wreic bieu y llestry emenyn bvlch ar caus** bvlch. y wreic byeu a allho y duyn o 6laut y rug nerth y duy lau. ay deu **lyn or gell hyt y ty pob un onadunt bieu y dillat eithyr eu mentyll ar men**tyll eu rannu. os y gur a uyd breinnyaul dangosset y ureint kynn y ran. **a gwedy y kafo ew y ureint ranher mel y dywedassam ny uchot. eu dy**lyedyon talhent yn deu hanner. os kyn y seythuet wluydyn yd ysgarant **talher ydy y hagwedi. ay hargyureu ay chowyll. os yn uor6yn y rodyr yr** hyn a uo ar y garn or petheu hynny a dyly. ac os kyn y seithuet wluydyn **yd edeu hy y g6r cubyl o hynny a gyll. ; eythyr y chowyll ay huynebwerth** am y gotuyn. os y gur ynteu a uyt clawur neu anadyldrewedic neu na **allho ymreyn os o achaus un or tri pheth hynny y heteu hy a dyly kafael** c6byl or eydy. os o uarv y gwahanant hy a dyly bop peth yn deu hanner. **eythyr yr yt. ny dyly gwreic yn y byt cafael dym or yt onyt gwreic** p6ys. ac os o uaru a by6 yd ysgarant rannet y claw ay beriglaur y gyt **ac ew a dewysset yr yach. ny dyly y claw cymynn6 dym namyn dayret** yr egluys ar argluyd ae dyledyon a chet as kymynho y mab a eill torri **y gymyn. a hunn6 a elwyr mab anwar. Puy bynnac a dorro kymyn** nyt amgen ay dayret ay dyledyon ysgymun 6yd. Os ouy6 y gwaha**nant tricet hy ar eydy yn y ty hyt y pen y nau nyeu a nau nos a g6ybot** ay kyureithyaul y gwahan ac os yaun y gwahan o ben y nauuet dyd; **aet y da hi or blaen ac ar ol y geynnyauc diwethaw aet ehun. Sarhaet** gwreic huryauc urth ureint y gur nyt amgen sarhaet y gur kyn noe ro**di y h6r urth ureint sarhaet y braut nyt amgen hanner sarhaet y braut. //**

BL Add. 14931 t. 26

**y galanas na hy a uo guryauc na hy ny uo hanner galanas y braut. O myn** g6r wreic arall gwedy yd ysgarho ar kyntaw ryd uyd y kyntaw. O der**uyd y ur ysgar a gwreic. a mynnu o honno 6r arall a bot yn ediuar gan** y gur kyntaw ry ysgarhei ay wreic a godiwes ohanau hy ar neill dro**et yn y gwely ar llall eithyr y gwely y gur kyntaw a dyly cafael y wre**ic. O deruyd y wreic vryauc gwneuthur cyulauan dybryt. ay rody cus**san y ur ay gadael y gouyssyau ay hymrein sarhaet yr gur yu hynny.** Os y hymreyn a deruyd y sarhaet honno a dyrcheuyr ar uod y hanner **yn wuy canys o genedyl elynyaeth yd henyu. Os y gouyssyau a deruyd** talher ydau y sarhaet honno heb y hardyrchauael. Os cussan ny thelyr **namyn deu parth y sarhaet canyt gweithret cubyl. Os gwadu a wna** y gur y gafael y rug y deu uorduyt rodet ll6 degwyr a deugeint ar **wreyc ll6 degwraged a deugeint. Os gwadu y gouyssyau a wna y gur** llu pedwar gwyr ar dec a ryd. ar wreic llu pedeir gwraged ar dec. a hyn**ny oc eu cereint. Os rodi cussan a wata rodet ll6 seithwyr ar wreic ll6** seithwraged. ar reyn hynny oc eu kywneseiuyeyt y am y mam ay that ay **brodyr ay chwioryd. Puy bynnac a dyco moruyn yn llathlut**

**a chyn bot** achaus a hi gouyn beth a roy dy ymy a mein ny holy ohanau ew y meint **a rohei a hynny ar y gred ken ceyssyo ew gwedy hynny y wadu os hi ay** gyrr arnau ew yn gyureithiaul yna y mae geir y geir hy. canys duc ew **hy hi yn y lle nad oed neithyaurwyr. O rodyr moruyn y ur ay chaphael** yn wreic ay diodew or gur yn y wely hyt trannoeth. ny eill ew duyn **dym oy dylyet hy. os ew a wna ew wedy . as kafo hy yn llygredic cy**uodi ar y neithyaurwyr ay galy yn y seuyll a thystu udunt huy y chafael **hy yn llygredic ac na cysgo ganthau hyt trannoeth ny dyly hy dym dranoeth** y ganthau ew. O deruyd dyuot bronneu a chedor arnei ay blodeua6 yna **y dyweit y gyureith na uyr nep beth yu hy ay moruyn ay gwreic o acha**us ry dyuot arnei aruyd mab. ac urth hynny y gat y gy6reith y diheu**rau hy. o lu seith nyn y am y mam ay that ay brodyr ay chwioryd. //**

BL Add. 14931 t. 27

**Os hytheu ny mynn y diheurau llader y chrys yn gywuuch ay gwerdyr** a roder dinawet bluyd yn y llau gwedy irav y losgurn ac o geill hy gyn**hal hunn6 kymered yr ran or argywreu ac ony heill bit heb dim. Puy**bynnac a rodho gwreic y 6r ew bieu talu y hamobyr neu ynteu a gy**merho meichyeu y genthi hy ar y dalu. ac os hytheu a ymryd talet y** hamobyr canys hy ehun a uu rodyat arnei. O dvc dyn gwreic yn llathlut **a dyuot a hy ydy uab uchelwr y gyscu nac na chymero y gur uab ~~ay~~ ar y** hamobyr talet ehun. O deruyd y dyn d6yn gwreic lathlut byt hyt y pen **y seith blyned ar dryeidyon kyhyt eu co~~r~~rn ar eu hygyuarn. a chan colles** yna y breynt byt ar y breint hunn6 hyt y pen y seith blyned. O byd ar**gywreu ydy byt hunn6 yn didreul hyt y pen y seith blyned. Os hytheu a** ganhatya y dreullyau ew ny dywygyr dym ydy o dreul deint ac ystlys y **pen y seith blyned o cheyph teir nos or 6ythuet rannu deu hanner a hy me**gys a gwreic a rodyeyt ydy. canys ny phara gwreic nac o lathlut nac o **rod ar ureint y hagwedi namyn hyt y pen y seith blyned. ac nat agwe**dyaul hytheu o benn y seith blyned allan. urth hynny rannent deu hanner. **Puy bynnac a gysco teir nos gan wreic or pan anhuder y tan hyt pan dat**anhuder drannoeth. a mynnu ohanau yscar talet ydy eydyon a dalho uge**int ac ar arall a dalho dec ar ugein. ac arall a dalho tri ugeint. ac os dvc ar** ty ac anlloed ay bot y gyt ac ew hyt y pen y seith blynet rannu a hy me**gys a gwreic a rodyeit ydy. teir agwedy gyureithyaul ysyd. agwedi merch** brenhin pedeir punt. ar ugeint. ac uyth punt y chowyll. agwedy merch **gurda teir punt a phunt y chowyll. agwedy merch mab eillt punt** ay chowyll pedwar ugeint. O deruyd y dyn beychyogy gwreic o l6**yn a pherth ew a dyly gossymdeithyau y mab canys y gyureith a dyweit** na dyly hy gafael collet o achaus y gur ceny chafo wuynnyant ac urth **hynny y dyly ynteu meithryn y mab. O deruyd y 6r yscar a gwreic** a hitheu yn ueichyauc pan ysgarher a hy gater ydy or pan ysgarer a hy **yny agho yg kyueir hanner bluydyn o ueithryn y mab a gwedy ganer //**

BL Add. 14931 t. 28

~~**a gwedy**~~ **y mab hitheu bieu y ueithrin ew hyt y penn y wuydyn mynno** na uynho yr da y gan y gur. Sew yu messur y da buuch laythauc a pheis **a dalho pedeir ceinnyauc a phadell a dalho ceinnyauc a charreit or yt goreu ar** trew y dat. a hynny hyt ym pen y wluydyn ydy yr y ueithryn. hytheu **wedy hynny hanner. blwydyn ac o hynny allan ny ellyr kymell arnei hy y ue**ithryn namyn y rann ehun. onys myn ac o hynny hyt ym pen y pedeir bly**ned ar dec y deu parth ar y tat or meithryn ar trayan ar y uam. ac ym pen** y pedeir blyned ar dec y mae yaun yr tat y duyn ar yr argluyd. ac ydau **ynteu gurhau. ac o hynny allan byt urth ossymdeith y argluyd. O** deruyd y wreic dywedut ar hvr duyn treis arnei a gwadu or gur. **roder llv degwyr a deugeint heb alldut heb ur not. O deruyd ydy** hytheu gyrru yn gywreythyaul cymeret y galy yn y llau ass6 ar llau de**heu ar y creir a thyghet hy yr ry ymreyn ar galy honno y dreis y arnei** hy. a ry wneuthur meuyl a sarhaet o*hanau* ydy hy ac yu chenedyl ac **yu hargluyd. Rey or yneit ny at gwat yn erbyn hynny. Niny eissyoes** a ad6n wad ual y dywedassam ny uchot. O deruyd y 6r d6yn treis ar **wreic ac adew o*hanau* talet deudec mu6 yn dyruy yr argluyd ay ha**mobyr yr argluyd ac os moruyn uyd y chowyll ay hagwedy yn y ueint **wuyhaw y dylyho. ay huynepwerth ay dilysruyd. ac os gwreic huryauc** uyd y sarhaet can y ardyrchauael ar uod y hanner. O deruyd y h6r duyn **mor6yn yn llathlud y hargluyd ay chenedyl a dyly y duyn y ganthau** ew ken boet druc ganthau. ac o bu gynt gan 6r ny ellyr y duyn y gan y **gvr ay duc yn llathlut onyt ehun ay myn. Try phyw reyt gwreic y cho**wyll ay gowyn ay sarhaet. Sew achaus y gelwyr yn dry phryw reyt **6rth y uot yn try phryaud gwreic ac na ellyr y duyn o nep achaus y gen**thi. Sew yu y cowyl yr hyn a gafo am y gweryndaut. Sew yu y sar**haet pob peth a wnel y g6r arnei namyn am try pheth saraet yu ydy.** Sew yu y try pheth hynny y maydu am rodi peth ny dylyo y rody ac **am y chafael gan 6r. ac am unau meuyl ar y uaryw. ac os am y cha- //**

BL Add. 14931 t. 29

**yn yr enyssed a gy*ffelypei* y bryt y uor6yn hon**no ae theg6ch. ac nyt oed yg keluydodeu **a g6ybot. a allei kyffelybu idi. Canys y that a** baryssei y dyscu y*uelly* 6rth nat oed etiued na**myn hi. mal y bei ha6s idi llywya6 y teyrnas** guedy ef. A guedy kymryt o constans helen **yn wreic ida6. Sef y ganet mab ida6 o*honei*.** sef y dodet ar y mab custennyn. Ac ym pen y deg **mlyned wedy hynny y bu uar6 constans. ac y** clad6yt yg caer Eura6c. Ac yd edewis y guste**nnyn y urenhinaeth. Ac ym pen ychydic o ys**peit bl6ynyded. ymdangos a wnaeth custennyn **bot ynda6 bonhed ma6r. a dylyet. ac ymrodi** y haelder a dayoni. A guneuthur ya6nder yn y **argl6ydiaeth ac ymdangos mal llew dywal y** rei dr6c. a megys oen guareda6c y rei da. **AC yn yr amser h6nn6 yd oed g6r creu**la6n engirya6l yn amhera6dyr yn Ru**uein. sef oed y en6 maxen. Ar bonhedigyon** a gywarsagei ac a dystrywei o gyffredin ar**gl6ydiaeth Ruuein. sef a wnaeth y bonhed**igyon ar dyledogyon hynny. guedy eu di //

LlGC 5266 t. 97
**hol or creula6n amhera6dyr h6nn6 6ynt o tref** eu tat. dyuot ar gustennyn hyt yn enys prydein. **ac ynteu ae haruolles yn llawen uonhedigeid.** Ac eissoes guedy dyuot lawer or rei hynny ar **gustennyn. y gyfroi a wnaethant yn erbyn y** creula6n wr h6nn6 gan g6yna6 6rtha6 yn **6ynych eu halltuded ac eu trueni. A chan annoc** ida6 goresgyn maxen a dihol. Canys o genedyl **Ruuein yd hanoed gustennyn. Ac nat oed ac eu** dylyhei 6ynteu yn gystal ac euo. Ac 6rth hyn**ny adol6yn ida6 dyuot y gyt ac 6ynt y oresgyn** tref eu tat. Ac y eturyt eu dylyet udunt. Ac **y waret gormes o Ruuein. A thr6y y ry6 ym**adrodyon hynny kyffroi a oruc custennyn. a **chynnulla6 llu ma6r. a mynet y gyt ac 6ynt hyt** yn Ruuein. A goresgyn yr amherodraeth yn eida6 **ehun. Ac odyna y cauas llywodraeth yr holl uyt.** Ac yna y duc custennyn y gyt ac ef tri ewyth**red helen. A sef oed y rei hynny. llywelyn. a**

**thra**hayarn. a Meuryc. Ar try wyr hynny. a osso**des ef yn 6rdas sened Ruuein. Ac yn yr am**ser h6nn6 y kyuodes Eudaf yarll ergyg //

LlGC 5266 t. 98

**ac yeuas yn erbyn y tywyssogyon ry ada6sei** gustennyn yn cad6 llywodraeth yr enys hon **a dana6. A guedy ymlad o eudaf ar guyr hyny** ac eu llad kymryt ehun coron y teyrnas. a **llywodraeth yr enys yn g6byl. A guedy myn**egi hynny y gustennyn. sef a wnaeth ynteu **anuon trahayarn ewythyr helen. a their lleg** o wyr arua6c y gyt ac ef y oresgyn yr enys **tracheuyn. A guedy dyuot trahayarn yr tir.** yr lle a elwir caer peris. y cauas y dinas h6nn6 **kyn pen y deu dyd. A phan gigleu eudaf hynny.** sef a wnaeth ynteu kynnulla6 holl ymladwyr **yr enys hon a dyuot yn y erbyn hyt yn em**yl caer wynt. yn y lle a elwit maes uryen. **Ac yna y bu 6r6ydyr y rygthunt ac y gor**uu eudaf ac y cauas y uudugolyaeth. ac yn yd **oedynt 6ri6edic a lladedic y wyr. y foes traha**yarn. ac yd aeth yn y longheu. Ac yna tr6y uor**a6l hynt. yd aeth yr alban. A dechreu anrei**tha6 y guladoed. ac eu llosgi a llad y bilein**llu. A phan doeth ar eudaf y chuedyl h6n**n6 sef a wnaeth ynteu yr eil weith ky //

LlGC 5266 t. 99

**nnulla6 llu a mynet yn y ol ef hyt yr alban.** Ac yn y wlat a elwir westimarlont rodi br6y**dyr y trahayarn. Ac eissoes kylya6 or 6r6ydyr** honno a wnaeth eudaf heb uudugolyaeth. sef **a wnaeth trahayarn yna erlit eudaf o le y le ar** hyt enys prydein. yny duc y arna6 y dianassoed **ar keyryd. ar kestyll ar guladoed a choron y te**yrnas. A guedy digyuoethi eudaf sef yd aeth hyt **yn llychlyn. Ac eissoes tra yd oed ef ar y dihol** h6nn6. sef a wnaeth ada6 gan y gedymdeith**yon ay gereint llauurya6 y geissya6 diua tra**hayarn. A sef a <u>wnaet</u> yarll y castell cadarn ca**nys m6y y carei ef eudaf no neb. 6al yd oed** trahayarn diwarna6t yn mynet o lundein sef **a wnaeth yr yarll h6nn6. a chan marcha6c y** gyt ac ef llechu y my6n glyn coeda6c. y ford **y doei trahayarn. Ac yn y lle honno ym*plith*** y gytuarchogyon y llas trahayarn. A phan **gigleu eudaf hynny. ymchuelut** a wnaeth tracheuyn hyt yn **enys prydein. A guasgaru y** Ruueinwyr o*hanei* a guis //

LlGC 5266 t. 100

**ga6 ehun <u>cororn</u> y teyrnas. Ac ar uyrder** ymgyuoethogi a wnaeth o eur ac aryant a **chyuoeth hyt nat oed ha6d caffael neb a uei** arna6 y ouyn nay <u>aryeneic</u>. Ac o hynny all**an. y kynheliis eudaf enys prydein hyt yr am**ser y buant gracian a uala6nt yn <u>anherodron</u> **yn Ruuein. AC yg kylch diwed y oes ymgyg**hor a wnaeth eudaf ae wyrda pa wed yd a**da6ei y gyuoeth guedy ef. Canyt oed etiued** namyn un 6erch. A rei a gyghorei ida6 rodi y **<u>uerhc</u> y un o dylyedogyon Ruuein. ar teyrn**as genthi mal y gellit kynnhal yr enys yn **gadarn. ac yn dagneuedus rac lla6. Ac ereill** a gyghorei ida6 rodi y uerch y urenhin o **wlat arall. a diga6n o eur ac aryant gen**thi. a rodi y kyuoeth oll guedy ynteu. y kynan **meyryada6c nei eudaf. Ac eissoes y kyghor**es karada6c yarll kerny6 yr brenhin gua**ha6d atta6 maxen wledic. A rodi y** h6nn6 y uerch ae gyuoeth **genthi wedy ef. canys o hyn**ny y tebygei caffael tragywyd**a6l hed6ch. canys mab oed y //**

LlGC 5266 t. 101

**maxen h6nn6 y lywelyn ewythyr helen luyda6c** megys y dywetp6yt tracheuyn y uynet or enys **hon y gyt a chustennyn uab helen. A mam 6axen** o dylyedogyon Ruuein yd hanoed. Ac yno y gany**doed ynteu. Ac ar uyrder ac oe uam ac oe dat** o urenhyna6l genedyl yd hanoed. A chynhyruu y **llys yn ua6r a wnaeth kynan meirada6c nei** y brenhin. o acha6s ry rodi or yarll y kyghor h6**nn6. yr brenhin. canys y uryt ef ae ued6l oed** 6rth urenhynaeth. Ac yn irlla6n yd edewis y **llys. Ac yna eissoes sef a wnaeth karada6c yarll** kerny6. anuon meuryc y uab hyt yn Ruuein. **y uynegi hynny y uaxen. sef <u>kury6</u> wr oed** ueuryc guas ma6r tec teledi6 clotua6r oe **de6red ae haelder. A pha beth bynnac a dywe**tei ar y taua6t. ef ae cadarnhaei oe weithret **ae arueu. a guedy dyuot meuryc rac bron** maxen kymeredic uu gantha6 ef ym mlaen **pa6b yn anryded. ac yn yr amser h6nn6. teruysc** a ryuel ma6r a oed y r6ng maxen ar deu am**hera6dyr ereill oed yno. sef oed y rei hynny.** Gracian. a 6ala6nt. y urodyr ef. Canys y rei **hynny yr daroed udunt g6rthlad maxen o //**

LlGC 5266 t. 102

**tryderan yr amherodraeth. a hynny a oed 6rth**r6m gantha6 ynteu. A guedy guelet o ueur**yc uaxen yn gywarssaghedic y gan yr am**herodron. sef a wnaeth meuryc dywed6yt **6rtha6 yr ymadra6d h6n.**

**Maxen heb ef** pa acha6s y dyodefy di dy dremygu ual hyn **a ford ititheu y ymwaret. Debre enys pryd**ein. a chymer coron y teyrnas ae brenhinaeth. Ca**nys eudaf urenhyn ysyd hen a chlauus. ac nyt** oes dim a damuno namyn caffael dyleda6c o **ruuein 6rth rodi y un uerch yda6 ae uren**hinaeth genthi. canyt oes ida6 etiued namyn **hi. ac 6rth hynny y cauas yn y gyghor ef ae** wyrda rodi yti y uerch ae teyrnas genthi. **Ac or acha6s h6nn6 ym anuonet ynheu hyt** yma. ac o mynny ditheu dyuot y gyt a my**uy yno pob peth o hynny a uyd para6t yt. A** guedy keffych hynny o amylder eur ac ary**ant. a marchogyon enys prydein ae chynnif**wyr y gelly goresgyn yr amherodron ac ody**na yr holl uyt. Canys o enys prydein y cauas** custennyn dy gar di amherodraeth Ruuein //

LlGC 5266 t. 103
**ac odyna yr holl uyt. A llawer y gyt ac ynteu o** enys prydein a gynydassant Ruuein. **AC 6rth yr ymadrodyon hynny y kychuynn6s** maxen y gyt a meuryc uab carada6c hyt yn **enys prydein ac ar y ford eissoes yn mynet y** darystyg6s caereu freinc ae dinassoed. Ac y gor**esgynn6s 6ynt. A chynnulla6 swllt llawer a wn**aeth 6rth y rodi y uarchogyon y amlhau y teu**lu. A guedy goresgyn o*hona6* freinc. ac amyl**hau y lu kychwyn a wnaeth ar y mor ~~ar y~~ **~~mor~~ ar g6ynt yn hyr6yd yn y ol. A dyuot nor**hamt6n yr tir. A phan gennatta6t hynny yr **brenhin. dyruawr ouyn a aeth arna6 o tebygu** y mae gelynyon oedynt. a uynnynt goresgyn **y kyuoeth. A gal6 atta6 a wnaeth kynan me**irada6c y nei ac erchi ida6 kynnulla6 holl **ymladwyr y teyrnas. a mynet yn eu herbyn.** Ac yn yd oed gynnulledic llu dirua6r y ueint. **kychuyn a wnaeth kynan meirada6c parth a** norhamt6n. yn yd oed pebylleu maxen ae lu. **A guedy guelet o uaxen llu kymeint a h6n**n6 yn dyuot yn eu herbyn. ouynhau a wnaeth //

LlGC 5266 t. 104
**o pob un o d6y ford. o ueint y llu ac o wybot** gle6der y brytannyeit. Ac nat oed gantha6 yn**teu un gobeith o tagneued. A gal6 y hynafgwyr** a wnaeth atta6 a meuryc uab carada6c y erchi kyg**hor am hynny. Ac yna y dywa6t meuryc argl6yd** heb ef. nyt oes le yny y ymlad ar guyr racc6. ac **nyt yr mynnu ymlad y doetham yman. nac yr** kyfroi y guyr racc6 yn dybryt yn an herbyn heb **acha6s. namyn tagneued ysyd ya6n y erchi udunt** a llety yny wypom ued6l y brenhin amdanan. ae **ewyllis. A dywed6n yn bot a chennad6ri gennhym** y gan amherodron Ruuein. ar eudaf urenhin en**ys prydein. Ac y*uelly* tr6y ymadrodyon clayar ke**yss6n tagnheuedu ac 6ynt. A guedy bot yn ryng**ad6y bod y pa6b o*nadunt* y kyghor h6nn6. sef a** wnaeth meuryc kymryt deudegwyr o wyr ll6y**don adwyn. a doethon. a cheing or oliwyd yn y lla6** deheu y pob un onadunt. a dyuot hyt rac bron **kynan. A guedy guelet or brytannyeit y guyr ad6yn an**rydedus hynny yn arwein oliwyd yn eu deheu**oed yn ar6yd tagneued a hed6ch. sef a wnaeth**ant kyuodi yn anrydedus yn eu herbyn. Ac //

LlGC 5266 t. 105
**y gyt ac y doethant rac bron kynan y hannerchas**sant o pleit amherodron Ruuein ae sened. A myn**egi ida6 a wnaethant ry anuon maxen a chenn**ad6ri gantha6 y gan amherodron ruuein ar eu**daf urenhin enys prydein. Ac yna y gouynn6s** kynan meirada6c pa acha6s yr dothoed llu kym**eint a h6nn6 gantha6 ynteu. a dywed6t a wnaeth** nat oed tebic hynny y gerdedyat kennadeu na**myn y elynyon a uynnhynt anreitha6 g6ladoed.** Ac yna y dywa6t y kennadeu nat oed tec na **guedus. kerdet g6r kyuurd a h6nn6 yn anogo**nedus heb <u>luosgr6yd</u> o gedymdeithyon anryded**us y gyt ac ef. Canys uelly y mae teil6ng y gyt** a phob un o amherodron Ruuein. rac cael peri**gyl a chewilid y gan eu gelynyon. kerdet llawer** o toruoed a bydinoed y eu kad6 y ford y kerdont **tagneued a geissant. tagnheued a dyborthant. Ac ar**6yd y6 hynny. yr pan doethant yr tir yr enys hon. **ny wnaethant na grym na sarhaet na threis y** neb namyn yr eu heur ac eu haryant prynu eu **kyureidyeu megys kenedyl dybortha6dyr hed6ch.** heb ge*issa6* dym y gan neb. nac y dreis nac **yn rat. Ac ual yd oed kynan meirada6c yn pedru //**

LlGC 5266 t. 106
**ssa6 beth a wnelhei ae ymlad ac 6ynt ae hedychu** dynessau a wnaeth atta6 carada6c yarll kerny6. **ar guyrda ereill y gyt ac ef. A chyghori hedychu** ac 6ynt. A chet bei dr6c gan kynan rodi hed6ch **udunt a wnaethp6t. A d6yn maxen y gyt ac 6ynt** hyt yn llundein. ar eudaf urenhin y brytannyeit. **a datcanu ida6 mal yr daroed. Ac yna kymryt a** wnaeth karada6c yarll kerny6 g6yrda y gyt ac ef. **a guedy eu dyuot rac bron y brenhin dywedut a** wnaeth ual hyn. Argl6yd heb ef llyma yr hyn yd **oed y guyr**

**ath garei ti yn y damuna6 eryoet. a** du6 yn llunyeithu hynny hedi6 ac yn y anuon hyt **yman. o acha6s dy uot titheu yn cad6 fydlonder** 6rth du6. sef yw hynny. tidi a uuost yn ymgyg**hor ath wyrda. pa beth a wnelut y helen dy uerch.** ath gyuoeth. can yt oedut ti yn ymdreigla6 yn hen**eint ual nat oed ha6d yt tuhunan llywya6 y te**yrnas. a uei h6y no hynny. Ac yna y bu rei a gyg**horei yt rodi coron y teyrnas ae llywodraeth y ky**nan meiryada6c dy nei. a rodi dy uerch y dyle**da6c o wlat arall. canys ouyn oed ganthunt** dyuot darystghedigaeth y teyrnas o delhei ure //

LlGC 5266 t. 107

**nhyn agkyuyeith arnadunt. ereill a gyghores yt** rodi dy uerch y un o dyledogyon y teyrnas ual y bei **urenhin wedy ti. Ac eissoes y ran wuyhaf oth wyr**da ath gyghores. y gyeissa6 un amherodron Ruuein **y rodut dy uerch ath gyuoeth ida6 guedy ti. canys** *yuelly* y tebygynt cael hed6ch os ruueina6l am**herodraeth ac eu hamdiffynnei. A llyma hediw ar**gl6yd wedy ry anuon o duw y guas yeuanc h6n **yman yt ti. yr h6n a heny6 o ruueina6l amher**rodron a brenhinolyon urytannyeit. Ac y h6nn6 **om kyghor i y rody ti dy uerch ath gyuoeth gue**dy ti. Ac y gyt a hynny edrych bot yn gystal y dy**lyet ar teu ditheu ar enys prydein canys car a**gos yw y custennyn. a nei y coel yn brenhin **ninheu. Ac y uerch y g6r h6nn6 nyt oed dy**lyet guarauun y urenhynaeth. Ac uuydhau a **wnaeth eudaf yr kyghor h6nn6. Ac o gyffredin** kyghor enys prydein. y rodet helen uerch eudaf. **ar teyrnas genthi y uaxen uab llywelyn. A** guedy guelet hynny o kynan meirada6c. blyg**hau a oruc ynteu a llidya6. a mynet odyno** hyt yr alban. a chynnulla6 atta6 llu dirua6r //

LlGC 5266 t. 108

**atta6 y geissya6 ryuelu ar uaxen. Ac ar llu h6nn6** gantha6 dyuot tr6y h6mur a dechreu anreitha6 **y guladoed hynny o bob parth. A guedy mynegy hy**nny y uaxen. kynnulla6 a wnaeth ynteu y llu m6y**haf a all6s. A mynet yn y erbyn a rodi cat ar uaes** y kynan meirada6c ae erru ar fo. Ac eissoes ny phe**yd6s kynan namyn ymgynnulla6 y lu eilweith** ac anreitha6 y g6ladoed ual kynt. A gueitheu gan **uudugolyaeth. gueithyeu ereill hebdi yd ymchue**lei uaxen y 6rtha6. Ac or diwed eissoes guedy gu**neuthur o bob un o*nadunt* colledeu ma6r y6** gilid kymodi a wnaethant tr6y eu kedymdeithyon **a dyuot yn un garyat. Ac ym pen yspeit pym mly**ned syberwhau a wnaeth maxen o amylder eur **ac aryant. a swllt a marchogyon. A chynifwyr** Ac yn y lle paratoi llyges a oruc. A chynnulla6 **atta6 holl ymladwyr enys prydein. ac a all6s** y gaffael o leoed ereill. A guedy bot pob peth **yn para6t. ch. kychwyn a wnaeth parth a llyda6** y wlat a elwir yr a6rhon bryttaen uechan. **A guedy y dyuot idi dechreu ymlad ar bob..** oed yndi o freinc. ac yn y dyd h6nn6 y llas //

LlGC 5266 t. 109

**hymlath eu tywyssa6c. a phymtheg mil o wyr arua6c** y gyt ac ef. A guedy guelet o uaxen ueint yr aerua **yr wnathoydit o*nadunt*. A g6ybot o*hona6* bot yn** ha6d guedy hynny eu daryst6ng yn g6byl. gal6 **kynan meirada6c a wnaeth atta6. Ac a dan chuer**thin dywedut 6rtha6 ual hyn. ar neilltu o*dieith***yr y bydinoed. kynan heb ef llyma un or gulado**ed goreu yn freinc guedy y ry daryst6ng ynn. go**beith ynn weithyon gaffael y lleill. Ac 6rth hynny** bryssywn y kymrit y kestyll ar caeroed. ar dinassoed. **kyn mynet y chuedyl yn honneit dros y guladoed.** ac ymgynnulla6 pa6b y gyt yn an herbyn. canys **o chaff6n y teyrnas hon. nyt oes pedrus gennyf** caffael holl freinc yn einim. Ac 6rth hynny na uit **ediuar gennyt kanhyadu imi dy dylyet ar enys** prydein. ket bei gobeith yt y chaffael. canys pa **beth bynnac ry gollych ti eno. minheu ae hen**illaf yty yma. Ac yn gyntaf mi ath wnaf yn ure**nhin ar wlat hon. Ac ae llanwun oc an kenedyl nu**hunein. guedy darfo ynn b6r6 estra6n genedyl o**honei yn ll6yr. ac odyna hon a uyd eil bryttaen. A** hyt y guelir ymi g6lat fr6ythla6n y6 honn o ydeu //

LlGC 5266 t. 110

**amrauael. ac auonoed kyula6n o pysga6t. a choedyd** tec a forestyd adas y eu hely. A herwyd y guelir y **mi nyt oes wlat garueidach no hon. Ac ada6 a** wnaeth kynan yna kad6 tragywyda6l fydlonder **yda6 ynteu gan uuydhau ida6 a diol6ch yr hynn** ry ad6sei. Ac yna eilweith kyweirya6 a wnaethant eu llu yn **uydinoed. a mynet hyt yn rod6m. Ac yn diannot** goresgyn y dinas. canys guedy clybot or freinc **creulonder guyr Ruuein ar bryttanyeit. sef a** wnaethan ada6 y guraged ar meibon. A fo yr **kestyll ar keyryd cadarn. ereill yr coedyd ar ker**ryc ac yr mynyded ar lleoed diffeith. y geissya6 **amdiffyn eu heneit. Ac nyt arbedei wyr Ruuein** hagen ar bryttannyeit. nac y ua6r nac y

uych**an. nac y hen nac y yeuanc. or a geffynt nam**yn yr guraged e*hunein*. A guedy daruot udunt **goresgyn yr holl wlat. a distry6 y pobloed. ac eu** dileu yn ll6yr. cadarnhau y kestyll. ar caeroed **ar tyroed a wnaethant o uarchogyon enys pry**dein. A guneuthur ereill o newyd. yny oed gy**meint eu houyn ar ba6b or a gly6hei eu creu**londer tros teyrnas freinc. ac yd oedynt pa6b //

LlGC 5266 t. 111
**ar fo. rei yr kestyll ac yr dinassoed cadarn. ereill y** wladoed y byt y geissya6 nodet am eu heneideu. **Ac yna anuon g6ys a wnaeth maxen hyt yn enys** prydein. 6rth gynnulla6 canmil or pobyl issaf **eu breint. or meibyon eillyon ar tirdyllodron. ar** llauurwyr. ac y gyt a hynny. deg mil ar ugeint **o uarchogyon yn argl6ydi arnadunt 6ynteu. Ac y** eu hamdiffyn rac gormessoed a rac eu gelynyon. **A guedy dyuot hynny o niuer hyt ar uaxen. ef** ae rann6s tros 6yneb llyda6. Ac a dangosses y ba6b **y rann ae achub ar neilltu. Ac yna y gunaeth** maxen llyda6 yn eil bryttaen. Ac y rodes y kyn**an meirada6c hi. A guedy daruot lluneithu** y wlat honno y*uelly*. y kychuynn6s ynteu a **rann arall or llu parth ac eithauoed freinc.** Ac y darystyng6s 6rth y argl6ydiaet o g6byl. **tr6y ur6ydreu ac ymladeu. Ac y gyt a hynny.** holl germania a dan y theruyneu a oresgynn6s. **A guedy bot pob lle o hynny yn darystyngedic ida6.** y gossodes eistedua y teyrnas yn y dinas a elwit **treueris. Ac odyna y dechreuis ryuelu ar y deu** uroder. Gracian a 6ala6nt. oedyn amherodron //

LlGC 5266 t. 112
**yn Ruuein. A guedy llad y neill y diholes y llall o** Ruuei ymdeith. AC yn yr amser h6nn6 yd oed **wyr freinc a guasguyn a pheita6 yn ryuelu ar** kynan meirada6c. ac ar y bryttannyeit ereill. **oed yn llyda6. tr6y uynych ymladeu. Ac ynteu yn** 6ra6l. ac yn 6ychyr. yn ymdifrit. ac yn ymgyn**hal racdunt h6y. gan talu aerua dros y gilid.** Ac yna guedy hedychu y rygthunt. medylya6 **a wnaeth kynan keissya6 dywedi yw gyt*uar*** chogyon o wraged dylyeda6c 6rth hilya6 pla**nt. a gynhalyei y wlat ar kyuoeth yn trag**ywyda6l. Ac ual na bei neb kyuathrach y ryg**thunt ar freinc na chymysc yn y genedyl.** namyn eu bot yn ya6n 6ryttannyeit. sef a **wnaeth kynan anuon ar duna6t urenhin** kerny6 y erchi y uerch yn wreic ida6 ef. **canys honno yd oed yn y charu yn wuyhaf** gureic. herwyd y bonhed. ae dylyet. ae phryt. **ae gosged. ae theg6ch. ae diweirdeb. Ac y am** hynny erchi ida6 a wnaeth kynan tr6y ly**thyreu kynnulla6 a 6ei wedw o uerchet** diledogyon enys prydein 6rth eu rodi yw dy //

LlGC 5266 t. 113
**lyedogyon ynteu. Ac achuanec y hynny. erchi id**a6 a wnaeth kynnulla6 m6yhaf a allei. o wra**ged guedw ereill. a uei is eu breint. no rei** hynny. 6rth eu rodi yn llyda6 y gyury6 ac **a dyleynt. Sef oed y duna6t h6nn6 bra6t** y carada6c y g6r a dywedadoed uchot. ac yr **dothoed yn lle y ura6t yn urenhin. A phen**haduraf oed heuyt yn enys prydein. canys **ida6 y gorchymynassei 6axen. tywyssogyaeth** a llywodraeth y teyrnas yr pan athoed o*ho***nei hyt tra uei ynteu dieythyr yn guneuthur** y gyureideu. A Guedy dyuot ar duna6t y gen**nad6ri honno. uuydhau a wnaeth 6rthi. Ac anuon** guys yn diannot. a oruc tros 6yneb enys prydein. **y gynnulla6 y guraged hynny mal yd archadoed.** Sef eiryf a gynnull6t o uerchet dylyedogyon. **un uil ar dec. Ac o wraged oed is eu breint. y am** uerchet y tirdiwyllodron ar bileinnieyt deu ug**ein mil. Ac erbyn dyuot y gynnulleitua honno** hyt yn llundein y kynnull6t a gaffat o longeu **yg kylch traetheu enys prydein. 6rth anuon y** gynnulleitua honno megys yd erchessit hyt //

LlGC 5266 t. 114
**yn llyda6. A chet bei llawer ym*plith* hynny o wra**ged. a chuenychei uynet y*uelly*. y eu rodi y wyr **y wlat arall. eissoes yd oed lawer. A oed well ganth**unt eu mar6 yn eu gulat e*hun*. no mynet **y wlat arall. gan ada6 eu ryeni ac eu kenedyl.** ar wlat y ganadoed yndi. Ac ereill o*nadunt* a **dewissei cad6 eu diweirdeb. ac eu guerynd**a6t. yg wassanaeth duw gan diodef acha**noctit. ym mlaen mynet wlat arall. y ar**uer o digrif6ch a drythyll6ch. ac edyllder **kna6t. Ac yna pan oed y llyghes yn para6t.** Ar g6ynt yn hyr6yd. dodi a wnaethp6t y gy**nnulleitua honno o wraged yndunt. a dech**reu h6ylla6 ar hyt temys. Ac ual yd oedynt **wedy ry dyuot hyt yn agos y traeth llyda6** nachaf g6ynt kythra6l g6rth6yneb udunt **Ac yn enhyt uechan. eu guasgaru. ac eu bodi** y rann wuyhaf o*nadunt*. Ac ereill o*nadunt* **a 6yry6t y enyssed ag*kyfyeith*. ym*plith* estro**nyon genedloed. Ac yno y merthyr6t ac y **llas. rei o*nadunt*. ereill o*nadunt*. a eteliit** yg keithiwet. ereill yg carchar. Ac ereill o //

LlGC 5266 t. 115

**nadunt a gyuaruu a dirua6r lyghes. A anuon**assei Gracian amhera6dyr. hyt yn Germania. **y ryuelu ar yr aruordir yn erbyn y neb a** wedassei y 6axen. Ac ar ae conhorthwyei. A sef **g6yr oed tywyssogyon a*rnadunt*. G6inwas.** a Melwas. A G6inwas oed urenhin ar y w**lat a elwit huna6t. A Melwas oed urenhin** peita6. A guedy ymgyuaruot or morynyon **ar ysgymunedic pobyl honno. yn y mord6y** h6nn6. guedy guelet o*nadunt* eu teccet. **keissya6 a wnaethant ymrewydu 6rthunt.** y eilenwi eu godineb. A guedy na mynn6s **y morynyon kytsynhya6 ac 6ynt yn yr ewy**llis honno. sef a wnaeth ~~sef a wnaeth~~ y brat**wyr hynny eu llad y rann wuyhaf o*nadunt*.** Ac yn diannot odyna pan glywsant bot enys **prydein yn anreithedic oe marchogyon ac** yn wedw oe hymladwyr. sef a wnaethant **bryssya6 eu hynt parth ac ynys prydein. A** chymryt y gyt ac 6ynt y borth wuyhaf a **allassant y chaffael or enyssed yn y chylch.** a dyuot yr alban yr tir. A dechreu anreith //

LlGC 5266 t. 116
**ya6 y guladoed. oed heb lywa6dyr nac amdyffynn**6r arnadunt. A llad y bileinllu ar tirdywyllodron. **Ac yna eissoes guedy mynegi y 6axen y trueni** h6nn6. yd anuones ynteu Gracian rodgymryt **a dwy leng o wyr arua6c y gyt ac ef y am**diffyn y brytannyeit. A guedy dyuot Gracian **hyt yn enys prydeim. a dechreu ymlad ar gelyn**yon. guneuthur dirua6r aerua a oruc o*nadunt*. **Ac eu kymell ar fo hyt yn ywerdon. Ac yn yr am**ser h6nn6 y llas maxen yn ruuein. ac y guas**gar6t a oed y gyt ac ef or brytannyeit. Ac y** foassant hyt yn llyda6 ar ~~kyt y~~ kynan meirada6c. **A phan gigleu Gracian rodgymryt ry lad maxen** yn ruuein. kymryt a wnaeth ynteu brenhin**aeth enys prydein. a guisga6 coron y teyrnas** am y ben ehun. A guedy y uot yn urenhin **kymeint uu y creulonder. ae syberwyt yny** uu reit yr brytannyeit. or diwed kyuodi yn y **erbyn ae lad. A phan gigleu y racdywededigy**on elynyon uchot. a foassynt ywerdon ry lad **Gracian. kynnulla6 a wnaethant 6ynteu y g6**ydyl. ar yscoteit. a guyr denmarc. ar llychlyn //

LlGC 5266 t. 117
**wyr y gyt ac 6ynt. a dyuot hyt yn enys prydein.** ae hanreithya6 o tan a hayarn or mor b6y gilid. **Ac 6rth hynny anuon llythyreu a wnaeth y bry**tannyeit hyt yn ruuein. a dagreua6l g6ynuan**eu yndunt. gan ada6 tragywyda6l darystyng**edigaeth. ac uuydta6t. a theyrnget udunt. yr ell**6ng canhorth6y atadunt. ac eu rydhau y gan eu** gelynyon. Ac yna yd anuonet lleng o wyr arf**a6c atadunt. A guedy eu dyuot hyt yn enys** prydein. Ac ymlad ar gelynyon. eu dihol a wna**ethant o holl teruyneu enys prydein. ac eu g6r**thlad. a rydhau y gywarsaghedic bobyl. or tru**an geithiwet ormessa6l honno. Ac yr g6rthlad** gormessoed a gelynyon yd archassei seuerus am**hera6dyr gynt. guneuthur mur y r6ng** deiuyr ar alban or mor b6y gylyd. canys yr **alban y gnotaei dyuot yn gyntaf pob gormes** or a delhei enys prydein. Ac yna eilweith y **ca6ssant 6ynteu yn eu kyffredin gyghor. g6yr** ruuein. a rei enys prydein. adnewydhau y **mur h6nn6. a g6plau or mor b6y gylid.** A Guedy daruot k6plau y gueith h6nn6 y //

LlGC 5266 t. 118
**h6nn6 y menegis guyr ruuein. yr brytannyeit.** hyt na ellynt h6y kymryt perigyl a llauur. **ac aneiryf treul ar wyr ac arueu a meirch.** ac eur ac aryant. ar uor ac ar tir. yn keissy**a6 amdifin pobyl mor lesc ac wynteu. y** gan cr6ydredigyon ladron. a gormessoed. a bot **sened ruuein yn blina6 o treulya6 eu da. ac** eu swllt mor wastat a hynny yn kerdet mor **a thir. ac yn diodef agheua6l perigleu trost**unt. a bot yn well ganthunt dilyssu eu teyrn**get no hynny. Ac y gyt ~~a hyt~~ a hynny. bot yn** ya6nach udunt ehunein kymryt dysc ac aruer **ar ymlad. mal y gellynt amdyffin eu g6lat. ac** eu guraged ac eu plant. ac eu goludoed ac eu **rydit a thros eu buched ehunein na dodi eu** goglyt ac eu hymdiret yn wastat yg wyr ru**uein. A guedy daruot mynegi yr ymadrodyon** hynny yr brytannyeit erchi a wnaethant ky**nnulla6 holl yeuegtit enys prydein. ae holl** ymladwyr. ac eu d6yn hyt yn llundein yn **eu herbyn 6ynteu. canys yt oedyn 6ynteu** yn mynnu ymchuelut y ruuein tracheuyn //

LlGC 5266 t. 119
**A guedy eu dyuot yn ll6yr hyt yn llundein. y gor**chynn6t y kuhelyn archesgob llundein pregethu **udunt. A mynegi yr ymadrodyon yd oed wyr** ruuein yn y ada6 ganthunt. Ac uegys hyn y **dechreuis yr archesgob y ymadra6d.** ARgl6ydi heb ef. ket archer ymi pregethu y **chui. ys m6y ym kymhellir y wylya6. nogyt** y dywedut pregeth. ac ymadra6d uchel. rac tru**anhet gennhyf yr ymdiwedi ar wander. a dam**weiny6s y chui. guedy yspeila6 o 6axen enys **prydein oe marchogyon ae**

**hymladwyr. Ac a di**enghis o*hona6ch* chuitheu pobyl y6ch aghyfr6y**s heb 6ybot dim 6rth ymlad namyn yn achu**bedic. o amrauaelyon negesseu. A chyfnewituaeu. **a diwyllodraeth y dayar yn wuy noc yn dysc ym**ladeu. Ac 6rth hynny pan doeth a6ch gelynyon **am a6ch pen. ywch kymellassant y ada6 a6ch** keibeu. a megys deueit kyueilornus heb uu**geil arnunt a6ch guasgaru. cany mynassa6ch** kymysgu a6ch d6yla6. ac arueu nac ar dysc ym**lad. Ac 6rth hynny. pa hyt y keiss6ch chui. bot** ruueina6l argl6ydiaeth yn un gobeith ywch //

LlGC 5266 t. 120
**ac yd ymdired6ch yn estra6n genedyl ny bei** de6rach. na chadarnach no chui pei nar atte**wch y lesged goruot arna6ch. ednebyd6ch hef**yt bot guyr ruein yn blina6 ragoch. ac yn **ediuar ganthunt y gniuer hynt a gymer**assant tros uor a thir gan emlad ac eu gely**nyon drossoch yn wastat. ac y weithyon y ma**ent yn dewissa6 madeu eu teyrnget ywch **ym mlaen dyodef kyfry6 lauur a h6nn6 dro**ssoch bellach. pei byde6ch chui yn yr amser **y bu y marchogyon yn enys prydein. beth a** tebyge6ch chui. ae yr hynny y tebyg6ch chui **fo dyna6l anyan y 6rthy6ch. A geni dynyon** yg g6rth6yneb anyan megys bei genit or **bilein marcha6c. ac or marcha6c bilein. Ac** yr hynny eissyoes disgynnu dyn y gan y gilyd. **ny thebygaf i colli onadunt eu dyna6l any**an yr hynny. Ac 6rth hynny canys dynyon y**wch gune6ch megys y dyly dynyon. gelwuch** ar grist. hyt pan uo euo a rodo ywch gle6der **a rydit. A guedy teruyny ar hynny or arches**gob y ymadra6d ae parabyl. ar y wed hon. ky //

LlGC 5266 t. 121
**meint uu y kynnuryf yn bobyl ar niuer.** megys y tebyg6t yn deisyuyt. eu bot wedy **eu kyflenwi o gle6der. Ac yn ol y parabyl** h6nn6 y rodes y ruueineit cadarnyon dysg**ediaetheu ar ymladeu yr ergrynedic pobyl** honno. Ac ada6 agreifft udunt y wneuthur **arueu. Ac erchi udunt adeilat kestyll a thy**roed ar glan y mor. yn y porthloedeu y bei **disgynuaeu y llongeu. 6rth gad6 eu g6lat o**nadunt rac eu gelynyon. Ac eissoes ha6s yw **guneuthur heba6c or barcut. nogyt gune**uthur bilein yn dysgedic ar uyrrder. A **ph6y bynnac a rodo dysc o anodun doethin**eb ida6. kynhebic y6 yr neb a wasgarei ge**meu ma6rweirtha6c. a dan draet moch. Ac** yna kychuyn a oruc guyr ruuein y emdeith. **megys ar odeu na delynt trach cheuyn yr e**nys hon. Ac ar hynn yn y lle nachaf y racdyw**ededigyon elynhon uchot. Guinwas. a Melwas** yn dineu or llongeu. yr tir. a llawer o nif**eroed ganthunt. or g6ydyl. ar yscoteit. ar** fychteit Ar llychlynwyr. A gur denmarc. A //

LlGC 5266 t. 122
**phob kenedyl or a ellessynt y gaffael y gyt** ac 6ynt. A goresgyn yr alban yn diannot o **uy6n y mur. A guedy g6ybot o*nadunt* ry uy**net guyr ruuein y emdeith heb obeith ymchu**elut tracheuyn. ehofnach noc y gnoteynt yd** ymrannassant y dystry6 y mur. Ac yna y gosso**det y6 amdiffyn ynteu y bileinieit diaruot. Ag**kyur6ys ar ymlad. para6t ar fo. bei lleuessynt. **Ac ny orffo6yssei y gelynyon o wur6 agheuolyon** ergydyeu yn eu plith. Ac o wur6 bacheu g6rthuyny**a6c 6rth linynneu. Ac y*uelly* tynnu y trueinn**yon uileinllu hyt y lla6r or kestyll ac or caero**ed. Ac yna tr6y amry6 poeneu. y gorffennit eu** hagheu. A diga6n o didan ac o da oed gan y neb **a gaffei y ry6 agheu h6nn6 arna6. rac y ryw** amrauael poeneu a welynt y wneuthur ar eu **kereint. ac ar eu kedymdeithyon yn eu gwyd.** O wi a duw. ma6r a beth y6 guelet dwywa6l **dial ar y bobyl am eu hen pechodeu. Canys pei** bydynt yna y sa6l uarchogyon a dugassei 6axen **gantha6 tr6y y ynuydr6yd ae syberwyt. ny deu**ei pobyl y enys prydein a allei oruot arnadunt. //

LlGC 5266 t. 123
**Ac aml6c 6ot yn wir hynny. hyt tra uuant;** 6ynt6y a oresgynnynt y g6ladoed ar brenhin**aetheu o 6ng ac o bell y 6rthunt. Ac a gynhely**ynt enys prydein heuyt yn araf ac yn hed6ch. **Ac y*uelly* hagen y damweinha pan ada6her** y urenhynyaeth yr bilein creula6n. A pha beth **weithyon a dywedaf ui. namyn yna yd ede**wit y dinassoed ar keyryd yn wac. ac yn diffe**ith guedy daruot yr gelynyon llad y kyw**da6twyr. Ac 6rth hynny. y cauas guedillyon **y pobyl truan honno yn eu kyghor. anuon** llythyreu hyt yn ruuein ar Agitius ~~y g6r~~ **y g6r oed amhera6dyr yn y mod h6n.** Kwynuuan ac ucheneidyeu y brytannyeit yn em**dangos y Agytius amhera6dyr ruuein. ac yn** mynegi ida6 bot y mor yn eu kymell yr tir. ar torr **eu gelynyon y eu llad. A bot eu gelynyon yn eu ky**mhell yr mor y eu bodi. Ac y*uelly* mynegi nat oed **udunt namyn un o deu peth. ac eu bodi or mor.** ae eu llad ar y tir. Ac ymchuelut a wnaeth y ken**nadeu tracheuyn y trist. heb eu guaranda6. A** mynegi hynny y eu kywda6dwyr. //

LlGC 5266 t. 124
**Ac yna y ca6ssant oc eu kyffredin gyghor ell6ng** kuhelyn archesgob lundein hyt yn llyda6 y geissy**a6 porth a nerth y gan eu kereint. Ac yn yr am**ser h6nn6. yd oed aldwr yn urenhin yn llyda6. **yn pedweryd guedy kynan meirada6c. A gue**dy dyuot kuhelyn hyt yn llyda6. ae welet or bre**nhin ef yn wr d6ywa6l credyuus ad6yn megys** yd oed. y erbynneit a wnaeth ida6 yn anrydedus. **Ac amouyn ac ef acha6s ac ystyr y neges ae dy**uotedigaeth ac yna y dywa6t kuhelyn 6rtha6 **Argl6yd heb ef diga6n y6 damllywychedicet ytti** a thi a allut kyffroi ar dagreu ac 6yla6 o glybot **y trueni yd ym ni y brytannyeit yn y diodef yr** pan anreith6s maxen enys prydein oe marchogy**on ae hymladwyr yn ll6yr ac y gossodes yn y wlat** hon. yr hon yd wyt titheu yn y llywa6 ac yn **y medu. A guyn y uyt a weles pei guledychut tithe**u hyhy byth tr6y hed6ch. A guedy y hyspeilya6 **y*6elly* oe marchogyon y kyuodassant yn an her**byn ninheu y guedillyon truein a edewit yno **yr enyssed oc an kylch ar enys oed gyula6n o** eur ac aryant a goludoed ereill y hanreitha6 //

LlGC 5266 t. 125
**yn gyn ll6yrhet ac nat edewit dim yndi or** y gallo neb ymosymdeitha6 yndi. eithyr y neb **a allo ymborth tr6y hely. canyt oed gedernyt** ymladwyr a allei 6rth6ynebu udunt. Ac y gyt **a hynny neur dery6 y wyr Ruuein blina6 y we**ithyon mal na chaff6n y ganthunt 6ynteu we**ithyon neb amdiffin. Ac 6rth hynny yd ym ni**nheu yn guedia6 dy drugared ditheu. hyt pan **rodych ~~u~~ ditheu nerth a chanhorth6y ac amdi**ffyn o*hona6t* tuhun y teyrnas. yd wyt dylyed**a6c arnei. cany dyly neb y coronhau yn well no** thi o coron gustennyn. a maxen wledic. canys y **guyr hynny ysyt ryeni yt. Ac 6rth hynny par**ota dy lynghes a debre y gymryt teyrnas enys **prydein. A minheu ae rodaf hi y r6ng dy d6yla6** ti. Ac ar hynny yd ateba6d aldwr yr archesgob. **A 6rda heb ef. ef a uu ~~a uu~~ amser na 6rthod6n** i teyrnas enys prydein o bei ae rodei ym. canys **mi a tebygaf nat oed un teyrnas fr6ythlonach** na guell no hi tra gaffet yn hed6ch. Ac yr a6rhon **eissoes canys kyuaruu dryc tyghetueneu a hi.** cas y6 gennyf ui a chan pob tywyssa6c. A thros //

LlGC 5266 t. 126
**pob peth or a gyuery6 a hi. dryc argl6ydiaeth** guyr ruuein yn 6uyhaf a argywed6s idi. **hyt na eill neb tywyssa6c kynnal y theil**yngda6t heb arwein ruueina6l geithiwet **arna6. gan talu teyrnget udunt ohonei. Ac** 6rth hynny 6rda heb ef p6y ny bei well **gantha6 gyuoeth bychan y lle arall yn ryd heb** geithiwet. noc un ma6r yn y lle y bei y dyly**et gan tragywyda6l geithiwet. Ac 6rth hyn**ny y mae dewissach gennyf ynheu y kyuoeth **bychan a welyt di yma gan rydit no teyrn**as enys prydein a dan geithiwet. Ac eissyoes heb **ef canys yr enys a dywedy ti a uu eidu uy** ryeni inheu. minheu a rodaf yn ganhorth6y **yti custennyn uy mra6t. a d6y uil o uarch**ogyon y gyt ac ef. y edrych a uynno du6 **ida6 gallu rydhau yr enys honno. y gan or**mes estra6n genedyl. ag*kyfyeith*. A chym**eret h6nn6 coron y teyrnas a bit urenhin** yno o myn du6 y ganhyadu ida6. A rac by**g6th ryuel ysyd arnaf inheu y gan freinc** nyt ada6af ynheu yt ti yr a6rhon o uarch //

LlGC 5266 t. 127
**ogyon m6y no hynny. Abreid uu o daruu yr** brenhin teruynu y ymadra6d. pan rodes kuhel**yn archesgob llundein llawer o diolycheu ida6.** am hynny. Ac yn y lle gal6 custenyn. A dywedut **6rtha6 ual hyn. crist heb ef a oruyd. crist a wled**ycha ac a orchyuycca. llyman urenhin enys pry**dein. diffeith crist ae canhorth6yho. llyman an** amdyffyn. ac an gobeith. ac an llewenyd. Pa beth **wedy hynny. yn y lle guedy bot yn para6t y llog**eu ar y traeth. ethol y marchogyon ac eu riua6. ac **eu rodi y kuhelyn archesgob llundein.** Ac yn diannot guedy bot pob peth yn bara6t. **kychwyn ar y mor a wnaetant. A dyuot y porth** totneis yr tir. ac yn diannot kynnulla6 y llu m6**yhaf a allassant y gaffael yn enys prydein. a chy**rchu eu gelynyon. A guedy ymlad ac 6ynt. **try6 euyrllit y guyuydedic 6r h6nn6 cael y** uudugolyaeth. A guedy mynet hynny yn honny**eit tros y teyrnas ymgynnulla6 a wnaeth yr** holl 6rytannyeit. hyt yn circestyr. a guisga6 **coron y teyrnas am ben custennyn uendigeit.** ae 6rda6 yn urenhin ar enys prydein. a rodi //

LlGC 5266 t. 128
**gureic ida6 a hanoed o dylyedogyon ruuein** ac a uagyssyt yn llys kuhelyn archescob llunde**in. Ac or wreic honno y bu tri meib ida6. sef oed y** rei hynny. Constans. Ac emreis wledic. Ac 6thyr **pen**

**dragaon. Ac yna y rodes ef constans y mab** hynaf ida6. ym mynachloc amphibalus yg ca**er wynt ar uaeth. ac y6 wneuthur yn uyn**ach. ar deu uab ereill. emreis wledic ac 6thyr **pen dragon. A rodet ar uaeth ar kuhelyn arch**escob llundein. Ac ym pen y deudeg mlyned wedy **hynny. y doeth un or fychteit yr uuassei wr** ida6 gyn no hynny. A gal6 y brenhin atta6 me**gys y gyfr6ch yn lle ysgyualaf. A guedy gyrru** pa6b y 6rthunt y lad a chyllell. **AC yna guedy llad custennyn uendigeit. y kyuo**des anundeb y r6ng guyrda y teyrnas am **wneuthur brenhin. canys rei a uynnynt gu**neuthur emreis wledic yn urenhin. ereill **a uynnei 6thur pen dragon. ereill a uynnynt** wneuthur un oc eu kenedyl. Ac or diwed gue**dy na duunynt ar hynny. sef a wnaeth gorth**eyrn gortheneu. yarll oed h6nn6 ar went ac //

LlGC 5266 t. 129
**ergyng a yeuas. 6rth geissya6 y urenhinaeth** ida6 ehun or diwed. mynet hyt yg kaer wy**nt. yn y lle yd oed constans yn uynach. y mab** hynhaf y gustennyn uendigeit. oed h6nn6 a **dywedut 6rtha6 ual hyn. Constans heb ef. dy** tat ti y*syd* uar6. ath urodyr y*syd* ry yeueinc **6rth wneuthur brenhin** **o*nadunt*. Ac ny we**laf innheu oth lin ditheu a allo bot yn uren**hin. Ac 6rth hynny o bydy ditheu 6rth gyg**hor ac achuanegu kyuoeth a medyant y minheu. ar y **urenhinaeth. minheu a ymcheulaf 6yneb** y bobyl. ar kyuoeth parth ac attat titheu. Ac **a baraf dy dynnu or abit h6nn6. ket boet g6**rth6yneb gan yr urdas ath wneuthur yn **urenhin. A phan gigleu constans yr ymadra**6d h6nn6. llawenhau yn ua6r a wnaeth ac **ada6 tr6y aruoll rodi ida6 pob peth or a uynhei.** ac na wnelhei dim or urenhinaeth namyn **6rth y gyghor. Ae gymryt a wnaeth gortheyrn** gortheneu a tennu yn diannot or uynechtit. **ae wisga6 o urenhina6l dillat. A dyuot ac ef hyt** yn llundein. Ac yna o ureid cahel canhyat y //

LlGC 5266 t. 130
**pobyl oe dyrchauael yn urrenhin. Ac yn yr** amser h6nn6 mar6 uuassei kuhelyn arches**cob llundein. ac 6rth hynny ny chaffat un** escob a gymerei arna6 y gyssegru ynteu **6rth ry tynnu or creuyd. Ac eissyoes yr hyn**ny nyt ebryuyg6s gortheyrn y gueithret **h6nn6. namyn myne~~nt~~ ehun yn lle escob. a chy**mryt coron y teyrnas ae dodi am ben con**stans. ac y*uelly* y urda6 yn urenhin.** A Guedy dyrchauaael constans yn urenhin. y ro**des ynteu holl ly6odraeth y teyrnas yn lla6** gortheyrn. Ac ehun heuyt a ymrodes ym pob **pet 6rth y gyghor. canys amgen dysc a dysc**assei ef yn y cla6styr no llywya6 brenhina**eth. A guedy caffael o gortheyrn medyant** kymeint a h6nn6 yn y la6. medylya6 a oruc **pa ansa6d y gallei caffael ehun y urenhina**eth. canys hynny yd oed yn y damuna6 ac yn **ystrywa6 oe holl dihewyt. damwein truan** heuyt ry daroed yr uar6 hynaf guyr **y teyrnas ae chyghorwyr yn llwyr. megys** nat oed un gur mor arbennic a gortheyrn //

LlGC 5266 t. 131
**a megys meibyon oed pa6b o wyrda y teyrnas** oll y 6rtha6 ynteu. Ac euo a gaffei anryded pa6b **o*nadunt* hwy. canys ef a uedei y kyghor. A** guedy guelet o ortheyrn y uot yn caffael pob **peth 6rth y ewyllys. medylya6 a wnaeth oe** holl ethrylith pa wed y gallei diot constans **uynach or urenhinaeth. Ae chymryt ida6 ehun.** Ac yna y kymyrth y swllt ar tryzor ar kestyll **ar caeroed ar dinassoed cadarn. yn y uedyant** ehun. gan uenegi yr brenhin bot dygyuor **lluyd am eu pen or enyssed. A guedy caffael** o*hona6* gan y brenhin pob peth o hynny **6rth yb uynnu. Gossot na wnaeth ynteu y ann**wyleit ehun ae diwydyon y warchad6 y lleo**ed hynny. Ac odyna medylya6 a wnaeth pa wed** yd ystrywei urat y brenhin. A dywedut 6rth **constans ual hynn. Argl6yd heb ef. reit oed iti** achuanegu dy deulu mal y bo dibryderach yt. **Ac y bych ehofnach rac dy elynyon. Ac yna y** dywa6t constans 6rtha6 ynteu. ponyt yth la6 **di heb ef. y rodeis i holl uedyant a llywodraeth** y teyrnas. Ac 6rth hynny. guna ditheu pob //

LlGC 5266 t. 132
**peth or a uynnych gan gad6 fydlonder i minheu.** Ac yna y dywa6t gortheyrn. ef yr dywetp6t **imi bot y fychteit yn mynnu d6yn guyr** llychlyn a denmarc yn un ac 6ynt 6rth ry**uelu arnam ninheu. Ac 6rth hynny y kyghor**af ui yty guaha6d rei o*nadunt* 6ynteu **yn wyr yt. ac yth lys yn wastat mal y bont** gymeruedwyr y rot ac eu kenedyl. ac y gall**ont chuedleuha. A g6ybot med6l eu kenedyl** ar t6yll ar brat ~~yth erbyn~~ a ystrywer yth erbyn **odyno. A pony wel6ch chui urat gortheyrn.** canyt o acha6s kynnal yechyt y brenhin yd **ystrywei ef yr ymadrodyon hynny namyn** g6ybot bot y guyr hynny yn ysgafnach eu **hann6yt noc ereill. a bot yn ha6t ganthunt** wneuthur kyulauan. a bot yn ha6d ida6

yn**teu eu kyffroi hwy yn erbyn y brenhin. oe** lad. a g6ybot guedy darffei hynny. y caffei **ynteu ehunan y urenhinaeth. A guaha6d A** wnaeth gortheyrn can marcha6c or fychteit **o ysgothlont yn wyr yr brenhin. Ac eu hanry**dedu a wnaeth udunt. o amraualyon rodyon //

LlGC 5266 t. 133

**eur ac aryant. a dillat. a meirch A thlysseu ma6r**weirtha6c. yny yt oedynt 6ynteu or dywed yn y **gymryt ef yn lle brenhin. Ac yn uuydhau yn** y wassanaeth. Ac yna y kenynt kywydeu ida6 ar hyt **yr heolyd. Gortheyrn ysyd teil6ng o amherodra**eth. Ac o teyrnwialen enys prydein. A chonsta**ns y*syd* anteil6ng. Ac ynteu wuy wuy yn eu** harydedu hwy. Ac yn y diwed guedy g6ybot **o ortheyrn. ry gaffael eu caryat. ac eu rybuch**et yn llwyr. guedy eu medwi nosweith. y dyw**a6t 6rthunt y uot ef yn ada6 enys prydein. y** geissya6 kyuoeth a uei wuy ac amlach yn lle **arall. cany allei ef herwyd y dywedei kynnal** dec marcha6c a deu ugeint yn diwall or bych**ydic kyuoeth oed ida6. A guedy dywedut 6rthunt** kymeint a hynny. mynet parth ae lety. yn **trist. ac eu hada6 6ynteu yn y neuad yn yuet.** A guedy guelet or fychteit hynny tristau a **wnaethant 6ynteu yn wuy noc yd oed ha6d** y gredu. o tebygu pany6 o pruder yr dywed**assei ortheyrn 6rthunt. A dywedut a wnaeth**ant y rygthunt ehun. pa acha6s na lad6n ni //

LlGC 5266 t. 134

**y mynach h6n megys y caffo gortheyrn wedy** hynny cadeir y teyrnas. p6y a dylyei urenhin**aeth yn well noc ef. canys teil6ng y6 o pob an**ryded. Ac argl6ydiaeth. y g6r ny orffowys oc **yn anrydedu ninheu yn wastat.** AC yn diannot kyuodi a wnaethant. A d6yn eu **ruthyr am ben ystauell y brenhin ae lad a chy**mryt y ben ae d6yn hyt rac bron gortheyrn. **A phan weles ynteu hynny. megys tristau o** dieithyr. ac 6yla6. Ac eissyoes ny buassei la6enach **ynteu eiryoet. o uy6n noc oed yna. Ac eissyoes** gal6 a wnaeth atta6 ky6da6t*wyr* llundein. **canys yno y gunathoedit y gyflauan honno. ac** erchi udunt daly oll y bratwyr hynny. ac odyna **eu dienydu 6rth yr wneuthur onadunt kyfla**uan gymeint a llad y brenhin. A rei o wyr y te**yrnas a dywedei pany6 gortheyrn yr wnatho**ed y brat h6nn6. ac nas gunaei y fychteit oc **eu dechymyc ehunein ereill ae diheurei. Ac** eissoes sef a wnaeth tatmaetheu y meibyon **ereill. emreis. ac 6thyr pen dragon. fo ac 6ynt** hyt yn llyda6 rac ouyn gortheyrn rac na //

LlGC 5266 t. 135

**bei oc eu etiued A dalyei y teyrnas o diuetheit y rein hy**ny. Ac yn yr amser h6nn6 yd oed emyr llyda6 **yn urenhin ar lyda6. Ar g6r h6nn6 a aruolles** y meibyon hynny yn llawen. Ac a beris eu meith**ryn mal y dylyit meithryn teyrned** AC yna pan weles gortheyrn nat oed a allei ymgy**uerbynneit ac ef. sef a wnaeth ynteu kymryt** coron y teyrnas. ae guisga6 am y ben ehun. A gore**sgyn y tywysogyon ereill. Ac eissyoes guedy clybot** y 6rad6ryaeth honno ym pob lle yn honnyeit. sef **a wnaeth guyr yr enyssed ym*duuna6* y gyt 6rth** ryuelu ar ortheyrn. Canys y fychteit yr dyuynassei **or alban attadunt. y dial eu kytuarchogyon yr** parassei Gortheyrn eu llad. Am ry lad onadunt 6y**nteu constans uab urenhin custennyn uendigeit. Ac yna** dirua6r oual a phryder oed ar ortheyrn. or neill **parth o acha6s y uot yn colli y wyr. tr6y beunyd**ya6l ymladeu a br6ydreu. Ac or parth arall rac o**uyn emreis wledic ac uthyr pendragon. Canys** y rybud trae gilid a doei atta6. y uenegi eu bot yn **dyuot a llyghes dirua6r y meint ganthunt y or //**

LlGC 5266 t. 136

**esgyn ac y dial agheu eu bra6t arna6.** Eman y doeth y saesson yn gyntaf yr enys hon AC yn yr amser h6nn6 nachaf teir llong hir **yn disgynnu yn s6yd geint. yr tir yn lla6n o** uarchogyon arua6c. a deu wr yn deu uroder **yn tywyssogyon arnadunt. sef oed eu henw.** hors. a heingyst. Ac yn yr amser h6nn6 yd oed **gortheyrn yn y dinas a elwit dorobern. sef** oed y dinas h6nn6 caer geint. A chennadeu **a doeth ar ortheyrn. y uynegi ida6. ry dyuot guyr** ma6r hyd6f. heb 6ybot pa le pan hanoedynt **y my6n llongeu hiryon. A rodi na6d a wnaeth** Gortheyrn udunt. Ac erchi eu d6yn atta6. A **guedy eu dyuot rac bron y brenhin. Arganuot** yn y lle a wnaeth y deu uroder oed tywysso**gyon ar y lleill. Canys ragor oed arnadunt** o pryt. a gosged. a th6f. a theled6rwyd rac **y lleill. A guedy edrych ohona6 arnadunt. go**uyn a wnaeth pwy oedynt. A pha le pan han**oedynt. A pha dayar y megyssyt arnei. A pha** acha6s. A pha neges y dothoedynt y6 teyr**nas ynteu. Ac yna y rodes heyngyst atteb** ida6 dros y gedymdeithyon. Canys hynaf oed. //

LlGC 5266 t. 137

**A megys aeduetaf A doethaf. A phrudhaf. Ac yn y wed** hon y dechreuis y ymadra6d. O tydy 6onedicaf or **brenhined. yg wlat saxonia yn ganet ni. ac yn ma**g6yt. un y6 honno ynteu o wladoed Germania. **Acha6s yn dyuotedigaeth ninheu y6. y rodi yn gua**ssanaeth yty. neu y tywyssa6c arall a wnel da yn. **Ac nyt oes acha6s y yn g6rthlad oc yn g6lat.** namyn a dywed6n yty heuyt. sef y6 hynny g6lat **uechan gyuyng. y6. A phan amlaho y phobyl mal** na anhont yndi. sef y6 eu kyneua6t. kynulla6 holl **wyr yeueinc y wlat rac bron eu tywyssa6c. A b6r6 prenn**eu y rygthunt. A megys y del y coelbren 6dunt. yd **etholir. Ac yd ellygir y wladoed y byt y my6n llon**geu. megys y guely dy. y geissya6 gossymdeith. Ac **y*uelly* rydhau eu g6lat. o tra amlder ky6da6t.** Ac yr a6rhon argl6yd heb ef yd amla6s ky6da6t **yndi yny uu reit ethol yr yeuengtit a wely di** yma rac dy uron. Ac erchi udunt uuydhau **6rth y gyneua6t ar gyureith oed ossodedic yr** y dechrereu yndi. A ninheu y deu uroder a we**ly di yn tywyssogyon arnadunt. canys o lin** brenhined yd hanym. sef y6 uy en6 i heingyst. //

LlGC 5266 t. 138

**A hors y6 hen6 uy mra6t. A hynny argl6yd y** ryuu reit y ninheu uuydhau yr gyureit yr uu**assei yr y dechreu. Ac y doetham hyt dy uren**hinaeth di. yn yd oed mercurius an d6w yn an **tywyssa6. A phan gigleu y brenhin kyrb6yll mer**curius dyrchauael y 6yneb a oruc. A gouyn pa ry6 **gret oed ganthunt. Ac yna y dywa6t heingyst.** Argl6yd heb ef an tatolyon dwyweu a anryded**6n nyt amgen. saturnus. a iuppiter. Ar dwyw**eu ereill y*syd* yn llywya6 y byt. Ac eissyoes yn **benhaf yd anryded6n mercurius yr h6n a alwn** ni yn an yeith wogen. Ac y h6nn6 y parth6ys **yn ryeni y petwaredyd or 6ythnos Ac a alwn** ninheu oe enw ef wogenes. A h6nn6 a elwir **yg kymraec dy6 merchyr. Ac yn nessaf y h6nn6** yd anryded6n y d6ywes gyuoethocaf or d6ywesseu. **yr hon a elwir effread. Ac y honno y kyssegr6s** an ryeni y chuechet dyd or 6ythnos. Ac yn an ye**ith ni y gelwir fridei. sef y6 hynny yg kymra**ec dyw guener. Ac yna y dywa6t gortheyrn. Am **a6ch cret chui. yr hon y*syd* ya6nach y gal6 yn** angret. noc yn gret dolurus yw gennhyf ui. //

LlGC 5266 t. 139

**llawen 6yf inheu hagen 6rth a6ch dyuodediga**eth chui. canys amser ym reit 6rthi6ch yr dody6ch. **na du6 ar a6ch dycco na pheth arall. Canys uyg** gelynyon y*syd* ym kywarsagu o bob parth. Ac 6rth **hynny o mynn6ch chuitheu kymryt kyt lauur** a miui. ymlad am gelynyon. minheu a6ch kyn**halyaf chui. yn anrydedus ym teyrnas. Ac a6ch** kyuoethogaf o amrauael donyeu. a rodyon eur **ac aryant. a meirch. a thir a dayar a daoed ereill.** Ac yn diannot uuydhau a wnaethant 6ynteu. y **hynny a g6rhau yr brenhin. Ac ada6 fydlonder ida6** tr6y aruoll. A thrigya6 y gyt ac ef yn y lys. Ac yn y **lle nachaf y fychteit y elynyon yn dineu or alban.** a llu dirua6r y ueint ganthunt. Ac yn anreitha6 **y guladoed ac yn llad eu pobyl. A phan gigleu** Gortheyrn hynny kynnulla6 y uarchogyon a **wnaeth ynteu a mynet yn eu herbyn. A guedy dy**uot y deu lu y gyt. ac ymlad ny bu uar reit yr **ky6da6dwyr ymlad y dyd h6nn6. canys y saesson** a ymladassant yn gyn wrolet ar gelynyon a oed**ynt yn pylu y ky6da6dwyr. yny uu reit ud**unt ymchuelut ar fo yn gewilyduus. //

LlGC 5266 t. 140

**A Guedy caffael o ortheyrn y uudugolyaeth y dyd** h6nn6 tr6y y saesson. ynteu a amla6s rodyon yn y **lle udunt 6ynteu. Ac y heingyst eu tywyssa6c y rodes yn swyd lindysei tir a daear megys y gallei ymossymdeithya6 ohona6 ac ef ae gytuarchogyon. Ac odyna mal oed heingyst yn** wr doeth. call. ystrywus A guedy g6ybot ohona6 **~~ee~~ cael kedymdeithyas y brenhin. ae garyat. sef** a wnaeth ymadra6d yn y wed hon. Argl6yd heb **ef. dy elynyon di ysyd yn ryuelu o bob parth. A** hyt y guelir ymi heuyt bychydic o wyr dy teyr**nas ath gar. canys eu canm6haf a gly6af ui yth** ogyuada6. am d6yn emreis wledic. o lyda6 am **dy ben yth diot oth urenhinaeth. Ac 6rth hynny.** os da gennyt titheu. ac o byd ryngad6y bod yt. **kyghor yw gennyf ui. Anuon kennadeu hyt uyg** wlat i y waha6d marchogyon ettwa odyno me**gys y bo m6y a chadarnach an niuer ninheu 6rth** ymlad ath elynyon ditheu. Ac mal y bo dibryder**ach ititheu. Ac y gyt a hynny heuyt un arch a** archaf inheu yty pei na bei ouyn uy naccau o**honei. Ac yna y dywa6t Gortheyrn. Anuon di dy** gennadeu yn diannot hyt yn Germania. y waha**6d odyno kymeint ac a uynnych. Ac odyna ar**ch y minheu. a pha beth bynnhac a erchych //

LlGC 5266 t. 141

**nyth necceir o*hona6*. Ac yna yst6ng y ben a wna**eth heingyst. A diol6ch hynny ida6. a dywedut 6r**tha6 ual hyn. Tydy argl6yd heb ef am kyuoetho**geist i. ac a rodeist ym eisteduaeu amyl ehalaeth **o tir a dayar. Ac eissyoes nyt megys y guedei an**rydedu tywyssa6c a hanfei o lin brenhined. Sef ach**a6s y6. ti a dylyut rodi ymi ae dinas ae castell y** gyt ac a rodut. megys ym guelyt inheu yn anry**dedus ym*plith* y tywyssogyon. Canys teilyngda6t** yarll neu uar6n. oed ya6n y rodi y tywyssa6c a **hanfei o lin tywyssogyon. Ac yna y dywa6t Gor**theyrn ida6 ynteu yn atteb. A 6rda heb uyg gua**hard i a wnaethp6t rac rodi y ry6 rodyon hyny** yt ti canys estra6n genedyl a phaganyeit y6ch **ac nat adwen inheu ettwa a6ch moes chui nac** a6ch deuodeu megys y gall6yf ych kyffelybu **am ky6da6dwyr. canys pei dechreu6n i a6ch** anryedu chui megys pria6t ky6da6t yr enys **guyrda yr enys a gyuodynt ym herbyn ac a 6rth**6ynebynt ym. Ac yna y dywa6t heingyst. Argl**6yd heb canhyata ditheu yth was guneuthur** ar y tir a rodeist kymeint ac yd ymgyr //

LlGC 5266 t. 142
gedymdeithyon. 6yn teulu i. am kyt**uarchogyon. chui a wnaetha6ch enys prydein yn ar**gl6ydes ar dec teyrnas ar ugeint. y a6ch mol~~iu~~ant **chui ac y a6ch anryded y diolchaf ui hynny. canys** guelaf nat ydi6 yn methu namyn yn kynydu. ket **byde6ch chui yr a6rhon bym mlyned yn ymrodi y** seguryt. ac y digrif6ch guraged a g6ydb6yll. eissyoes **ny chollassa6ch yr hynny a6ch anyana6l dysc ar 6ilw**ryaeth. guyr ruuein a gymellassa6ch ar fo. y rei a **oedynt oc eu syberwyt yn keissya6 d6yn an rydit y** arnam. Ac 6ynt yn wuy eu niuer ny allassant se**uyll yn a6ch erbyn. namyn fo yn dybryt. Ac yman** y keissyant dyuot yr a6rhon tr6y y glyn h6n. cany **thebygant llauassu o*hanam* eu harhos. ef a tebic** guyr y d6yrein an bot ni mor llesc. ac y gatom **yn gulat yn tretha6l yn diymlad. A phonyt** adnabuant h6y meint yr ymladeu a dyborth**assam ni y wyr llychlyn a denmarc. ac y tywyssog //**

LlGC 5266 t. 273
**yon freinc pan y darystyngassam 6rth enys prydein.** gan dirua6r gewilid y wyr ruuein. Ac 6rth hy**nny can goruuam ni yn yr ymladeu ma6r hy**nny. dibryderach y gall6n ninheu gyrchu h6n. os **o un uryt ac un dihewyt y kyrch6n yn erbyn yr** hanner guyr hyn. kyrch6ch yn 6ynt a chywerseng**6ch. A chymer6ch eu heur ac eu haryant. Ac eu ke**styll. ac eu llyssoed. ac eu dinassoed. Ac eu tir ac eu **daear. ac eu golut. A guedy teruynu yr ymadra6d** h6nn6 o*hona6*. pa6b yn gytduun a ymaruollassant **y diodef agheu drosta6 ef o bei reit. kyn no mynet** y 6rtha6 gan y ada6 ynteu. **A Guedy g6ybot o amhera6dyr ruuein y brat yd oed**et yn y wneuthur yn y erbyn. ymadol6yn a wnaeth **ynteu ae wyr yn y wed hon. o chuichui tadeu an**rydedus y guyr a dyly argl6ydiaeth or d6yrein hyt **y gorllewin. coffe6ch a6ch ryeni y rei ny ochelynt e**ll6ng eu guaet yn amdiffyn kyhoed argl6ydiaeth **ruuein. gan ada6 agreiff a dysc y eu hetiued wedi wynt.** canyt oed agheu glotuorach nor hon a delhei y dyn **yn amdiffyn y wlat. Ac y*uelly* y grymhaei eu har**gl6ydiaeth dros yr holl uyt. gan achuanegu eu **anryded. Ac 6rth hynny yd annogaf uynheu ywch6y //**

LlGC 5266 t. 274
**gal6 ata6ch a6ch grymus daeoni. 6rth ymerbynneit** ac a6ch gelynyon yn y glynn h6n. y gymhell arnadunt **yr hyn y maent 6ynteu yn y geissya6 y genn6ch chui.** A chyrch6ch yn 6ynt a diodef6n yn da y ruthyr kyn**taf. Canys deua6t y6 a sauo yn da yn y gyuranc kyntaf** y uynet gan uudugolyaeth. Ac ar hynny kytsynnyediga**eth a rodes pa6b ida6. Ac yn gyulym guisga6 eu har**ueu ac yr dyffryn yd oed arthur ae lu ynda6 y doeth**ant. A herwyd kynneua6t guyr ruuein bydina6 a** wnaethant y marchogyon ar neilltu. ar pedyt ar ne**illtu. Ac ym pob un o deudeng mydin o uarchogyon.** y gossodassant chueguyr a thrugeint a chue chant a **chue mil. Ac ym mlaen pob bydin y gossodet tywysso**gyon y eu lly6ya6 ac y eu dysgu. Ac ym mlaen y uydin **gyntaf. y gossodet cadell uleid. ac eliphant urenhin** yr yspaen. Ac yr eil y gossodet hirtacus urenhin parthia. **A mar ysgyuarna6c o sened ruuein. Ac yr tryded y rod**et boccus urenhin mydyf. A gaius o sened ruuein. Ac **yr petwared y rodet serx urenhin libia. A quintus** miluius senad6r o ruuein. Ac yn ol y pedeir bydin **hynny. y gossodet pedeir ereill. Ac yr gyntaf onadu**nt y rodet yn tywyssa6c serx urenhin ituraa. Ac **yr eil. pandrasus urenhin y reifft. Ac yr dryded polite //**

LlGC 5266 t. 275
**tes tywyssa6c frigia. Ac yr betwaret tenctus tywyssa6c** bitinia. Ac yn ol y pedeir hynny y gossodet pedeir **ereill bydin. Ac y un onadunt y rodet y pymhet** senad6r yn tywyssa6c. Ac yr eil lillius dryssa6r. Ac **yr tryded y rodet suplic. Ac yr betwared y rodet or** meuryc or coet. Ac ynteu ehun lles amhera6dyr ruuein **yn eu plith 6ynteu yn eu dyscu ym pob man. Ac** yn eu hannoc. Ac ym perued hynny yd erchis seuyd**lu del6 eryr eureit oed yn lle maner. ac ar6yd ym**lad ida6. Ac erchi a wnaeth p6y bynnac o damwe**in a wanhaei y 6rth y uydin kyrchu yno.** A Guedy b llunyeithu pob peth daruot a o hynny ar by**dinoed yn seuyl o bob parth yn bara6t. canu y kyrn** a wnaethp6t ac ymgyrchu. Ac yna yd ymgyuar**uu bydin urenhin yr yspaen. Ar uydin yd oed Ar**aun uab kynuarch. A chad6r yarll kerny6 yn ty**wyssogyon arnei. Ac ny all6s urun onadunt** wasgaru y gilid. Ac ar hynny y doeth y uydin **yd oed Gereint carnwys. a boso o ryt*ychen* yn** tywyssogyon arnei. A thyllu bydin eu gelynyon **ae guasgaru. yny gyuaruuant ar uydin yd** oed urenhin parthia yn y lly6ya6. Ac yna ymgyuar**uu y bydinoed o bob parth. Ac yna y bu y aerua //**

LlGC 5266 t. 276

**druan. Ar griduan girat ar lleuein ar gorderi. Ar** kynh6ryf yn y daear. yna y llas bedwyr y gyt a rei **kyntaf. Ac y brath6t kei yn agheua6l. pan ymgy**uaruu a bocus urenhin midif. y guant h6nn6 **a gleif tr6y y arueu yny oed agheua6l. Ac eissyo**es guneuthur ford a wnaeth ef ida6. ac y6 uyd**in. tr6y uydin ~~y~~ brenhin mydyf. gan lad a guasgaru guyr** midif. yny gyuaruu a bydin urenhin libia. Ac **yna y guasgar6yt y gedymdeithon ynteu. Ac eissy**oes a rei oe gedymdeithyon y gyt ac ef y doethant **a chorf bedwyr hyt ar y dreic eureit. Ac yna yd** oed g6ynuan girat am y guyr hynny pei keffit **o enhyt k6yna6 rac amdiffyn yr eneideu. Ac yna** y kymyrth hirelgas nei bedwyr trychan march**a6c y gyt ac ef. a chyrchu mal baed coet tr6y** lawer o g6n. hyt y lle y guelei ar6ydon brenhin **midif. heb didorbot pa damwein a gyuarfei ac ef** gan gaffael dial y ewythyr. A guedy y dyuot hyt **y lle yd oed yn y chuenychu. y kymyrth y brenhin** y ar y uarch o blith y uydin. ae d~~.~~6yn gantha6 hyt **y lle yd oed corff bedwyr. Ac yno y 6ri6a6 oll yn** dryllyeu. A guedy daruot ida6 hynny. kyrchu ym**plith y gedymdeithyon. A gyrru grym ac angerd //**

LlGC 5266 t. 277

**yndunt yny oed eu houyn yn 6a6r ar eu gelynyon.** Ac oe dysc ef ae annoc kymryt grym ac angerd a **wnaethant. A guneuthur aerua dirua6r y meint** oc eu gelynyon. Ac yna ym parth guyr ruuein eithyr **yr hyn ny ellir y rif o niueroed ereill. y syrth6ys El**iphant urenhin yr yspaen. A misipsa urenhin babilon. A **Quintus miluius a mar senad6r o ruuein. Ac yna he**uyt y syrth6s o barth y brytanyeit. lodgar tywyssa6c bo**l6yn. A hodlin tywyssa6c R6yt6n. A thri tywyssa6c o enys** prydein. Cursalem o gaer geint. A Gualla6c o am6ythic. **Ac 6ryen o gaer uadon. Ac o acha6s hynny y guanha6s** yn ua6r y bydinoed yd oedynt yn eu llywya6. A chilya6 **tracheuyn hyt ar y uydin yd oed howel uab emyr lly**da6. A Gualchmei uab G6yar yn y llywya6. A phan we**les y guyr hynny eu kedymdeithyon yn kilya6. enynynnu** a wnaethant 6ynteu o lit megys flam. rac eu han**gerd. A d6yn ruthyr ym*plith* eu gelynyon. Ac annoc** eu kedymdeithyon oed yn kylya6. A chymell ar fo yn **y lle y guyr oed yn eu hymlit. gan eu b6r6 ac eu bri6**a6 ac eu llad. Ac ny orffowyss6s gualchmei ac 6ynt **yny doeth hyt ar uydin yr amhera6dyr. Ac yna y g6r**th6yneba6d bydin yr amhera6dyr udunt. Ac yn y gy**uaruot honno y dyg6yd6s o parth y brytanyeit. kynuarch //**

LlGC 5266 t. 278

**tywyssa6c tryger A d6y uil y gyt ac ef. Ac eissyoes gue**dy guelet o howel a Gualchmei. y guyr ny anadoed guyr **well noc 6ynt. Aerua gymeint a honno oc eu kedymd**eithyon. kymryt angerd o newyd yndunt ac ymlad a **bydin yr amhera6dyr ob pob . tu idi. megys lluchaden yn** llad a gyuarfei ac 6ynt. Ac yn b6r6 ereill. ac yn bri6a6 **ereill gan annoc eu kedymdeithon. AC ar hynny yd** ymgyuaruu walchmei ar amhera6dyr. yr hyn yd oed **yn y damuna6. Ac nyt oed dim well gan yr amhera6**dyr ynteu nogyt ymgyuaruot a marcha6c kystal a **Gualchmei y gymhell arna6 dangos beth a allei ym** mil6ryaeth. canys clywssei nat oed uarcha6c well **no Gualchmei. Ac ymerbynneit a wnaethant yn drut** ac yn galet. ac yn gadarn. mal na welet y r6ng deu **uil6r ymlad a gyffelypei ida6. Ac ar hynny eissyoes te6**hau guyr ruuein am eu pen. ual y bu reit y wyr **llyda6 kilya6 tracheuyn hyt ar arthur ae uydin. A** pan weles arthur yr aerua yd oedet yn y wneuthur oe **wyr. kyrchu a wnaeth y elynyon. gan annoc y gedym**deithyon yn y wed hon. Pa beth a wne6ch chui wyr. **Paham y ged6ch chui y gureiga6l wyr hyn y genn**6ch. Coffe6ch a6ch deheuoed y rei a darystyng6s dec **teyrnas ar ugeint 6rth uy argl6ydiaeth i. coffe6ch //**

LlGC 5266 t. 279

**a6ch ryeni y rei a wnaethant guyr ruuein yn tretha6l** udunt. pan oedynt gadarna~~s~~ch noc yr a6rhon. Coffe6ch **a6ch bonhed ac a6ch rydit. yr hon y mae yr hanner** ~~y~~guyr hyn yn keissya6 y d6yn y genn6ch. nac aet **urun yn uy6 y genn6ch onadunt nac aet. Ac ar** hynny dechreu guasgaru e elynyon ac eu b6r6. Ac **eu llad. A fo a wneynt 6ynteu racda6 ef megys y** foei anyueileit rac lle6 dywal creula6n ~~pan~~ uei ne6**yn arna6. Ny differei y arueue hagen neb or a gy**uarfei ac euo. A phan weles y brytanyeit eu brenhin **yn ymlad yn y wed honno. ymgynnula6 a wnaeth**ant 6ynteu yn eu bydinoed. A medylya6 mynet **tros wyr ruuein. Ac eissyoes g6rth6ynebu yn wy**chyr a oruc guyr ruuein udunt. Ac o dysc lles eu **hardercha6c urenhin 6ynteu llauurya6 y talu aer**ua eilchuyl yr brytanyeit. A chymeint uu yna yr **aerua o bob parth. a chet bei yr a6r honno y dechreu**it yr ymlad. Ac or neillparth yd oed yr ardercha6c **urenhin arthur yn kyrchu ac yn llad y elynyon Ac yn** annoc y wyr. Ac or parth arall yd oed les amhera6dyr **ruuein yn dyscu y wyr ynteu ac yn eu moli. Ac** ny

orffowyssei ynteu. namyn ym pob cogyl yr llu kyr**chu y elynyon. ac eu b6r6 ac eu llad. Ac yna o bob par** //

LlGC 5266 t. 280
**th y bu aruthur aerua. anha6d y thraethu. hyt nat** oed a 6ypei pa di6 y damweinyei y uudugolyaeth. **Ac ual yd oedynt yn yr ymffust h6nn6. nachaf mor**ud tywyssa6c caer Gloe6 yr h6n a dywedadoed uch**ot y ada6 yg wersyllt yn kyrchu y elynyon yn de**issyuyt. A lleng gantha6 o wyr arua6c prouedic. ac yn gyf**lym yn eu guasgaru ac yn mynet drostunt. Ac yna** y dyg6yd6s llawer o uilyoed o*nadunt*. Ac ym*plith* **y bydinoed y guant un a gleif lles amhera6dyr ru**uein. Ac or dyrna6t h6nn6 yn diannot y bu 6ar6. Ac **ny dyweit y llyuyr p6y ae llada6d. A chet bei tr6y** dirua6r o lauur a gouut y cauas y brytanyeit y uud**ugolyaeth. Ac yna y guasgar6s guyr ruuein yr coet**yd ac yr mynyded. ac yr dinassoed. ac yr kestyll. pa6b **ual y dykei y dyghetuen. y geissya6 na6d ac amdiffyn.** Ac eissyoes eu hymlit a oruc y brytanyeit. Ac eu daly **ac eu llad. Ac ereill onadunt oc eu bod a ymrodes** yn garcharoryon. A hynny a wnaethp6t o ura6t d6y**wa6l drugared. Canys eu ryeni 6ynteu yn engirya**6l enwir a wnaethoedynt yn tretha6l gynt y **brytanyeit yr hyn yd oedyn h6ynteu heuyt yna yn y** lauurya6 oc eu holl enny. A guedy guastatau o **hynn yd erchis arthur guahanu corfforoed y w** //

LlGC 5266 t. 281
**wyrda ef y 6rth eu gelynyon. Ac eu kyweirya6 o uren**hina6l ar6ylyant. Ac eu hanuon yr manachlogoed a **uei ansodedic yn y guladoed yd hanoedynt o*nadunt*.** Ac yna yd anuonet corff bedwyr hyt ym peita6. ac yn y **uynwent ysyd ger lla6 y gaer. or parth deheu yr dinas** y clad6yt yn anrydedus. Ac y ducpt6yt corff kei hyt yn **angy6. Ac y my6n manachloc ermidwyr oed y my6n** forest ger lla6 castell idcanum. y clad6yt yn anryded**us. hodlinus tywyssa6c r6yt6n. a ducp6yt hyt yn flan**drys. Ac yn dinas interuan y clad6yt. E guyrda ereill **y am tywyssogyon a yeirll a barn6yeit a marchogy**on urda6l. a ducp6yt yr mynachlogoed nessaf udunt **y eu cladu yn anrydedus. Ac y gyt a hynny o warder** trugared yd erchis arthur. cladu corfforoed eu ge**lynyon. yn ll6yr. Ac anuon corff lles amhera6dyr** ruuein hyt ar sened ruuein. Ac erchi menegi ud**unt na dylyei ef talu teyrnget o enys prydein** udunt h6y amgen no honno. Ac yno y trig6s **arthur y gayaf h6nn6. ac y darystyng6s teyrna**ssoed b6rguyn ida6. A phan yd oed yr haf yn dy**uot ac arthur yn esgynnu mynyded mynheu** 6rth uynet y oresgyn ruuein. nachaf kenna**deu o enys prydein yn menegi ida6. bot med**ra6t y nei uab y chuaer wedy ri guisga6 coron **enys prydein. tr6y grelonder a brat a ry gys** //

LlGC 5266 t. 282
**gu gan wenh6yuar urenhines. gan lygru kyureith** d6ywa6l neithoryeu. Ac 6rth hynny ymchuelut a wnaeth **ynteu tracheuyn. ac ell6ng howel uab emyr llyda6 y** tangneuedu y guladoed hynny a llu freinc gantha6. **A chychuyn a oruc ynteu a guyr yr enyssed y gyt ac** ef parth ac enys prydein. Ac yna yd anuonassei y bra**d6r t6yll6r ysgymun gan uedra6t. selinx tywyssa6c** y saesson hyt yn Germania y waha6d y niuer m6y**haf a allei y gaffael hyt yn enys prydein yn borth id**a6. gan rodi udunt or tu dra6 y h6myr holl. Ac yn ych**wanec y hynny. yr hyn a rodassei Gortheyrn gorth**eneu y hors. a heingyst. yn s6yd geint. A guedy ca**darnhau yr amuot hynny y rygthunt. y doeth y** tywyssa6c. ac 6yth ganllong gantha6 o germania yn lla6n o pa**ganyeit arua6c. A g6rhau y 6edra6t megys y uren**hin. Ac yn achuanec y hynny. neur daroed ida6. **duuna6 ac ef. yr yscotyeit. ar fychteit. ar g6**ydyl yn erbyn arthur y ewythyr. Sef oed eiryf **y lu y gyt. y r6ng cristonogyon a phaganyeit.** petwar 6gein mil. Ac a hynny o niuer y gyt ac **ef y doeth yn erbyn arthur hyt yg glan y mor** y borth norhamt6n. A rodi br6ydyr galet ida6 yn **dyuot or llongeu yr tir. Ac yna y dyg6ydassant Ar**aun uab kynuarch urenhin ysgothlont. a gualch**mei uab guyar nei y brenhin. ac ar nyt oed ha6d** //

LlGC 5266 t. 283
**eu rifa6 y gyt ac 6ynt. Ac yn lle araun uab kynuarch** y dodet owein uab 6ryen yn urenhin g6r a uu glot**ua6r wedy hynny yn llawer o uolyanheu. Ac eissyoes** ket bei tr6y ƚlauur dirua6r arthur ae lu a gauas y **tir. A guedy llad llawer o*nadunt* kymell medra6t ae** lu ar fo. A chet bei m6y niuer medra6t. eissyoes tr6y **dysc guastat a pheunydya6l aruer ar ymlad. doethach** a chymhennach oed niuer arthur. Ac 6rth hynny y **bu reit y 6edra6t kymryt y fo. Ac yn y lle eissyoes** ymgynnulla6 a wnaethant ar 6edra6t y wasgaredic**yon o bob man. A chyrchu hyt nos yny doethant y** gaer wynt. A chadarnhau

y dinas yn eu kylch. A phan **doeth y chuedleu hynny ar wenh6yuar urenhines** sef a wnaeth hitheu anobeitha6 yn ua6r. a myn**et o gaer eura6c hyt yg caer e llion ar 6ysc. A** guisga6 amdanei yn uynaches y gyt ar mynach**esseu oed yno yn** ~~gyt~~ egl6ys **a Julius uerthyr. ac arwein** eu habit odyna hyt agheu. AC ym pen y trydyd **dyd guedy daruot cladu y guyr lladedigyon. kych**wyn a wnaeth arthur am pen caer wynt yn fle**mychedic o lit. Am ry gollu y sa6l ry gollassei oe** wyr gan 6edra6t ae lu. A guedy g6ybot o 6edra6t **eu bot yg kylch y dinas. bydina6 a wnaeth ynteu** gan annoc y gedymdeithyon ac eu moli oc eu **de6red. a chyrchu allan y rodi car ar uaes y6 //**

LlGC 5266 t. 284

**ewythyr. A guedy dechreu y 6r6ydyr honno dirua6r** aerua a wnaethp6t o bob parth. ac eissyoes m6haf **a las o barth medra6t. Ac yn y diwed kymell arna6** ada6 y maes a fo yn dybryt gewilyduus. Ac ny han**den6s arthur hagen yna gohir 6rth cladu y calaned** 6rth ry dianc y bratwr y gantha6 y mynychet h6n6. **namyn gan dirua6r urys kymryt y ford parth a** cherny6 yny doeth hyt ar auon camlan. y lle yd oed **uedra6t ae lu yn y arhos. gan uedylya6 ohona6 bot** yn tegach ida6 y lad yno neu ynteu a orffei nogyt **fo o le y le yn warad6ydus a uei h6y no hynny. yd** oed gantha6 hagen etwa oe lu chue guyr. a chuech **canwr a thriugein mil. Ac o hynny y gunaeth** chue bydin. ac ym pob un o*nadunt* chue guyr **a thri ugeint a chuechant a chue mil. A thywys**sogyon ar bob un o*nadunt*. Ac or hyn nyt aeth **yn y bydinoed y gunaeth lleng ordethol y gyt ac** ef ehun. A guedy daruot ida6 lluneithu y uydi**noed yn y wed hono. ada6 a wnaeth y ba6b onad**unt os ef a oruydei medyant ma6r eur ac ary**ant meirch. ac anryded. tir a daear a chyuoeth.** Ac erchi udunt o un uryt seuyll ac ymlad y gyt ac ef. **AC or parth arall gossot a wnaeth arthur y lu** ynteu tr6y na6 bydin. A thywyssogyon neilltu**edic doeth y bob un o*nadunt*. Ac annoc y pa6b //**

LlGC 5266 t. 285

**a wnaeth ynteu llad y paganyeit ysgymunedic heb uedyd** arnunt. y rey dugassei ynteu y brad6r t6yll6r ysgymun **gan 6edra6t atta6. y geissya6 digyuoethi y ewythyr ae** dianrydedu. Ac achuanegu y ymadra6d heuyt a oruc yn y **wed hon 6rth y lu. y llu a wle6ch chui raccw yn a6ch er**byn o amrauael enyssed yd henynt. Ac aghyur6ys ynt **ar ymlad. a chuitheu kyneuyn gyur6ys y6ch o dysc peu**nydya6l ymlad ac 6rth hynny ny allant g6rth6ynebu **y6ch na seuyll yn a6ch erbyn. A guedy daruot udunt** annoc eu lluoed o bob parth. Ar hynny ymgymysgu a **wnaeth y bydinoed. A dechreu ymgymynu. A chymeint** uu yr aerua yna o bob parth hyt pan oed y re by6 yn **ynuydu gan g6ynuan y rei meir6. mal yd oed truan** a dolurus nae datcanu nae ysgriuennu. canys o bob parth **y brathei y guyr ac y bretyt. 6ynteu. y lladei ac y lledit 6ynteu.** A Guedy treulya6 llawer or dyd yn y wed honno. kyr**chu a wnaeth arthur ae uydin megys llew dywal** newyna6c. y uydin y g6ydyat bot y brat6r t6yll6r **anudonyl ysgymun gan uedra6t. Ac agori fyrd ar cledyueu** udunt. A guneuthur aerua antrugara6c o*nadunt*. **Ac ar y ruthyr h6nn6 y llas y brat6r gan uedra6t a** llawer o uilyoed y gyt ac ef. Ac yr hynny eissyoes **ny foes y lleill namyn kynnal eu hymlad. yn 6ra6l** tra allassant seuyll. Ac yna y bu y 6r6ydyr galetaf **or a uu yn enys prydein na chyn no hynny na guedy //**

LlGC 5266 t. 286

**hyt pan dyg6ydassant yr holl tywyssogyon o bob parth** ac 6ynt ac eu bydinoed. Ac o barth medra6t y llas. Che**ldeic. A Elaes. Ac Ebrict. A himing. tywyssogyon saes**son. Gillam6ri. a Gillapatric. A Gillassor. A Gillari. or **g6ydyl. yr yscotyeit. ar fychteit. ac eu holl niuer hayach a las.** AC o parth Arthur y llas ebryct urenhin llychlyn. Ac achel **urenhin denmarc. A chad6r llymenic a chaswalla6n. A** llawer o uilyoed y gyt ac 6ynt. y r6ng brytanyeit a che**nedloed ereill. Ac y gyt a hynny yr ardercha6c urenhin** arthur a urath6t yn agheua6l. Ac odyno a ducp6t hyt **yn enys auallach y yachau y welioed. Ac ny dyweit y llyuyr** amdana6 a uo diheuach na hyspyssach no hynny. **Coron teyrnas enys prydein hagen a gymynn6s y Gu**stennyn uab cad6r y gar ehun ae gyfnessaf. Ac y sef **amser oed hynny. D6y ulyned a deu ugeint a phym cant** guedy geni mab du6 or argl6ydes 6eir wyry y g6r **a bryn6s y cristonogyon da yr creu gallon.** A Guedy custennyn yn urenhin y kyuodes y saesson. a **deu uab uedra6t y uynnu daly yn y erbyn. Ac ny dy**grynoes udunt. Ar neill o ueibyon medra6t a gauas **yn llundein. ar llall yg caer wynt. Ac y llada6d tr6y** greula6n agheu. Ac yn y~~n~~r amser h6nn6 yd aeth Deinoel **sant. esgob bangor guedy kywir uiluryaeth y argl6yd** nef y orffowys or byt h6n. Ac yna yd etholet theon **esgob caer Gloe6 yn archescob yn llundein. Ac yn //**

LlGC 5266 t. 287

**yr un amser h6nn6 yd aeth dewi y guyuydedic archescob** caer llion ar 6ysc or byt h6n. y orffowys. ac y myny6 y **my6n manachloc a seliyassei ehun yn y 6y6yt y clad6t.** canys padric a daroganassei ida6 ef y lle honno kyn noe **eni. ac yna yd etholet kyna6c escob llan pa~~t~~darn yn arch**escob yg caer llion yn y le ynteu. **AC erlit y saesson a wnaeth custennyn megys y dywetp6t** uchot. Ar neill mab y uedra6t a odiwa6d yg caer wynt. **guedy ry fo hyt yn egl6ys amphibalus. Ac yno rac bron** yr alla6r y llada6d. Ar llall a gauas yn llundein y my**6n manachloc brodyr oed yno. Ac yno heuyt rac bron** yr alla6r y llas. Ac odyna ym pen y tryded 6l6ydyn y **llas custennyn y gan kynan wledic. Ac y clad6yt yg cor** y ke6ri ger lla6 uthyr pendragon yn emyl salsbri. **.C yn nessaf y gustennyn y doeth kynan wledic yn** urenhin. nei y gustennyn. Guas yeuanc oed h6nn6 **anryued y uolyant ae dewred. ae daeoni. A h6nn6 a** gauas llywodraeth yr holl enys. A theil6ng oed ynteu **y hynny. pei na charei teruysc yn ormod y r6ng y** kiwda6dwyr ehun. Ac ewythyr ida6 heuyt yr h6n **a dylyei guledychu guedy custennyn. a ryuel6s** arna6 ac ae dellis. ac ae gossodes yg carchar. a gue**dy llad y deu uab a gymyrth ehun y teyrnas. Ac** yn yr eil 6l6ydyn oe urenhinaeth y bu uar6. **AC yn nessaf y gynan wledic y doeth guerth //**

LlGC 5266 t. 288

**euyr yn urenhin. Ac yn erbyn h6nn6 y kyuodes y saesson** a d6yn eu kenedyl attadunt o germania. Ac eissyoes gue**dy llawer o ymladeu goruot a wnaeth guertheuyr ar**nunt. A chymryt llywodraeth y teyrnas yn y la6 ehun. A **phedeir blyned gan hed6ch a thagnheuet y kynheliis.** AC yn nessaf y h6nn6 y doeth Maelg6n g6yned yn uren**hin ar holl enys prydein. Ac or a uu kyn noc ef. teccaf** guas oed 6aelg6n. kywarsagya6dyr a diwreid6r uu yn**teu ar lawer o greulonyon urenhined. cadarn a de6r** oed ym mil6ryaeth. hael oed am rody~~om~~n. Ac ar un geir **eglurach oed no neb pei nat ymsodei ym pechawt** sodoma. Ac o acha6s hynny y bu atcas gan du6 ef. **Maelg6n eissyoes a gauas coron y teyrnas a llyw**odraeth enys prydein. Ac y gyt a hynny ef a oresgyn**n6ys y chuech enys yn gyntaf brenhin wedy arthur** 6rth coron enys prydein. sef oed y rei hynny ywerdon **ac islond. a godlont. ac orc. A llychlyn. a denmarc. A** rei~~n~~ hynny tr6y greulonhaf ymladeu y darystyng6s. **Ac or diwed yd aeth y my6n egl6ys ger lla6 y castell** ehun yn dygann6y ac yno y bu uar6. **AC yn nessaf y 6aelg6n y doeth keredic yn urenhin** ar enys prydein. G6r oed h6nn6 a garei teruysc **yn ormod ac anuundeb y r6ng y ki6da6t6yr e**hun. Ac 6rth hynny y bu gas ynteu gan du6 **a chan y teyrnas. A guedy g6ybot or saesson y an //**

LlGC 5266 t. 289

**wastatr6yd. Anuon ar Godm6nt urenhin yr affric a** wnaethant hyt yn ywerdon. yr dothoed a llyghes dirua6r **gantha6 y oresgyn ywerdon. Ac yna tr6y urat y saesson** y doeth Gotm6nd yr alban yr tir a thri ugein llong a **chan llong gantha6. yno yd oed y saesson t6yllwyr brat**wyr heb uedyd arnunt. ac yn y ran arall yd oed pria6t **genedyl yr enys a theruysc ac anuundeb y rygthunt.** A guedy duuna6 y saesson a Gotm6nd. ymlad a wnaeth**ant yn erbyn keredic urenhin. A guedy y fo y erlit o** dinas p6y gilid hyt yn circestyr. Ac yna y doeth ymberth **nei y louix brenhin freinc a g6rhau y Gotm6nd. gan** amuot y ganorthwya6 ynteu or Gotm6nd h6nn6 6rth **oresgyn teyrnas freinc ar torr y ewythyr. canys her**wyd y cadarnhaei agkyureithya6l y diholessit y emdeith **o*honei*. Ac or diwed guedy caffael y dinas ae losgi ymlad** cat ar uaes a orugant a cheredic urenhin. ae gymell **ar fo tr6y hauren hyt yg kymry. Ac ny orfowyss6s** Gotm6nd yna oe dechreuedic irlloned. o lad a llosgi **y dinassoed ar kestyll ar treuyd. yny daruu ida6 di**leu holl 6yneb yr enys hayach or mor b6y gilid. **y guyr ar guraged. ar meibyon ar merchet. ar guei**ssyon ar morynyon. ar yscolheigyon a effeireit. heb tru**gared o flam a chledyf a distryw hyt yt prid. Ar hyn** a diaghei or druan aerua honno. a foynt y ennyal**6ch a diffeith6ch y geissya6 amdiffyn eu heneideu. //**

LlGC 5266 t. 290

**pa beth a allei kenedyl lesc kywarsangedic o dirua6r** a gorthr6m pynnyer pecha6t a syberwyt. y rei a uyd**ynt yn wastat yn sychedocau guaet a theruysc ac an**uundeb y r6ng eu kiwda6t ehun. *Euelly yuelly* **truan ..nedyl enys prydein y guenheyst ti. Canys titheu kyn** no hynny a gymhelleist y kenedloed pell o teyrnassoed **y 6rthyt yn darystyngedic yt. Ac y weithyon yd 6yt tith**eu megys guinllan guedy ry ymchuelut y chuerwed **a cheithiwet hyt na elly bellach amdiffyn dy wlat nath** wraged nath ueibyon o la6 dy elynyon. Ac 6rth hynny **truan genedyl syber6 kymer dy benyt. Ac**

**ednebyd y ge**ir a dyweit yr argl6yd yn yr euegyl. Pob teyrnas **a ranner ac a wahaner yndi ehun. a distrywir. ac a** diffeithir. Ar thy a syrth ar warthaf y gilyd. Ac 6rth **hynny canys ymlad a theruysc y gywda6t ehun. a** m~~w~~cl6c teruysc a chyghoruynt a tywylla6s med6l dy **uryt ti. Canys dy syberwyt ti ny mynn6s uuyd**hau y un brenhin. 6rth hynny y guely ditheu y **creulonhaf paganyeit yn distry6 dy wlat. Ac yn** b6r6 y ty ar dorr y gilyd. yr hyn a wyl dy etiued **hyt dyd bra6t. Canys 6ynt a welant estronyon ge**nedloed yn medu eu tei ac eu trefneu. ac eu **kestyll. ac eu dinassoed. ac eu tref tat. o rei y ma**ent diholedic. Ac yspeiledic. y rei onyt duw ae pe**ir ny allant eu kynydu byth tracheuyn. //**

LlGC 5266 t. 291

**Guedy daruot yr creula6n ysgymunedic h6nn6 a guyr** yr affric y gyt ac ef. anreithya6 yr enys or mor p6y **gilyd ae llad. ae llosgi megys y dywetp6yt uchot. y rod**es ef loegyr yr saesson. canys tr6y eu brat yr dothoed **yr enys. Ac 6rth hynny y kily6s adlibin y brytanyeit** hyt yr emylyeu. hyt yg kymry a cherny6. A guneu**thur odyno mynych ryuel a mynych gyrcheu am** ben eu gelynyon. Ac yna wedy guelet o theon arch**esgob llundein ac archesgob caer eura6c. yr egl6ysseu** ar kenueinhyoed dwywa6l ae guassanaethei guedy eu **distry6 hyt y daear. sef a wnaethant kymryt y creiry**eu ac esgyrn y seint. A fo ac 6ynt hyt yr lleoed diffe**ithaf a ga6ssant ym mynyded eryri. rac ouyn eu** distry6 yn g6byl or ysgymun diuedyd genedyl saess**on. y sa6l ar eiryf o esgyrn seint a hendateu a oed** ganthunt. A rac colli hynny ot ymrodynt h6ynteu **oc eu bod y uerthyrolyaeth. Ac ereill a gerd6s yn** llongeu o*nadunt*. hyt ar uyrrder yr holl egl6y**sseu or a oed yn y d6y archesgoba6t llundein. a cha**er eura6c a edewit yn diffeith. **AC yna tr6y lawer o amser y colles y brytanyeit** coron enys prydein ae theilygda6t. Ar hyn a trigy**assei ganthunt h6ynteu o*honei* hi. nyt a dan un** brenhin y kynhelynt. namyn a dan tri creula6n. **gan uynych ymanreithya6. ac yr hynny heuyt //**

LlGC 5266 t. 292

**ny chauas y saesson coron y teyrnas. namyn ~~ad~~ daly a** dan y tri brenhin a orugant 6ynteu. A dan ym*anre**ithya6*** **heuyt. weithyeu ar brytanyeit. weithyeu er**eill y rygthunt ehunein. AC yn yr amser h6nn6 yd **anuones Giryoel papp A6stin y pregethu yr saesson hyt** yn enys prydein. Canys yn y ran yd oedynt h6y or enys **yr daroed dileu cristonogyaeth o*honei*. A chan y brytany**eit yd oed fyd gatholic gyuan didramg6yd. yr yn oes **Eleuterius papp. y G6r kyntaf a anuonassei pregeth**wyr atadunt. A guedy dyuot a6stin y cauas seith esco**ba6t. Ac archescoba6t yn gyula6n o preladeit credyuus** catholic. a manachlogoed llawer. yn y rei yd oedynt ke**nueinyoed d6ywa6l. yn talu dedua6l wassanaeth yn** herwyd eu hurdas y du6. Ac ym*plith* y manachlogo**ed hynny yd oed manachloc arbennic yn dinas ban**gor ua6r y maela6r. Ac yn y uanachloc honn.o y dywe**dit bot yn gymeint eiryf eu c6uent o uynych a gue**dy rannet en seith ran. y bydei trychan mynach **ym pob ran. heb eu prioryeit ac eu s6ydwyr. A hyn**ny oll yn ymborth o lauur eu d6ylya6. sef oed en6 **y habat Duna6t g6r oed h6nn6 anryued y** ethrylith ae dysc yn y keluydodeu. Ac yna y keiss6s ~~yr~~ **a6stin daryst6ng yr esc~~o~~yb 6rth kytlauurya6** y gyt ac ef y pregethu yr saesson. Ac yna y dan**gosses duna6t tr6y amrauael a6durdodeu yr //**

LlGC 5266 t. 293

**ysgrythur glan. hyt na dylyynt h6y pregethu eu fyd** h6y y eu gelynyon. Canys eu harchescob oed udunt **ehunein. A chenedyl y saesson ynteu yn ormes arnad**unt. Ac yn dwyn eu guir tref tat y arnadunt. **Ac 6rth hynny na mynnynt na phregethu yr sae**sson na chedymdeithyas ac 6ynt. na chyuran eu **fyd ac 6ynt m6y noc a chwn. A guedy guelet o** Edelberth urenhin keint y brytanyeit yn ym6rth**ot a phregethu yr saesson. y gyt ac a6stin. sef a wna**eth ynteu blyghau. Ac anuon ar edelflet urenhin y **gogle~~u~~d. Ac ar y brenhined ereill or saesson y** erch~~u~~i **ud**unt lluyda6 y gyt ac ef am ben dinas bangor y dial **ar duna6t abat. Ac ar yr yscolheigyon ar athraon ereill** y gyt ac ef. a tremygassei a6stin y saesson ae pregeth. **A guedy kynnulla6 dirua6r lu o*nadunt*. dyuot a** wnaethant ar llu h6nn6 ganthunt hyt yg caer **lleon. yn y lle yd oed brochuael ysgithra6c yn eu her**byn. Ac yno y dothoedynt myneych a chredyfwyr **o bob manachloc or a oed yn teyrnas y brytanyeit.** Ac yn wuyhaf o dinas bangor y wedia6 du6 y **gyt ac eu pobyl. Ac yna guedy ymgynnulla6 y** lluoed o pob parth dechreu ymlad a wnaethant **y saesson ar brytanyeit. Ac or diwed y bu reit y** 6rochuael ada6 y dinas. Ac eissyoes nyt heb wne**uthur aerua dirua6r y meint oe elynion. A gue //**

LlGC 5266 t. 294

**dy caffael y dinas o edelflet. A g6ybot yr acha6s yr** dothed y sa6l credyfwyr hynny yno. ymchuelut eu har**ueu a wnaethant yn y credyfwyr. Ac yn yr un dyd** h6nn6 gan coron merthrolyaeth yd ellyng6yt wlat **nef deu can wr a mil or myneich hynny. Ac ody**na mal yd oed y creula6n h6nn6 ae saesson y gyt **ac ef yn kyrchu parth a dinas bangor. wedy clybot** or brytanyeit y greulonder ymgynnulla6 a wnaeth**ant h6ynteu holl tywyssogyon y brytanyeit hyt y** mangor. Ac yna y doeth bledris tywyssa6c kerny6. **A Maredud urenhin dyuet. Catuan urenhin G6y**ned. mab oed h6nn6 y yago uab beli. uab einya**6n. uab Maelg6n G6yned. A guedy dechreu y 6r6y**dyr honno. drut a chalet ac aruthyr ac athrugar **uu ueint yr aerua o bob parth. Ac eissyoes tr6y** weledigyaeth trugared du6 y goruu y brytany**eit. Ac y brath6yt Edelflet ac y kymhell6t ar fo.** ar hyn a dianghyssei oe lu gantha6. Ac y sef eiryf **a las o lu edelflet chue guyr a tri ugeint a deg** mil. Ac ym parth y brytanyeit y dyg6yd6s bledris **tywyssa6c kerny6. Ac ar nyt oed ha6d y ryf y gyt** ac ef. AC yna yd ymgynnullassant yr holl 6ry**tanyeit hyt yg caer lleon. Ac oc eu kyffredin** gyghor a duundeb y gunaethant catuan uab **yago yn urenhin arnadunt. Ac odyna ymlit //**

LlGC 5266 t. 295

**Edelflet yny oed or tu dra6 y humyr. Ac yna kynnulla6 a** wnaeth Edelflet yr holl urenhined saesson y gyt ac ef. A dy**uot yn erbyn catuan. A guedy ymuydina6 o pob parth y** doeth **kedymdeytho.** y rygthunt y eu tagneuedu yn y wed hon. Gadu y edelflet **or tu dra6 y humyr. A chaduan yn urenhin ar enys pry**dein oll wedy hynny. Ac yn eida6 coron lundein. A guedy **cadarnhau y gytuot honno tr6y aruoll a g6ystlon o bob** parth. y bu gymeint kedymdeithyas a charyat a duund**eb y rygthunt. Ac megys yd oed pop peth yn gyffredin** y rygthunt. Ac yn yr amser h6nn6 y damweinn6s di**hol o edelflet y wreic pria6t y 6rtha6 o garyat gureic** arall. mal nas gad6ys hyt yd oed teruyn y gyuoeth ef. **A beichya6c oed y wreic. A chyrchu a wnaeth hitheu hyt** ar catuan. y adol6yn ida6 y chymodi ae g6r. A guedy na **all6s catuan cael kymot idi. sef a wnaeth rodi tr6ydet** idi yn y lys ehun. A gureic catuan heuyt oed yn ueicha6c. **A phan doeth eu hamser y ganet deu uab udunt. Ac** odyna pan uedydy6t y meibyon. y dodet catwalla6n ar **uab catuan. A Eedwin ar uab Edelflet. A guedy** eu meithryn y gyt yny oedynt yn weissyon ma6r. **eu hanuon a oruc eu ryeni udunt hyt ar selyf** urenhin llyda6. y dyscu moes A deua6t a mil6ry**aeth . a chyureithyeu llys. A guedy eu haruoll yn** llys selyf 6ynt. kymeint uu eu caryat ar yspeit **uechan. Ac eu kedymdeithyas ar brenhin. Ac nat oed //**

LlGC 5266 t. 296

**neb oc eu kyuoedyon kyn garediccet ac 6ynt. Ac erbyn ys**peit uechan. yny bei 6r6ydyr ny bydei neb a ragorei rac**dunt y mil6ryaeth. AC ym pen yspeit guedy mar6 eu** ryeni Catuan ac edelflet. kychuyn a wnaethant 6ynteu **o lyda6 a dyuot hyt yn enys prydein. A guedy kymryt** o bob un o*nadunt* llywodraeth y tat. y karyat ar ged**ymdeithyas ar duundeb a uuassei y r6ng eu tadeu h6**nn6 a gatwassant 6ynteu. Ac eissyoes ym pen d6y uly**ned wedy hynny. yd erchis edwin canhyat y catwalla**6n y wisga6 coron am y ben ynteu or tu dra6 y humyr **ac y anrydedu g6yluae6 arbennic megys y gunelhei yn**teu yn llundein. Ac yn y dinassoed y mynhei or parth h6n **y humy~~n~~r o hen gyneua6t. A guedy gossot oed dadleu** y rygthunt or acha6s h6nn6 ar glan dulas auon y**syd yn y gogled. A gossot doethyon o bob parth y dosp**arth y dadleu. sef yd oed catwalla6n or neill parth **yr auon yn gorwed ae ben ar arffet nei ida6. sef oed** ~~y~~ h6nn6 breint hir. A hyt tra yt oedet yn dyliuein y **dadleu y r6ng y deu niuer. sef a wnaeth breint 6yly**a6 yn braff. yny oed kyn wlypet 6ynep y brenhin. **a chet b6riit fioleit o dwuuyr am y ben. Ac ar hynny** deffroi a oruc cat6alla6n. A thebygu y mae cawat o **la6 yr dyg6ydyassei am y ben. A phan dyrcheif eisyo**es y 6yneb a guelet y g6r yeuanc yn 6ylya6. gouyn **a wnaeth ida6 paham yd 6ylyei. Ac yd atteba6d yn //**

LlGC 5266 t. 297

**teu yr brenhin ual hyn. Defnyd y6 ymi 6ylya6** ac y genedyl y brytanyeit o hedi6 allan yn tragy**wyda6l y genedyl y*syd* yn diodef poen a cheithi**wet yr yn oes maelg6yn G6ned. Ac yr hynny etwa **ny chauas un tywyssa6c a allei kynydu y theilyng**da6t idi. Ar bychydic anryded yd oedet etwa yn y gy**nhal titheu hedi6 yn canhyadu y saesson d6yn hy**nny. tr6y eu gnotaedic t6yll. ac eu brat. Ponyt **clotua6r udunt h6y kynydu yn gymeint a gu**neuthur brenhin o*nadunt* ehun. A phan glywh**er hynny yn eu gulat 6ynteu yd ymgynnullant.** A thr6y e6 hen gyneuodic urat y goresgynnant **ni. ac distrywant an kenedyl hyt ar dim. Canys** kyneuodic y6 ganthunt oc eu mebyt tr6y urat **a th6yll na chathwant na fyd na chywirdeb 6r**th neb. Ac 6rth hynny argl6yd heb ef. yd oed ya6**nach yn*ni* eu**

**kywarsangu h6y noc eu hanry**dedu. Canys pan eteliis Gortheyrn gortheneu 6y**nt yn gyntaf tr6y ar6yd tangneued. megys** guyr fydla6n y ymlad y gyt ac ef. tros y wlat **yn erbyn y elynyon. eisyoes pan allassant 6y gyn**taf caffael lle ac amser. y dangossassant eu t6yll **ac eu brat ida6. gan talu druc tros da. ac y bre**dychassant guyrda y teyrnas. a y lladassant. Ac ody**na tr6y urat y guen6ynassant Emreis wledic. //**

LlGC 5266 t. 298
**A guedy hynny y bredyssant 6thyr bendragon. A guedy** hynny y gunaethant urat arthur. gan duuna6 a med**ra6t yn y erbyn. Ac odyna y torrassant eu haruoll a che**redic urenhin. Ac y dugant Gotm6nd urenhin yr **affric ar y dorr. A thr6y eu brat h6y y diholet ef yn** warad6ydus Ac y distrywyt y genedyl yn diuessur **A Gudy dywedut o ureint hir yr ymadrodyon hyn**ny. ediuar uu gan catwalla6n ry wneuthur dad**leu or acha6s h6nn6. Ac anuon a wnaeth hyt ar edw**in. y uenegi ida6. nat yd oed yn caffael kyghor ar **ganhyadu ida6 yr hyn yd oed yn y erchi. Canys gos**sodedic oed o gynneua6t. yr dechreu kynnyd enys **prydein na bei yndi namyn un coron brenhinyaeth.** Ac na ellit kynn6yssa6 deu urenhin ynteu ar ossy**mdeith un. Ac am hynny llidya6 a wnaeth edwin ac** ada6 y maes ar dadleu. A thygu tr6y irlloned y guis**cei coron heb ganhyat catwalla6n. A guedy dyuot** yr ymadra6d ar catwalla6n y tyng6s ynteu tr6y **irlloned a oed wuy. o guisgei ef coron yn teruy**neu enys prydein. y lladei ynteu y ben ef a dan y **coron. Ac o hynny geni teruysc y rygthunt. A gue**dy kynnulla6 llu m6yhaf a allassant o bob parth. **dyuot erbyn yn erbyn hyt y tu dra6 y humyr.** Ac yna wedy ymgyuaruot or deu lu. A dechreu ym**lad. colli a oruc catwalla6n llawer o uilyoed oe wyr. //**

LlGC 5266 t. 299
**Ae gymhell ehun ar fo. A chymryt y hynt a wna**eth ar fo tr6y y gogled. A chael llongeu a my**net hyt yn ywerdon. A guedy caffael o edwyn y uudugolyaeth** kerdet a oruc ynteu tr6y gyuoeth catwalla6n. a llosgi **y dinassoed ac eu hanreythya6. A llad y bilein*llu* ar tir**diwyllodron. Ac ar hynny eissyoes guedy caffael porth o **catwalla6n o ywerdon. keissya6 dyuot a oruc parth ac** enys prydein. A pha borthua bynnac y delhei y bydei ed**win a llu gantha6 yn y ludyas. Canys dewin doethaf** yn y byt a oed gan edwin. Pelis enwir oed y hen6. A **h6nn6 a adnabydei ar redec y syr. A th6ryf esgyll yr** adar y damweinyeu a delhei rac lla6. a hynny a uyn**agei ynteu y edwin. Ac 6rth hynny ny allei catwa**lla6n dyuot enys prydein. A Guedy g6ybot hynny **o catwalla6n anobeithya6 a oruc o tebygu na chaffei** byth dyuot tracheuyn y enys prydein. Ac or diwed **y cauas yn y gyghor mynet hyt yn llyda6. y adol6yn** nerth a chanhorth6y y gan selyf urenhin llyda6. megys **y gallei dyuot y6 gyuoeth tracheuyn. A throssi a wna**ethant eu h6yllyeu parth a llyda6. Ac yn hynny kyuodi **guynt kythra6l g6rth6yneb yn eu herbyn. Ac yn de**issy6yt guasgaru eu llyghes hyt nat oed un llong **y gyt ae gilid. A dirua6r ouyn a dygyrch6s llywyd** llong y brenhin. Ac ymada6 ae ly6 a oruc. Ac y*uelly* **y buant ar ua6d yn gyhyt ar nos. //**

LlGC 5266 t. 300
**mal y dyccei y tonneu h6nt ac yma. A phan do**eth y dyd trannoeth. y doethant y enys uechan yr **tir. sef oed y hen6 Garnarei. A guedy caffael y tir o**nadunt tr6y dirua6r lauur a mord6y. kleuychu a **wnaeth catwalla6n o orthr6m heint. y r6ng dolur** gantha6 colli y wyr. ar tymestyl ar mord6y a diuro**ed. Ar alltuded oed arna6 ynteu ehun. A chyn trym**het uu y heint. ac na lewes teir nos. a thri dyeu na **b6yt na dia6t. Ar petweryd dyd. y doeth arna6 blys** kic hely. A guedy mynegi ohona6 hynny y ureint **hir. kymryt bwa a wnaeth breint. A mynet y cr6ydra6** yr enys. y edrych a damwenyei ida6 caffael y ulys y6 **argl6yd. A guedy na chauas dim goueilyeint a thrist**tit a gymyrth ynda6. rac ouyn dyuot agheu y ar**gl6yd. am na chaffei yr hyn yd oed yn y chuenychu.** A chany 6ydyat hagen beth a wnaei. Aruer a oruc **o geluydyt ny gly6ssei eiryoet. trychu dryll o gy**hyr y uord6yt a chyllell ae dodi ar uer. ae ardym**heru yn da ae rodi y catwalla6n. Ae yssu a wnaeth** catwalla6n ida6 gan tebygu y mae kic anyueil guy**llt oed. A ryuedu yn ua6r a wnaeth. na ry ga6ssei** eyroet y ry6 chueith a blas. yr ga6ssei ar y gol6yth h6nn6. **Ac ar hynny y dechreuis grymhau y anyan. Ac er** ......ydyd yd oed yn yach. Ac yna dechreu a wna**...ant** **kyweirya6 eu llong. a dyrcha //**

LlGC 5266 t. 301
**uael h6yl a chymryt mora6l hynt. Ac y gaer gyda**let y doethant y tir llyda6. Ac odyna y doethant hyt **ar selyf urenhin llyda6. Ac y herbynn6s ynteu yn anrydedus.** A Guedy G6ybot o*hana6* yr

acha6s yr dothoedynt. ada6 **nerth a chanhorth6y a wnaeth udunt. a dywedut** megys hyn. Dolu~~l~~rus yw gennyf ui etholedigyon **wyr yeueinc bot gulat a6ch hen tadeu chui wedy** ry oresgyn o estra6n genedyl. A chuitheu wedy **a6ch dihol yn warad6ydus. ac ...ill oc a6c kenedyl** yn gywarssagedic a danunt. A p.ob kenedyl yn a6ch **kylch yn amdiffyn eu gulat yn 6ra6l. A ryued yw** gulat gystal a chyn gadarnhet ac enys prydein. na **ell6ch chuitheu y amdiffyn hi rac kenedyl saesson** pan oed a6ch hen tadeu chui a guyr y wlathon hon **yn y guarchad6 hi nyt oed wuy ganthunt no dim** y hamdiffyn rac y saesson a rac pob kenedyl. Ac 6yn**t6y a uydynt argl6ydi ar yr holl enyssed yn eu kylch** Ac ny bu un genedyl a allei g6rth6ynebu udunt **eithyr guyr ruuein. A chet bei darystygedic. Ar ys**peit y wyr ruuein. 6ynt a gymhell6yt eissyoes o**honei yn warad6ydus wedy llad eu tywyssogyon yn** ll6yr. Ac eissyoes yr pan duc maxen wledic. a chynan **meiryada6c y dylyedogyon o*honei* hyt y wlat hon** ny bu yno hayach yr hynny a allei kynydu y breint **idi tracheuyn. A chet ryfei rei heuyt a gynydei ud** //

LlGC 5266 t. 302

**unt beth oc eu breint. ereill a uei wannach a gollei** hynny eilweith. Ac 6rth hynny dolur y6 gennyf a6ch **guander. Canys un genedyl ym. ac o un en6 yn gelwir** brytanyeit. megys chuitheu. Ar wlat a ~~el6ch~~ wel6ch **chui yman yd ym ni yn y guarchad6 hi yn wra6l** ac yn y hamdiffyn rac pa6b oc an gelynyon. **A Guedy daruot y selyf dywedut yr ymadra6d h6n.** megys kewilydya6 a wnaeth catwalla6n. Ac atteb yr **brenhin a oruc ual hyn. Argl6yd urenhin heb ef. du6** a talho yt ry ada6 nerth a chanhorth6y ymi y geis**sya6 uyg kyuoeth tracheuyn a minheu ae diolych**af. yr hyn a dywedy ditheu bot yn ryued gennyt **llesget kenedyl enys prydein. hyt na allassant kyn**nal breint eu hen tadeu guedy dyuot y brytanyeit **hyt y wlat hon nyt reit ryuedu hynny herwyd** y tebygaf ui. sef acha6s y6 hynny. dylyedogyon yr **holl teyrnas. a duc y tywyssogyon hynny ganth**unt hyt y wlat hon. Ar anyledogyon a trigyassant **yno. A phan gauas yr anyledogyon medyant y guyr** ma6r bohedic dyleda6c. ymdyrchauael yg cam ry**uyc a syberwyt a wnaethant wynteu yn wuy** noc y canhyadei dylyet. Ac o ormodyon kyuoeth **a drythyll6ch a golut. ymrodi y odineb megys** na chly6yt y kyfry6 ym*plith* y kenedloed. A megys y dy**weit Gildas. hyt nat oed m6y y pecha6t h6nn6** //

LlGC 5266 t. 303

**no phob pecha6t or a uyd ym*plith* y kenedeloed. Ac** yn bennaf y peth a distry6 ansa6d yr holl da. Cassau gui**ryoned a charu kelwyd. a thalu dr6c dros da. anrydedu** enwired dros hygar6ch. Aruoll diawul dros egyl go**leuat. urda6 brenhined a wneynt or rei a 6ypynt** eu bot yn greulonhaf. Ac yn hynny tr6y d6yll ac en**wired y bredychynt ac y lledynt. Ac eilweith ethol** ereill a uei greulonach. Ac o bei un a garhei wi**ryoned yn wuy noe gilyd. h6nn6 a diholynt megys** bratwr enys prydein ac a distrywynt oc eu holl yn**ni. Ac y*uelly* y guneynt pob peth yg g6rth6ynep** y wiryoned. Ac ny cheissynt dim y gan uedyc yr holl **nerthoed. Ac y gyt a hynny. hyt nat m6y y guna**ei y dynyon byt hynny namyn y mynych ar guyr **egl6yssic. A chenueint duw ehunan. Ac 6rth hynny** nyt ryued bot yn gas gan duw y genedyl a wne**lhei y ry6 weithredoed hynny. Ac or acha6s h6nn6** colli o*nadunt* tref eu tat ac eu gulat. Cany**s du6 oed yn mynnu d6yn estra6n genedyl y** dial eu pechodeu arnadunt. Ac y eu diwreid**ya6 oc eu gulat. a thref eu tat. Ac eissyoes yr** hynny. teil6ng oed pei du6 ae canhyatei kei**ssya6 kynydu eu breint. ac eu hen teilygda6t** udunt. A b6r6 guartadwyd y 6rth am pria6t **genedyl. mal na ellit dywedut yn bot ni yn** //

LlGC 5266 t. 304

**tywyssogyon llesc na guallus mal na lauuryem y geissy**a6 b6r6 guaradwyd y 6rthunt. Ac yn achuanec y ~~hynny~~ **hynny hyach yd archaf ui dy ganhorth6y di noc 6n arall** canys yr un gorhendat a uu yn. an deu. sef oed h6nn6 **maelg6n G6yned goruchel urenhin enys prydein.** A uu petweryd yn guledychu guedy arthur. A deu uab **a uu ida6. ac einya6n oed en6 y neill o*nadunt*. A** Run oed y llall. Ac y einya6n y bu uab beli. Ac yr **beli h6nn6 y bu uab yago. y yago y bu uab Catuan** uyn tat inheu. A Run wedy mar6 einya6n. Ae dihol **ynteu or saesson. A doeth hyt y wlat hon. Ac a rodes y** uerch y howel uychan. uab howel uab emyr llyda6. **y g6r a uu y gyt ac arthur yn goresgyn y gulatoed.** ac yr uerch honno y bu alan yn uab o howel uych**an. Ac y alan y bu uab howel dy tat titheu y ...** a uu ryuel6r cadarn ar freinc tra uu uy6. Ac **. gynhelliis breint y genedyl yn wra6l. AC yna y .** trigy6s catwalla6n y gayaf h6nn6 y gyt a sel.**f urenhin llyda6. Ac yn eu kyt gyghor y ca6.**sant ell6ng breint hir hyt yn enys pry.**ein y edrych a rodei du6 ida6 o damwein** caffael pelis enwir llad. y dewin a oed

gyt **ac edwin. mal y bei ha6s y catwalla6n caffa**el dyuot enys prydein. A guedy dyuot breint **hir. hyt yn norhamt6n. kymryt a oruc guisc //**

LlGC 5266 t. 305
**achana6c amdana6. A guneuthur bagyl ida6 o hayarn** llym megys y gallei llad y dewin a hi. o chyuarf**ei ac ef. Ac odyna kerdet racda6 parth a chaer ef**ra6c y lle yd oed edwin yn yr amser h6nn6. Ac ual **yd oed yn gorymdeith ym*plith* yr achanogyon na**chaf chuaer ida6 yn dyuot allan or llys y gyrchu **d6uyr yr urenhines. honno yr dugassei edwin** gantha6 o gaer uragon 6rth y gossot yg wassa**naeth y urenhines. A guedy guelet o ureint y chu**aer. ae hadnabot gal6 a wnaeth arnei yn eithyr **leuan. A sef a wnaeth y uor6yn ryuedu p6y ae gal**wassei. A guedy y adnabot mynet yrdanc arnei. **rac ouyn o damwein y adnabot oe elynyon. A gue**dy mynet d6yla6 m6nygyl. megys yn rith ymad**ra6d arall mynegi a wneth y uor6yn ansa6d y** llys ida6. A dangos y dewin ida6 yr dothoed allan. **o damwein yr oric honno tra yt oedet yn rannu yr** achanogyon. A guedy adnabot o ureint y dewin. **ymgymysgu a wnaeth ar achanogyon yn y parth yd** oed y dewin yn ryoli. A phan gauas lle ac amser **yn gyntaf. gossot a wnaeth ar y dewin ae uagyl** hayarn a dan y uron. Ac ar yr un dyrna6t h6nn6 **y llada6d. Ac yn y lle b6r6 y 6agyl oe la6 ac ymge**mysgu ar achanogyon ereill. Ac 6rth hynny nyt **adnabu neb arna6 ry wneuthur y gyulauan. //**

LlGC 5266 t. 306
**A chynh6ryf ma6r a gyuodes yn y ~~lly~~ llys o acha6s ry** lad y dewin. A gossot guyr a guersylldyeu ar pyrth y **llys ar dinas y6 gad6 rac dianc y neb a ladassei y dewin.** Ac odyna eissyoes kychuyn a oruc breint hir parth ar di**nas a elwit exon. Ac yn y lle dyuynnu atta6 y brytanyeit** a chadarnhau y dinas ar gaer yn eu kylch. A mynegi a **wnaeth breint udunt megys y lladassei y dewin. Ac** odyna anuon tr6y gennadeu ar catwalla6n y uyne**gi ida6 ynteu ry lad y dewin. A guedy mynet y chued**yl h6nn6 yn honneit tros 6yneb enys prydein. Pean**da tywyssa6c mers a doeth a chynnulleitua ua6r** o saesson gantha6. hyt am ben exon y dinas yd oed ure**int hyr yn y warchad6. a dechreu ymlad ac ef.** AC ar hynny y doeth catwalla6n a deng mil o uarch**ogyon arua6c gantha6. yn borth ida6 y gan selyf 6re**nhin llyda6. A guedy y dyuot yn agos yr gaer yd **oed ureint yndi mal y guelei. rannu y uarchogyon** a oruc yn pedeir bydin. ac yn diannot kyrchu y ely**nyon. Ac yn y lle ar dechreu y 6r6ydyr daly peanda** a llad aneiryf oe lu. A guedy guelet o peanda nat **oed ford ida6 amgen y caffei ellygda6t na rydit.** daryst6ng a wnaeth y catwalla6n a g6rhau ida6. **A mynet y gyt ac ef y ymlad ar saesson ereill.** A dyuynnu guyrda enys prydein y gyt ac 6ynt **y rei a uuassei ar digrein tr6y lawer o amser a //**

LlGC 5266 t. 307
**chychuyn tr6y ~~lauur~~ humyr ar torr edwin. A dechreu anreith**ya6 y guladoed. Ac yna kynnulla6 a wnaeth edwin **a oed un ac ef or saesson. A dyuot yn erbyn catwa**lla6n hyt y maes hedfelt. ac yno rodi cat ar uaes ud**unt. Ac eissyoes tr6y weledigaeth du6 ar dechreu** y 6r6ydyr y llas edwin. Ac offrit y uab. A Godbolt **urenhin orc. A chanm6yhaf eu llu y gyt ac 6ynt.**. Guedy caffael o catwalla6n y uudugolyaeth honno. **medylya6 a wnaeth distry6 yr holl saesson. yn gyn** greulonhet ac yny kyuarfei saesnes ueichya6c ac **ef. Ae gledyf ehun y gellyngei y beichogi ar y** boly yr lla6r. Ac y*uelly* nyt arbedei catwalla6n nac **y wr nac y wreic nac y hen nac y yeuanc. nac y** uab nac y uerch. gan uedylya6 ei dileu yn ll6yr **o teruyneu enys prydein. Ac odyna ymlad a wna**eth catwa~~6~~lla6n ac osric y g6r kyntaf a doeth yn **urenhin yn lle edwin ae lad. ef a deu nyeint ida6** y rei a dylyynt guledychu guedy ef. **AC odyna y gunaethp6t oswallt yn urenhin yn lle** edwin. A h6nn6 a erlid6s catwalla6n o le y le. yny **doeth hyt y mur a wnaeth seueru̇s amhera6dyr gynt** y r6ng deiuyr a brennych. A guedy y fo hyt yno yd **anuones catwalla6n peanda a ran ua6r or llu y gyt** ac ef hyt yno. Ac ual yd oed oswallt wedy y gylch**ynu o peanda hyt nos yn y lle a elwir yn saesnec //**

LlGC 5266 t. 308
**heuifyl. Ac yg kymraec y maes neua6l. sef a wnaeth** oswallt dyrchauael del6 y groc ac erchi y6 gedym**deithyon dyg6ydya6 ar tal eu glinyeu. Ac o gyt dihe**wyt guedia6 yr holl gyuoetha6c duw. hyt pan uei **euo ac eu rydhaei y gan y llu seber6 h6nn6. Ac** y gan y cre~~l~~ula6n tywyssa6c oed arnadunt. Canyt **yt oedynt h6y herwyd y g6ydyat du6 yn keissya6 dim** namyn amdiffyn eu heneit ac eu kenedyl. A phan **yd oed y dyd trannoeth yn goleuhau. kyrchu eu gelyn**yon a wnaethant yn herwyd

euyrllit eu fyd. A **goruot a orugant y dyd h6nn6 ar peanda ae lu. A** guedy clybot o catwalla6n hynny. llidya6 a oruc yn **ua6r. A chynnulla6 y lu yn ll6yr ac ymlit oswallt** A guedy y odiwes yn y lle a elwit b6rnei y llada6d **peanda oswallt urenhin. A guedy llad oswallt** y doeth oswi aelwyn y ura6t yn urenhin wedy **ef. A guedy caffael o h6nn6 tywyssogyaeth y saesson** kynnulla6 llawer a wnaeth o eur ac aryan. ac an**uon rodyon ma6r y catwalla6n. y g6r oed oruch**el urenhin ar holl enys prydein. A rodi darystynge**digyaeth a g6rogaeth ida6. Ac y*uelly* tangneuedu** ac ef. Ac odyna y kyuodes yn erbyn oswi deu ny**eint ida6 ueibyon y ura6t. Alfrit ac odwalt. A** guedy na allassant ehunein dim yn y erbyn y do**ethant hyt ar peanda. y erchi porth ida6 6rth uy //**

LlGC 5266 t. 309
